Cyllid &
Thollau EF

# Canllaw ar gyfer llenwi'ch cyfrif Treth Etifeddiant

## I'w ddefnyddio ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022 yn unig

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i wneud y canlynol:

- llenwi'r ffurflenni sydd eu hangen arnoch i lenwi'ch cyfrif Treth Etifeddiant
- dilyn y drefn gywir er mwyn gwneud cais am grant profiant
- talu'r swm cywir o Dreth Etifeddiant, os bydd treth i'w thalu

Gwefan: www.gov.uk/treth-etifeddiant
Llinell Gymorth: 0300 200 1900

IHT400(2022) Nodiadau

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF am ragor o wybodaeth ac i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

# Cynnwys


## Rhagarweiniad

| | |
|---|---|
| Beth sydd yn y canllaw hwn | 1 |
| Cod unigryw drwy e-bost | 1 |
| Yr hyn rydym wedi'i anfon atoch | 1 |
| Pryd efallai na fydd angen i chi lenwi IHT400 | 1 |
| Grantiau cynrychiolaeth | 4 |
| Pan nad oes rhaid llenwi ffurflen IHT400 yn gyfan gwbl | 5 |
| Cyflwyno cyfrif llai pan nad oes unrhyw dreth i'w thalu | 5 |
| Beth sy'n rhaid i mi ei lenwi os gallaf gyflwyno ffurflen IHT400 lai? | 6 |
| Newidiadau yng ngweinyddiaeth ystâd | 7 |
| Treth Etifeddiant a'r grant | 7 |
| Iawndaliadau adeg rhyfel | 8 |
| Marwolaeth wrth weithredu yn y Lluoedd Arfog | 8 |
| Pryd y mae'n rhaid i mi ddychwelyd y ffurflen? | 8 |
| Pwy y dylech gysylltu â nhw a pham | 8 |
| Pa werthoedd i'w cynnwys | 9 |
| Dogfennau y mae'n rhaid i chi eu cadw | 9 |
| Offerynnau amrywio | 9 |

## Llenwi ffurflen IHT400 (tud. 1 i 6)

| | |
|---|---|
| Manylion yr ymadawedig, tudalen 1 | 10 |
| Os oedd domisil yr ymadawedig yn yr Alban ar ddyddiad ei farwolaeth, tudalen 2 | 12 |
| Manylion cyswllt y sawl sy'n ymdrin â'r ystâd, tudalen 3 | 12 |
| Awdurdod i ad-dalu Treth Etifeddiant, tudalen 3 | 12 |
| Beth sy'n rhan o'ch cyfrif ar gyfer Treth Etifeddiant - atodlenni, tudalennau 5 a 6 | 12 |
| Diffiniad o unigolyn anabl | 16 |

## Llenwi'r atodlenni

| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 19 |
| **Atodlen IHT403** | |
| Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth | 19 |
| **Atodlen IHT404** | |
| Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd | 24 |
| **Atodlen IHT407** | |
| Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol | 26 |
| **Atodlen IHT408** | |
| Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol a roddwyd i elusen | 27 |
| **Atodlen IHT409** | |
| Pensiynau | 28 |
| **Atodlen IHT411** | |
| Stoc a chyfranddaliadau wedi'u rhestru | 30 |
| **Atodlen IHT412** | |
| Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrir a daliannau sy'n rhoi rheolaeth | 32 |
| **Atodlen IHT413** | |
| *Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau* | 34 |
| **Atodlen IHT414** | |
| *Rhyddhad Amaethyddol* | 37 |
| **Atodlen IHT418** | |
| *Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth* | 39 |
| **Atodlen IHT420** | |
| *Asedion Treftadaeth Genedlaethol - Eithriad amodol a chronfeydd cynnal a chadw* | 42 |

## Llenwi ffurflen IHT400 (tud. 7 i 16)

| | |
|---|---|
| Asedion y gellir ac na ellir talu'r dreth ar eu cyfer fesul rhandaliad | 42 |
| Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd, tudalen 7 | 43 |
| Asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn llwyr, tudalennau 7 ac 8 | 43 |
| Didyniadau o'r ystâd a dalwyd hyd at ddyddiad y farwolaeth, tudalennau 9 a 10 | 48 |
| Delio â diffyg ariannol, tudalen 10 | 51 |
| Eithriadau a rhyddhad, tudalen 10 | 51 |
| Eithriadau a rhyddhad, tudalen 11 | 52 |
| Asedion eraill a ystyriwyd wrth gyfrifo'r dreth, tudalen 11 | 52 |
| Cyfrifo'r Dreth Etifeddiant, tudalen 12 | 53 |
| Talu Treth Etifeddiant fesul rhandaliad | 53 |
| Rhandaliadau sy'n rhydd o log | 54 |
| Rhandaliadau treth | 54 |
| Cyfrifiad Treth Etifeddiant syml | 55 |
| Cynllun Taliad Uniongyrchol | 55 |
| Datganiad, tudalen 13 | 56 |

# Cynnwys


## Yr hyn i'w wneud ar ôl i chi lenwi ffurflen IHT400

Gwneud cais am grant yng Ngogledd Iwerddon 57
Gwneud cais am grant yng Nghymru a Lloegr 57
Ffurflen C1, 'Stocrestr' - Yr Alban 57
Pan fyddwch wedi llenwi a llofnodi'r holl ffurflenni 57
Ble i anfon y ffurfleni 57
Beth os byddaf am i chi gyfrifo'r dreth ar fy rhan? 58
Beth sy'n digwydd pan rwyf yn cael grant? 58
Gallai'r Dreth Etifeddiant ar yr ystâd newid 58
Amcangyfrifon dros dro 58
Rhwymedigaethau 58
Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am newidiadau eraill i'r ystâd 58
Gwneud cais am grant
- yng Nghymru a Lloegr - os ydych yn drethdalwr, cyfreithiwr neu rywun arall sydd â thrwydded i ddarparu gwasanaethau profiant 59
- yn yr Alban - os ydych yn drethdalwr neu'n gyfreithiwr sy'n cyfrifo'r dreth 60
- yng Ngogledd Iwerddon - os ydych yn drethdalwr neu'n gyfreithiwr sy'n cyfrifo'r dreth 60
- yng Nghymru a Lloegr - heb gymorth cyfreithiwr neu rywun arall sydd â thrwydded i ddarparu gwasanaethau profiant, ac rydych am i ni gyfrifo'r dreth ar eich rhan 61
- yn yr Alban - heb gymorth cyfreithiwr, ac rydych am i ni gyfrifo'r dreth ar eich rhan 62
- yng Ngogledd Iwerddon - heb gymorth cyfreithiwr, ac rydych am i ni gyfrifo'r dreth ar eich rhan 63

## Talu Treth Etifeddiant

Talu ymlaen llaw 64
Trosglwyddiad electronig (CHAPS/Bacs) 64
Cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol 64
Grant ar Gredyd 64
Talu treth drwy drosglwyddo asedion yn lle arian 65
Beth fydd yn digwydd os caiff cyfranddaliadau a restrwyd neu dir ac adeiladau eu gwerthu am lai na'u gwerth? 65

## Sut i brisio'r asedion

Pa werth i'w ddefnyddio? 66
Amcangyfrif gwerth 66
Stociau a chyfranddaliadau 66
Nodau'r Gyfnewidfa Stoc 67
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol 68
Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol 68
Tir ac adeiladau 69
Prisio busnes 70
Tanysgrifenwyr Lloyd's 71
Prisio arian 71

## Eithriadau a rhyddhad

Eithriadau sy'n gymwys i roddion oes yn unig 72
Eithriadau sy'n gymwys i roddion oes a throsglwyddiadau ar farwolaeth 72
Elusennau cymwys 73
Rhoddion at ddibenion cenedlaethol 73
Eithriadau Treftadaeth Genedlaethol 73
Rhoddion i bleidiau gwleidyddol 73
Rhyddhad a allai fod yn gymwys i roddion oes a throsglwyddiadau ar farwolaeth 73
Rhyddhad rhag taliadau olynol 73
Rhyddhad arall 74
Rhyddhad Meinhau 74
Rhyddhad am gwymp mewn gwerth 75

## Ble i gynnwys eitemau yn yr ystâd 76

## Ffurflen adborth IHT400 78

## Cysylltiadau 80

## Ymwadiad e-bost gan CThEF 81

# Mynegai cynorthwyo i lenwi'r blychau ar ffurflen IHT400

## Llenwi ffurflen IHT400


| Blwch/blychau | | Tudalen |
|---|---|---|
| 3 | Cyfeirnod Treth Etifeddiant | 10 |
| 6 | Domisil | 10 |
| 7 | Os oedd domisil yr ymadawedig yn yr Alban | 12 |
| 14 | Rhif Yswiriant Gwladol | 12 |
| 15 | Rhif Treth Incwm neu Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr | 12 |
| 16 | Pŵer atwrnai | 12 |
| 17 i 22 | Manylion cyswllt | 12 |
| 23 | Awdurdod ad-dalu | 12 |
| 29a | Haen cyfradd sero preswyl | 13 |
| 29b | Trosglwyddo'r haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio | 13 |
| 29c | Trosglwyddo'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio | 13 |
| 30 | Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth | 13 |
| 31 | Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd | 13 |
| 32 | Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir | 14 |
| 36 | Pensiynau | 14 |
| 37 | Aswiriant bywyd a blwydd-daliadau | 14 |
| 38 | Stociau a chyfranddaliadau wedi'u rhestru | 14 |
| 39 | Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd, a daliadau rheoli | 15 |
| 44 | Asedion tramor | 15 |
| 45 | Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth | 15 |
| 46 | Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig | 17 |
| 47 | Asedion Treftadaeth Genedlaethol | 17 |
| 48 | Atodlenni | 18 |
| 49 a 50 | Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd | 43 |
| 51 | Preswylfa'r ymadawedig (ac eithrio ffermdai a thai mewn perchnogaeth ar y cyd) | 43 |
| 52 | Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu | 43 |
| 53 | Arian | 43 |
| 54 | Bondiau premiwm a chynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol | 44 |
| 55 | Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol | 44 |
| 56 | Pensiynau | 44 |
| 57 | Polisïau aswiriant bywyd a diogelu morgeisi | 44 |
| 62 | Gwarantau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rhai bwrdeisiol | 45 |
| 63 | Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau wedi'u rhestru | 45 |
| 64 | Difidendau neu log ar stociau, cyfranddaliadau a gwarantau | 45 |
| 65 | Cyfranddaliadau heb eu rhestru ac a fasnachir a chyfranddaliadau a heb eu rhestru ac eithrio daliadau rheoli | 45 |
| 66 | Rhandaliadau ar gyfranddaliadau | 46 |
| 67 | Daliadau rheoli o gyfranddaliadau heb eu rhestru ac a fasnachir a chyfranddaliadau wedi'u rhestru | 46 |
| 68 | Ffermydd, ffermdai a thir fferm | 46 |
| 69 | Busnesau gan gynnwys busnesau ffermio, asedion busnes a choed | 46 |
| 70 | Tir, adeiladau a hawliau eraill dros diroedd eraill | 47 |
| 71a 72 | Buddiant mewn ystâd arall | 47 |
| 73 | Dyledion sy'n ddyledus i'r ystâd | 47 |
| 74 | Ad-daliad Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf | 47 |
| 75 | Incwm o ymddiriedolaeth sy'n ddyledus i'r ymadawedig | 48 |
| 76 | Asedion eraill ac incwm sy'n ddyledus i'r ymadawedig | 48 |
| 80 | Morgeisi a benthyciadau wedi'u gwarantu | 49 |
| 81 | Treuliau angladd | 49 |
| 82 | Rhwymedigaethau eraill | 49 |
| 85 ac 86 | Delio â diffyg ariannol | 51 |
| 92 | Eithriadau a rhyddhad | 52 |
| 93 | Eithriadau a rhyddhad a ddidynnwyd o'r asedion yng ngholofn B | 52 |
| 99 a 100 | Asedion eraill a ystyriwyd wrth gyfrifo'r dreth | 52 |
| 101 | Asedion enwebedig | 53 |
| 105 | Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn talu treth arnynt nawr | 53 |
| 109 | Cyfradd is y Dreth Etifeddiant | 53 |
| 110 | Rhandaliadau treth | 54 |
| 111 i 119 | Cyfrifiad Treth Etifeddiant syml | 55 |
| 120 | Cynllun Taliadau Uniongyrchol | 55 |
| 121 | Datganiad | 56 |

# Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i lenwi ffurflen IHT400 ac mae'n cynnwys cymorth gyda'r atodlenni y gwnaethom eu hanfon atoch chi, y bydd angen i chi lenwi rhai ohonynt o bosib

## Rhagarweiniad

### Beth sydd yn y canllaw hwn

Yn ogystal â'r ffurflen IHT400, efallai y bydd rhaid i chi lenwi rhai o'r atodlenni sy'n mynd gyda hi hefyd. Mae'r nodiadau yn y canllaw hwn yn dilyn rhifau'r blychau ar ffurflen IHT400. Cynhwysir nodiadau i'ch helpu i lenwi'r atodlenni, yn y canllaw hwn hefyd.

Rydym yn cyfeirio at yr unigolyn a fu farw, yn y canllaw hwn ac yn ffurflen IHT400, fel 'yr ymadawedig'.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn ateb y rhan fwyaf o'ch cwestiynau. Os oes angen rhagor o help arnoch,

- ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
- ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 0300 200 1900

Mae'r nodiadau hyn yn gymwys pan fu farw unigolyn ar 18 Mawrth 1986, neu ar ôl hynny. Os bu unigolyn farw cyn y dyddiad hwn, ffoniwch ein Llinell Gymorth.

### Cod unigryw drwy e-bost

Os ydych yn gwneud cais am Brofiant yng Nghymru neu Loegr neu'n gwneud cais am gadarnhad yn yr Alban, fe welwch ddatganiad e-bost ar dudalen 15 i roi caniatâd i ni anfon eich Cod Unigryw Profiant/llythyr o gadarnhad i chi drwy e-bost. Caiff hwn ei anfon ar ôl i'r IHT400 gael ei phrosesu.

Sylwer - byddwn ond yn defnyddio'r e-bost hwn i anfon yr wybodaeth am y cod unigryw. Ni allwn ddefnyddio'r e-bost hwn ar gyfer unrhyw ohebiaeth arall.

### Yr hyn rydym wedi'i anfon atoch

Os ydych yn gwneud cais am grant heb gymorth cyfreithiwr, unigolyn arall sydd â thrwydded i ddarparu gwasanaethau profiant, neu asiant arall, dylech fod wedi cael ffurflen IHT400, y canllaw hwn a rhai o'r atodlenni y credwn sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o ystadau (ewch i dudalen 4 i gael yr wybodaeth am grantiau). Ond eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr eich bod yn llenwi'r atodlenni cywir. Does dim rhaid i chi lenwi unrhyw atodlen nad yw'n berthnasol, hyd yn oed os ydym wedi'i chynnwys gyda'r pecyn.

Os bydd angen unrhyw atodlen arall arnoch, gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ffoniwch y Llinell Gymorth.

Gwefan:
www.gov.uk/treth-etifeddiant
Llinell Gymorth: 0300 200 1900

### Pryd efallai na fydd angen i chi lenwi ffurflen IHT400

**Ystadau eithriedig**
Mae ystâd eithriedig yn ystâd lle nad oes Treth Etifeddiant yn ddyledus ac nid oes angen cyfrif Treth Etifeddiant llawn ar ffurflen IHT400.

Os yw rhywun yn marw ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022 ac maent yn preswylio yn y DU, mae angen i chi roi gwybodaeth am eu hystadau eithriedig gwerth isel cymwys ac ystadau sydd wedi'u heithrio ar eich cais am brofiant (PA1A neu PA1P) gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlThEF) yng Nghymru a Lloegr. NIPF1 neu NIPF2 gyda Gwasanaeth Llysoedd a

Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon (NICTS) yng Ngogledd Iwerddon, nid ar ffurflen IHT205 'Datganiad gwybodaeth am yr ystâd'. Yn yr Alban, ar gais am gadarnhad (C1) gyda Llys y Siryf, nid ar ffurflen C5.

Ar gyfer preswylwyr yn y DU nad ydynt yn preswylio yn y tymor hir neu bobl sydd â'u domisil dramor, os ydych yn gwneud cais am brofiant ar gyfer asedion sydd yn y DU yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, defnyddiwch ffurflen IHT207 'Datganiad gwybodaeth am yr ystâd', neu os ydych yn gwneud cais am gadarnhad ar gyfer asedion sydd yn y DU yn yr Alban, defnyddiwch ffurflen C5(OUK) 'Datganiad gwybodaeth am yr ystâd' ('Return of estate information').

Os gwyddoch fod Treth Etifeddiant yn ddyledus, does dim angen i chi ddarllen tudalennau 2 a 3 y canllaw hwn.

Ceir 3 math o ystâd eithriedig:
- ystadau sydd â gwerthoedd isel
- ystadau sydd wedi'u heithrio
- preswylwyr yn y DU nad ydynt yn preswylio yn y tymor hir (neu ar gyfer marwolaethau cyn 6 Ebrill 2025, pobl sydd â'u domisil dramor)

Mae'r rheolau sy'n gymwys i farwolaethau ar 1 Ionawr 2022, neu ar ôl hynny, yn dechrau ar dudalen 2.

Ar gyfer marwolaethu ar neu cyn 31 Rhagfyr 2021 darllenwch yr arweiniad yn IHT400(2021) Nodiadau. Ewch i www.gov.uk/government/publications/inheritance-tax-inheritance-tax-account-iht400.cy

Ar gyfer marwolaethau cyn 1 Medi 2006, ffoniwch ein Llinell Gymorth neu ewch i'n gwefan.

Peidiwch â llenwi ffurflen IHT400 os yw'r ystâd yn ystâd eithriedig. Mewn rhai ystadau, efallai mai dim ond rhan o'r ffurflen bydd yn rhaid i chi ei llenwi. Bydd yn rhaid i chi lenwi math gwahanol o gyfrif ar gyfer rhai mathau arbennig o grantiau. Ceir rhagor o wybodaeth am fathau gwahanol o grant ar dudalen 4. Os bydd unrhyw un o'r rhain yn gymwys, ffoniwch ein Llinell Gymorth i ddarganfod pa ffurflen i'w defnyddio.

**Gwerth gros yr ystâd**
Cyfanswm gwerth yr holl asedion a gynhwysir yn ystâd yr ymadawedig cyn didynnu dyledion.

**Trosglwyddiadau a bennir**
Rhoddion o arian parod, nwyddau'r tŷ a nwyddau personol, cyfranddaliadau a restrwyd neu warantau neu roddion llwyr o dir neu adeiladau i unigolion, nid rhoddion i ymddiriedolaeth. Er mwyn i ystâd gael ei derbyn fel ystâd eithriedig, ni all trosglwyddiadau penodedig, ac a wnaed mwy na 7 mlynedd cyn y farwolaeth, fod yn fwy na £250,000.

**Rhodd â budd amodol**
Rhodd nad yw'n cael ei rhoi'n llwyr, ac o ganlyniad mae'r unigolyn sy'n cael y rhodd yn gwneud hynny gydag amodau ynghlwm wrtho, neu mae'r unigolyn sy'n rhoi'r rhodd yn cadw rhywfaint o'r budd ar ei gyfer ei hun.

### Ystadau gyda gwerthoedd isel

Mae'r ystadau hyn yn rhai lle na all rhwymedigaeth i Dreth Etifeddiant fodoli, oherwydd nad yw gwerth gros yr ystâd yn fwy na'r haen cyfradd sero Treth Etifeddiant neu ddwywaith yr haen cyfradd sero pan fod yna hawliad dilys i drosglwyddo'r haen cyfradd sero nas defnyddiwyd o briod neu bartner sifil a fu farw o flaen yr unigolyn y gwneir y cais ar ei gyfer.

Mae'r amodau ar gyfer yr ystadau hyn fel a ganlyn:
- ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025, roedd yr ymadawedig yn breswylydd tymor hir yn y DU yn union cyn ei farwolaeth (neu ar gyfer marwolaethau cyn 6 Ebrill 2025, bu farw'r ymadawedig tra'r oedd yn ddomisil yn y DU)
- nid yw gwerth gros yr ystâd yn fwy na'r haen cyfradd sero Treth Etifeddiant (ewch i'r nodyn ar dudalen 3)
- os yw'r ystâd yn cynnwys asedion mewn ymddiriedolaeth, cânt eu cadw mewn ymddiriedolaeth unigol, ac nid yw'r gwerth gros yn fwy na £250,000
- os yw'r ystâd yn cynnwys asedion tramor, nid yw eu gwerth gros yn fwy na £100,000
- os oes trosglwyddiadau penodedig, nid yw eu gwerth trethadwy yn fwy na £250,000
- nid oedd yr ymadawedig wedi gwneud rhodd â budd amodol
- rhaid i roddion o incwm sydd â chyfanswm o fwy na £3,000 mewn unrhyw flwyddyn gael eu dangos yn llawn

**Preswylydd tymor hir yn y DU**

O 6 Ebrill 2025 ymlaen, mae unigolyn yn breswylydd tymor hir yn y DU os yw'r unigolyn wedi bod yn breswyl yn y DU am o leiaf 10 allan o'r 20 blwyddyn dreth ddiwethaf yn union cyn y flwyddyn dreth pan gododd y digwyddiad trethadwy (gan gynnwys marwolaeth).

Pan fo unigolyn yn breswylydd tymor hir yn y DU ac yn dod yn breswylydd yn y DU nad ydynt yn breswylydd tymor hir, bydd yr unigolyn yn parhau i fod o fewn terfynau Treth Etifeddiant am isafswm o 3 blynedd ac uchafswm o 10 mlynedd yn dibynnu ar faint o amser y mae wedi bod yn breswyl yn y DU. Ewch i www.gov.uk/hmrc-intenal-manuals/inheritance-tax-manual/ihtm47000

**Domisil**

Yn gyffredinol, domisil person yw ble mae gan y person ei brif gartref neu ei gartref sefydlog, a phan fydd yn absennol o'r cartref hwnnw y mae'r person bob amser yn bwriadu dychwelyd ato. Ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/inheritance-tax-manual/ihtm13000

**Legitim**

O dan gyfraith yr Alban, efallai y bydd gan aelodau penodol o'r teulu hawliau cyfreithiol i rai o'r asedion yn ystâd y person. Yn fras, 'legitim' yw term cyfreithiol yn yr Alban am yr hawliau sydd efallai gan blentyn i rai o asedion yn ystâd rhiant. Ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/inheritance-tax-manual/ihtm35211

- does dim tâl yn codi ar farwolaeth yr unigolyn o dan y darpariaethau mewn perthynas â phensiynau a sicrhawyd trwy ddull amgen

Ar gyfer hawliadau i drosglwyddo'r haen cyfradd sero nas defnyddiwyd o ystâd priod neu bartner sifil a bu farw'n gyntaf, mae'r amodau ychwanegol canlynol yn gymwys:

- rhaid i'r haen cyfradd sero llawn fod ar gael i'w throsglwyddo o'r farwolaeth gynharach
- dim ond un priod neu bartner sifil a fu farw o flaen yr unigolyn y gwneir y cais ar ei gyfer
- gwneir hawliad addas i drosglwyddo'r haen cyfradd sero nas defnyddiwyd

**Ystadau sydd wedi'u heithrio**

Mae'r rhain yn ystadau lle na all unrhyw rwymedigaeth i Dreth Etifeddiant godi oherwydd nid yw gwerth gros yr ystâd yn fwy nag £3 miliwn, ac nid oes treth i'w thalu oherwydd bod un neu ddau o'r eithriadau canlynol yn berthnasol:

- Eithriad Priod neu Bartner Sifil
- Eithriad Elusennol

Ni ellir cymryd eithriad neu ryddhad arall i ystyriaeth.

Gellir didynnu Eithriad Elusennol dim ond os oedd y rhodd i'r sefydliad dan sylw'n un absoliwt.

Mae'r amodau ar gyfer yr ystadau hyn fel a ganlyn:

- roedd domisil yr ymadawedig a phriod neu bartner sifil yr ymadawedig bob amser yn y Deyrnas Unedig
- nid yw gwerth gros yr ystâd yn fwy nag £3 miliwn ac nid yw gwerth trethadwy net yr ystâd ar ôl didynnu rhwymedigaethau ac Eithriad Priod neu Bartner a/neu Eithriad Elusennol yn unig yn fwy na'r trothwy Treth Etifeddiant
- os yw'r ystâd yn cynnwys asedion mewn ymddiriedolaeth, cânt eu cadw mewn ymddiriedolaeth unigol ac nid yw'r gwerth gros yn fwy na £250,000 - pan fo'r ymddiriedolaeth yn cynnwys asedau sy'n cael eu trosglwyddo i'r priod neu'r partner sifil neu i elusen, cyfyngir gwerth gros yr asedau yn yr ymddiriedolaeth i £1 miliwn (gyda therfyn o £250,000 ar asedau trethadwy'r ymddiriedolaeth)
- os yw'r ystâd yn cynnwys asedion tramor, nid yw eu gwerth gros yn fwy na £100,000
- os oes trosglwyddiadau penodedig, nid yw eu gwerth trethadwy yn fwy na £250,000, ac ni wnaeth yr ymadawedig rhodd â budd amodol
- rhaid i roddion o incwm o fwy na £3,000 mewn unrhyw flwyddyn gael eu dangos yn llawn
- does dim tâl yn codi ar farwolaeth yr unigolyn o dan y darpariaethau mewn perthynas â phensiynau a sicrhawyd trwy ddull amgen

Yn yr Alban, rhaid i'r Eithriad Priod neu Bartner Sifil a/neu Eithriad Elusen gael ei gyfrifo ar y sail y bydd unrhyw hawl i legitim yn erbyn yr ystâd yn cael ei hawlio'n llawn. Mewn geiriau eraill, dim ond lleiafswm Eithriad Priod neu Bartner Sifil a/neu Eithriad Elusen sydd ar gael ar ôl cyfrif am legitim y gellir ei ddidynnu er mwyn sefydlu a eir y tu hwnt i haen cyfradd sero y Dreth Etifeddiant.

**Pobl sydd â'u domisil dramor neu breswylwyr yn y DU nad ydynt yn breswylwyr tymor hir**

Dyma'r ystadau lle na ellir cael rhwymedigaeth i Dreth Etifeddiant oherwydd nad yw gwerth gros yr ystâd yn y Deyrnas Unedig yn fwy na £150,000.

Mae'r amodau ar gyfer yr ystadau hyn fel a ganlyn:

- ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025, nid oedd yr ymadawedig yn breswylydd tymor hir yn y DU yn union cyn ei farwolaeth (neu ar gyfer marwolaethau cyn 6 Ebrill 2025, bu farw'r ymadawedig tra'r oedd yn ddomisil y tu allan i'r DU)
- ers 6 Ebrill 2025, roedd yr ymadawedig erioed wedi bod yn breswylydd tymor hir yn y DU
- ar adegau cyn 6 Ebrill 2025, roedd yr ymadawedig erioed yn ddomisil yn y DU, neu nid yw wedi'i drin fel bod ei ddomisil yn y DU at ddibenion Treth Etifeddiant
- dim ond arian parod neu warantau a chyfranddaliadau wedi'u rhestru a drosglwyddir o dan ewyllys, neu ddiewyllysedd, neu drwy oroesedd, a oedd yn ffurfio ystâd yr ymadawedig

Os yw'r ystâd yn gymhwysol fel domisil dramor neu breswylydd yn y DU nad yw'n breswylydd tymor hir, y ffurflen gywir i'w defnyddio yw ffurflen IHT207, 'Datganiad gwybodaeth am yr ystâd' (ffurflen C5(OUK) yn yr Alban).

### Haen cyfradd sero Treth Etifeddiant

Pan fyddwch yn penderfynu a yw gwerth yr ystâd yn is na haen cyfradd sero Treth Etifeddiant (ar gyfer ystadau eithriedig yn unig), mae'r haen cyfradd sero cywir i'w defnyddio yn dibynnu ar ddyddiad y farwolaeth a'r dyddiad y byddwch yn gwneud cais am y grant.

Os oedd y farwolaeth rhwng 6 Awst a 5 Ebrill (yn gynwysedig) mewn unrhyw flwyddyn dreth, dylech ddefnyddio'r haen cyfradd sero a oedd mewn bodolaeth ar adeg y farwolaeth.

Os oedd y farwolaeth ar ôl 5 Ebrill ond cyn 6 Awst mewn unrhyw un flwyddyn dreth, ac rydych yn gwneud cais am grant cyn 6 Awst y flwyddyn honno, yr haen cyfradd sero y dylid ei defnyddio yw'r un o'r flwyddyn dreth cyn yr un y bu farw'r ymadawedig.

Gallwch ddod o hyd i restr o haenau cyfradd sero ar ffurflen IHT400, 'Cyfraddau a thablau'.

## Grantiau cynrychiolaeth

Fel arfer, bydd angen grant cynrychiolaeth arnoch er mwyn cael gafael ar y rhan fwyaf o'r asedion yn ystâd yr ymadawedig. Mae sawl math gwahanol o grant. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y ddau fath mwyaf cyffredin yw:

- grant profiant - pan fydd yr ymadawedig wedi gadael ewyllys
- grant llythyron gweinyddu - pan na fydd yr ymadawedig wedi gadael ewyllys

Yn yr Alban ceir grant Cadarnhad *('Confirmation')*. Drwy gydol y canllaw hwn byddwn yn cyfeirio at bob grant cynrychiolaeth fel y 'grant'.

### Mathau arbennig o grantiau

Ceir nifer o fathau arbennig o grantiau a allai fod yn gymwys mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft:

- grant am gyfnod cyfyngedig - efallai tra bod anghydfod cyfreithiol ynglŷn â dilysrwydd ewyllys
- grant a gyfyngir i rai asedion penodol - efallai pan fydd nwyddau byrhoedlog sydd angen eu cadw, neu pan fo'r ymadawedig wedi penodi ysgutor ar gyfer asedion penodol - er enghraifft, gallai awdur benodi ysgutor llenyddol

Gall y tîm ymholiadau cyffredinol Profiant Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlTEF) roi rhagor o wybodaeth i chi am y mathau arbennig hyn o grant a ph'un a allent fod o ddefnydd i chi wrth ddelio ag

ystâd yr ymadawedig. Byddant yn rhoi gwybod i chi hefyd am y math o grant sydd dan sylw. Gweler ffurflen PA4SOT, ewch i www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i ni pa fath o grant sydd dan sylw drwy ateb cwestiwn 121 ar dudalen 13 ffurflen IHT400.

Bydd yn dal i fod yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen IHT400 yn llawn pan fo'r grant am gyfnod cyfyngedig. Pan fo'r grant wedi'i gyfyngu i asedion penodol, byddwn yn rhoi gwybod i chi sut i lenwi ffurflen IHT400 yn y paragraffau isod. Mae gwybodaeth am wneud cais am grant ar dudalennau 60 i 64 y canllaw hwn.

## Pan nad oes rhaid llenwi ffurflen IHT400 yn gyfan gwbl

Ceir rhai mathau o grantiau lle nad oes rhaid i chi lenwi ffurflen IHT400 yn llwyr.

Pan fo'r grant arfaethedig i'w gyfyngu i asedion penodol, dylech gynnwys yr asedion i'w cwmpasu gan y grant ar dudalennau 7 i 9 ffurflen IHT400. Dylid cynnwys yr holl asedion eraill sy'n rhan o ystâd yr ymadawedig, ond sydd i'w heithrio o'r grant, ym mlwch 76 ar ffurflen IHT400. Dylech lenwi tudalennau 1 i 6 hefyd a blychau 83 i 108 ffurflen IHT400 ac ateb y cwestiynau ar dudalennau 5 a 6. Bydd yn rhaid i chi hefyd lenwi a llofnodi'r datganiad ar dudalennau 13 ac 14. Ar yr adeg hon, dylech ganolbwyntio ar lenwi'r atodlenni sy'n gymwys i'r asedion y mae angen grant ar eu cyfer.

Os bydd yn rhaid i chi wneud cais ar gyfer Grant Tir Setledig oherwydd bod tir yn parhau i fod yn dir setledig ar ôl marwolaeth y tenant oes, yna ni ddylech lenwi Atodlen IHT418, *'Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth'*. Dylid defnyddio ffurflen IHT400 ac Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir' yn lle, i roi manylion y tir setledig. Dylech ychwanegu'r geiriau hyn mewn man gwag yn y datganiad ar dudalen 13: 'cyfyngir i'r tir setledig, y rhoddir gwir fanylion a gwerth ar ei gyfer'. Dylid nodi'r holl eiddo arall sy'n rhan o ystâd yr ymadawedig ym mlwch 105 ar ffurflen IHT400. Dylech lenwi tudalennau 1 i 6 ffurflen IHT400 fel petaent yn gysylltiedig â'r tir setledig yn unig.

Pan na adawyd ystâd gan yr ymadawedig, ac mae angen y grant dim ond am asedion (nid tir setledig) yr oedd yr ymadawedig yn ymddiriedolwr ar eu cyfer, bydd yn rhaid i chi lenwi blychau 1 i 22 a'r datganiad ar dudalennau 13 ac 14 ffurflen IHT400 yn unig. Does dim rhaid i chi gynnwys yr asedion yn y cyfrif na llenwi blychau 23 i 120 ffurflen IHT400.

## Cyflwyno cyfrif llai pan nad oes unrhyw dreth i'w thalu

Os nad oes treth i'w thalu oherwydd bod y rhan fwyaf o'r ystâd, neu'r cyfan ohono, wedi'i heithrio rhag Treth Etifeddiant, efallai y gallwch lenwi ffurflen IHT400 lai. Dylech yn gyntaf wirio bod yr ystâd yn ystâd eithriedig trwy ddarllen tudalennau 1 i 3 o'r canllaw hwn. Os yw'n ystâd sydd wedi'i heithrio, dylech ddefnyddio ffurflen PA1A neu PA1P yng Nghymru a Lloegr, ffurflen C1 yn yr Alban a ffurflen NIPF1 neu NIPF2 ynghyd â ffurflen NIPF7 yng Ngogledd Iwerddon, ac ni ddylech ddarllen y canllaw hwn ymhellach.

Er mwyn gallu llenwi ffurflen IHT400 lai, mae'n rhaid bod yr ymadawedig wedi bod yn breswylydd tymor hir yn y DU yn union cyn ei farwolaeth (neu ar gyfer marwolaethau cyn 6 Ebrill 2025, mae'n rhaid bod yr ymadawedig wedi bod yn ddomisil yn y DU ar ddyddiad y farwolaeth). Hefyd, mae'n rhaid bod asedion neu gymynroddion yn cael eu trosglwyddo o dan yr ewyllys, neu'n ddiewyllys, i un o'r buddiolwyr canlynol sydd wedi'u heithrio:

- priod neu bartner sifil sy'n goroesi - naill ai'n uniongyrchol neu i ymddiriedolaeth y mae gan y priod neu'r partner sifil yr hawl i elwa ohoni

- elusen gymwys
- corff cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig, fel yr Amgueddfa Brydeinig neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Os ydych am wybod a yw corff neu elusen genedlaethol benodol yn gymwys ai peidio ar gyfer yr eithriad, dylech ffonio'r Llinell Gymorth am gyngor.

Bydd yn rhaid i chi wedyn adio at ei gilydd gwerth gros (y gwerth cyn didynnu rhwymedigaethau, rhyddhad neu eithriadau) asedion a drosglwyddir i unrhyw un heblaw'r buddiolwyr a eithriwyd, a rhestrwyd uchod ac unrhyw un o'r canlynol na drosglwyddir i fuddiolwyr a eithriwyd:

- cyfran yr ymadawedig o asedion mewn perchnogaeth ar y cyd
- asedion a roddodd yr ymadawedig am ddim yn y 7 mlynedd cyn y farwolaeth
- unrhyw asedion a roddodd yr ymadawedig am ddim, ond roedd wedi cadw budd ynddynt
- asedion y tu allan i'r Deyrnas Unedig nad ydynt yn cael eu trosglwyddo o dan ewyllys neu ddiffyg ewyllys yn y Deyrnas Unedig

Os ydy'r cyfanswm yn llai neu'n gyfwerth â haen cyfradd sero Treth Etifeddiant, yna gallwch lenwi ffurflen IHT400 lai. Os ydych yn hawlio trosglwyddiad o'r haen cyfradd sero nas defnyddiwyd, gallwch ei ychwanegu at yr haen cyfradd sero ar ddyddiad y farwolaeth. Os ydy'r cyfanswm yn llai na'r haen cyfradd sero ynghyd â'r haen cyfradd sero a drosglwyddwyd, gallwch lenwi ffurflen IHT400 lai.

## Beth sy'n rhaid i mi ei lenwi os gallaf gyflwyno ffurflen IHT400 lai?

Os gallwch lenwi ffurflen IHT400 lai, bydd yn rhaid i chi lenwi'r rhannau canlynol o'r ffurflen yn unig:

- blychau 1 i 28 - llenwch yn llawn
- blychau 29 i 48 - rhaid i chi ateb pob cwestiwn, ond efallai na fydd rhaid llenwi pob atodlen

Os atebwch yn gadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau canlynol, rhaid i chi lenwi'r atodlen berthnasol:

- cwestiwn 29c - llenwch Atodlen IHT402
- cwestiwn 30 - llenwch Atodlen IHT403
- cwestiwn 31 - llenwch Atodlen IHT404
- cwestiwn 35 - llenwch Atodlen IHT408
- cwestiwn 36 - llenwch Atodlen IHT409
- cwestiwn 44 - llenwch Atodlen IHT417
- cwestiwn 45 - llenwch Atodlen IHT418
- cwestiwn 47 - llenwch Atodlen IHT420

Pan fo ased a gynhwyswyd yn unrhyw un o'r atodlenni uchod yn cael ei drosglwyddo i fuddiolwr a eithriwyd, gallwch gynnwys eich amcangyfrif eich hun o'r 'gwerth ar y farchnad agored', ond rhaid i chi beidio â chynnwys gwerth nominal.

Os atebwch yn gadarnhaol i gwestiynau eraill, does dim rhaid i chi lenwi'r atodlen berthnasol os ydy pob un o'r asedion dan sylw yn cael eu trosglwyddo i fuddiolwyr a eithriwyd. Yn lle hynny, dylech ysgrifennu gwerth yr asedion hynny yn uniongyrchol ar ffurflen IHT400 yn y blychau ar dudalennau 7 ac 8.

Mae hyn yn golygu petai gwarged yr ystâd yn cael ei adael mewn cyfrannau i nifer o fuddiolwyr, er enghraifft, 'hanner i'm gwraig a'r hanner sy'n weddill i'm plant wedi'i rannu'n gyfartal', yna rhaid i chi lenwi ffurflen IHT400 lawn.

Dylech lenwi'r blychau ar dudalennau 7 i 10 ar gyfer y gwahanol asedion a rhwymedigaethau. Pan fo'r ased yn cael ei drosglwyddo i fuddiolwr a

eithriwyd, gallwch gynnwys eich amcangyfrif eich hun o'r 'gwerth ar y farchnad agored' ond rhaid i chi beidio â chynnwys gwerth nominal.

Rhestrwch yr holl asedion sy'n cael eu trosglwyddo i fuddiolwyr a eithriwyd ym mlychau 92 a 93 fel y bo'n briodol.

Peidiwch â chynnwys blychau 109 a 110 oherwydd ni ddylai fod unrhyw dreth i'w thalu, ond llenwch flychau 111 i 119 i wneud yn siŵr.

Gadewch flwch 120 allan, ond llenwch y datganiad ar flwch 121. Does dim rhaid i chi restru gwerthoedd a amcangyfrifwyd pan fo'r asedion yn cael eu trosglwyddo i fuddiolwyr a eithriwyd.

Defnyddiwch y rhestr wirio ar dudalen 16 ffurflen IHT400 i wneud yn siŵr eich bod yn cofio amgáu'r holl ddogfenni sy'n rhaid i ni eu gweld, ond peidiwch â chynnwys prisiadau sy'n eu hategu os ydy'r asedion dan sylw yn cael eu trosglwyddo i fuddiolwyr a eithriwyd.

## Newidiadau yng ngweinyddiaeth ystâd

Pan fydd newidiadau yng ngweinyddiaeth ystâd, gallwch wneud cais am grant er mwyn caniatáu parhad y gweinyddu, cyhyd â bod yr asedion dan sylw wedi'u cynnwys mewn grant cynharach.

**Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ffurflen Cap A5C (ar gael drwy ffonio ein Llinell Gymorth) (neu ffurflen Cap A5N yng Ngogledd Iwerddon) os ydych yn gwneud cais am:

- grant profiant dwbl – pan nad oedd ysgutor (efallai o ganlyniad i afiechyd) yn rhan o'r cais gwreiddiol am grant, ond ar ôl gwella mae'r ysgutor am ymgymryd â'r swydd
- *grant de bonis non administratis* – pan fo'r unig ysgutor, neu'r ysgutor olaf sy'n dal yn fyw, yn marw heb ddelio â'r ystâd yn llawn

Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi i Brofiant GLlTEF, os ydych yn gwneud cais am y grant yng Nghymru a Lloegr. Os ydych yn gwneud cais yng Ngogledd Iwerddon, anfonwch y ffurflen i'r Swyddfa Brofiant, Belfast. Peidiwch â'i hanfon atom yn gyntaf.

Gwefan:
www.gov.uk/treth-etifeddiant
Llinell Gymorth: 0300 200 1900

**Yr Alban**

Os oes angen *'Eik to Confirmation'* arnoch ar gyfer asedion ychwanegol neu i ddiwygio ystâd, dylech lenwi ffurflen C4(S), *'Cyfrif a Stocrestr Gywirol'* a'i hanfon atom. Ar ôl i ni ei gwirio, byddwn yn ei stampio ac yn dychwelyd y ffurflen atoch, er mwyn i chi ei hanfon at y Siryf neu'r Clerc Comisari. Os bydd angen *'Eik to Confirmation ad non executa'* arnoch (pan nad yw'r ystâd wedi ei gweinyddu'n gyflawn a lle nad oes un o'r ysgutorion, neu eu dirprwyon, yn dal yn eu swydd), dylech gael ffurflen X-1 oddi wrth y Siryf neu'r Clerc Comisari.

## Treth Etifeddiant a'r grant

Rhaid i chi dalu unrhyw Dreth Etifeddiant a llog sy'n ddyledus cyn y gallwch gael grant. Golyga hyn y bydd yn rhaid i chi dalu'r holl dreth nad yw'n cael ei thalu fesul rhandaliad. Efallai y bydd yn rhaid i chi hefyd dalu ychydig o'r dreth sy'n cael ei thalu fesul rhandaliadau os ydych yn talu ar ôl y dyddiad y daw'r dreth yn ddyledus.

Gellir talu'r dreth ar rhai asedion trwy 10 rhandaliad blynyddol. Mae'r gyfraith yn datgan bod yn rhaid i ni godi llog o ddiwrnod cyntaf y seithfed mis ar ôl y mis y bu'r unigolyn farw.

Er enghraifft, os bu farw unigolyn ar 7 Ionawr, byddwn yn codi llog o 1 Awst. Does dim gwahaniaeth pam na fyddwch wedi talu'r dreth erbyn hynny. Bydd y llog yn ddyledus o hyd.

Ceir rhagor o wybodaeth am dalu fesul rhandaliad ar dudalen 55 y canllaw hwn.

## Iawndaliadau adeg rhyfel

Os cafodd yr ymadawedig iawndal yn ystod ei fywyd am niwed personol a achoswyd gan Lywodraethau Siapan neu'r Natsïaid, dylech ostwng swm y dreth a godir ar yr ystâd gan y lleiaf o:

- 40% o'r taliadau a gafwyd
- swm y dreth sy'n daladwy cyn caniatáu'r didyniad

Er enghraifft, cafodd yr ymadawedig daliad o £10,000, a fyddai'n golygu didyniad o £10,000 x 40% = £4,000. Roedd y Dreth Etifeddiant ar yr ystâd cyn y didyniad yn £5,000. Gellir gostwng y dreth gan £4,000. I ddefnyddio'r didyniad dylech gynnwys y ffigur am y gostyngiad yn y dreth ym mlwch 18 ar ffurflen IHT400, 'Cyfrifiad'. Gall gweithredu'r gostyngiad ostwng y rhwymedigaeth treth i ddim yn unig, ni all greu ad-daliad o'r dreth.

## Marwolaeth wrth weithredu yn y Lluoedd Arfog

Os oedd yr ymadawedig yn aelod o'r Lluoedd Arfog neu rai gwasanaethau cysylltiol, ac achoswyd y farwolaeth gan anaf neu glefyd wrth wasanaethu, ceir eithriad cyflawn rhag Treth Etifeddiant pan drosglwyddir yr ystâd ar farwolaeth. Gellir cyflwyno ffurflen IHT400 lai os bydd hyn yn gymwys. Nid yw'r eithriad yn cynnwys rhoddion oes.

Os bu farw'r ymadawedig ar ôl hawlio ond cyn cael yr ad-daliad, dylech gynnwys y swm a hawliwyd ym mlwch 76 ar ffurflen IHT400 ac yna gostwng y dreth fel uchod. Anfonwch gopïau o ohebiaeth sy'n dangos manylion hawliad yr ymadawedig gyda ffurflen IHT400. Os nad oes gohebiaeth yn bodoli, rhowch fanylion yn y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 17 ffurflen IHT400.

## Pryd y mae'n rhaid i mi ddychwelyd y ffurflen?

Mae'n rhaid i chi anfon ffurflen IHT400 atom cyn pen 12 mis i ddyddiad y farwolaeth. Os dychwelir y ffurflen heb esgus rhesymol ar ôl y cyfnod hwn, gallech fod yn agored i gosb o hyd at £200. Ar ben hyn, petai'r oedi yn ymestyn am 12 mis arall, hynny yw, 2 flynedd ar ôl y farwolaeth, gellir codi cosb ychwanegol o hyd at £3,000. Mae rhagor o wybodaeth am gosbau ar ein gwefan. Er mwyn hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero nas defnyddiwyd ar Atodlen IHT402, mae'r dyddiad cau 24 mis o ddiwedd y mis pan fu farw yr ymadawedig.

## Pwy y dylech gysylltu â nhw a pham

Pan fyddwch wedi edrych drwy holl bapurau'r ymadawedig a pharatoi rhestr fras o'i holl asedion a dyledion, bydd yn rhaid i chi ysgrifennu at bob sefydliad dan sylw i gael gwerth yr asedion a'r dyledion ar ddyddiad y farwolaeth, ac i ofyn a oedd gan yr ymadawedig asedion eraill neu gyfrifon gyda'r sefydliad hwnnw.

Er enghraifft, gwyddoch fod gan yr ymadawedig gyfrif mewn banc penodol, ond dim ond copi o hen gyfriflen sydd gennych. Ysgrifennwch at y banc hwnnw i ofyn beth oedd y gweddill yn y cyfrif ar ddyddiad y farwolaeth. Dylech ofyn hefyd a oedd gan yr ymadawedig gyfrifon, buddsoddiadau eraill neu goffor adneuo gyda nhw.

Efallai y bydd yn rhaid i chi gysylltu â sefydliadau eraill hefyd. Gallai'r rhain gynnwys:

- cynlluniau pensiwn personol neu alwedigaethol i weld a fydd taliadau pensiwn yn parhau ar ôl y farwolaeth, neu a oes buddiannau marwolaeth yn daladwy - dylech ofyn hefyd a oedd gan yr ymadawedig 'pensiwn

a sicrhawyd trwy ddull amgen' neu a oedd wedi gwneud newidiadau i'w drefniadau pensiwn ychydig cyn ei farwolaeth - bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i ateb cwestiynau ar y ffurflen

- cwmnïau yswiriant i ddarganfod a oedd gan yr ymadawedig bolisïau yswiriant a oedd yn talu swm i'r ystâd, neu i rywun arall, neu a oedd gan yr ymadawedig bolisïau fel rhan o ymddiriedolaeth
- cyflenwyr ynni neu ffonau i weld a oedd arian yn ddyledus iddynt gan yr ymadawedig neu a fydd arian a ordalwyd yn debyg o gael ei ad-dalu i'r ystâd
- y cyngor lleol am fanylion Treth Gyngor sy'n ddyledus neu sydd i'w had-dalu i'r ystâd
- cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol i ddarganfod gwerth unrhyw Dystysgrifau Cynilion Cenedlaethol, neu a oedd gan yr ymadawedig wobrau Bondiau Premiwm heb eu hawlio
- cyfreithwyr, cyfrifwyr neu gynghorwyr ariannol a fu'n delio â materion yr ymadawedig
- teulu a chyfeillion agos yr ymadawedig (yn arbennig i ddarganfod a oedd yr ymadawedig wedi rhoi unrhyw roddion)
- unrhyw un a enwyd yn yr ewyllys a allai wybod am faterion yr ymadawedig

Gwnewch ymholiadau manwl er mwyn darganfod popeth y gallwch ynglŷn ag ystâd yr ymadawedig, a pha asedion a dyledion a ddylai cael eu cynnwys ar y ffurflen.

## Pa werthoedd i'w cynnwys

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i chi brisio'r holl asedion at ddibenion Treth Etifeddiant, fel petai bob eitem wedi'u gwerthu ar y dyddiad y bu farw'r ymadawedig. Rydym yn galw hwn y 'gwerth marchnad agored'. Ceir rhagor o wybodaeth am brisio asedion ymhellach ymlaen yn y canllaw hwn. Talgrynnwch werth yr asedion i lawr i'r bunt agosaf a gwerth y rhwymedigaethau i fyny i'r bunt agosaf.

**Amcangyfrif gwerthoedd**

Gwnewch ymholiadau llawn i ddarganfod union werth pob eitem yn yr ystâd. Fodd bynnag, os cewch anhawster gydag un neu ddau o eitemau, fel ad-daliad Treth Incwm neu fil ar gyfer yr aelwyd, neu efallai manylion treth dramor neu incwm o ymddiriedolaeth, mae'r gyfraith yn dweud y gallwch gynnwys amcangyfrif dros dro. Dylech gynnwys yr amcangyfrif gorau y gallwch. Bydd yn rhaid i chi restru'r blychau sy'n cynnwys amcangyfrifon dros dro ym mlwch 121 ar ffurflen IHT400.

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r ffigur cywir i ni cyn gynted ag y byddwch yn ei wybod.

## Dogfennau y mae'n rhaid i chi eu cadw

Does dim rhaid i chi anfon copïau o'r dogfennau, er enghraifft, llythyr o'r banc i ddangos y swm sy'n weddill mewn cyfrif, neu dystiolaeth o filiau'r aelwyd, oni bai y byddwn yn gofyn i chi'n benodol i ddarparu copi yn y canllaw hwn. Fodd bynnag, rhaid i chi gadw'r holl ddogfennau a ddefnyddiwyd gennych i lenwi'r ffurflen IHT400, ynghyd â'r atodlenni, yn ddiogel oherwydd gallwn ofyn i chi am rai neu bob un ohonynt ar ôl i chi gael y grant.

**Dogfennau gwreiddiol**

Os oes rhaid i chi ddychwelyd dogfen wreiddiol, er enghraifft cytundeb yswiriant bywyd neu ymddiriedolaeth neu fenthyciad, dylech gadw copi rhag ofn y byddwn yn gofyn i chi amdano.

## Offerynnau amrywio

Mae offeryn amrywio yn ddogfen gyfreithiol sy'n caniatáu buddiolwyr ystâd

i newid telerau'r ewyllys neu ddiffyg ewyllys ar ôl y farwolaeth. Dylid llenwi'r ffurflen IHT400 i ddangos unrhyw effeithiau y caiff yr amrywiad ar y Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus. Er enghraifft, os bydd plant yr ymadawedig yn etifeddu rhan o'r ystâd ac yn ailgyfeirio asedion i'r priod sy'n goroesi, gan gynyddu'r Eithriad Priod neu Bartner Sifil, dylai'r IHT400 ddangos y cynnydd yn yr eithriad ym mlychau 92 a 93. Os bydd yr amrywiad yn effeithio ar fater o gyfraith gwlad, er enghraifft torri tenantiaeth ar y cyd, dylai'r IHT400 ddangos y sefyllfa gyfreithiol ar ddyddiad y farwolaeth, cyn effeithiau'r offeryn amrywio.

# Llenwi ffurflen IHT400 (tudalennau 1 i 6) – llenwch yr holl flychau sy'n berthnasol drwy roi'r wybodaeth rydym yn gofyn amdani yn llawn. Ticiwch y blychau 'Iawn' neu 'Na', fel bo'n briodol

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen.

Gall methu ag ateb y cwestiynau'n llawn achosi oedi.

Rhoddir mwy o arweiniad isod lle bo angen.

Os bydd angen i chi nodi blwch penodol er mwyn dangos eich ateb, gallwch roi 'tic' neu 'groes'.

3 **Cyfeirnod Treth Etifeddiant**
Os oes unrhyw Dreth Etifeddiant i'w thalu, bydd angen cyfeirnod Treth Etifeddiant arnoch cyn y gallwch anfon y ffurflen IHT400 atom. Gallwch wneud cais am gyfeirnod ar-lein yn www.gov.uk/talu-treth-etifeddiant Fel arall, gallwch lenwi Atodlen 422, 'Cais am gyfeirnod Treth Etifeddiant' a'i hanfon atom i'r cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen honno. Bydd angen i chi wneud cais am gyfeirnod o leiaf 3 wythnos cyn eich bod yn bwriadu cyflwyno'r ffurflen hon. Nid oes angen i chi wneud cais am gyfeirnod na llenwi'r blwch hwn os nad oes treth i'w thalu.

## Manylion yr ymadawedig, tudalen 1

6a **Domisil (dim ond i'w defnyddio ar gyfer marwolaethau ar neu cyn 5 Ebrill 2025)**
Gan amlaf, domisil unigolyn yw'r wlad lle mae ei brif gartref. Nid yw'r Deyrnas Unedig yn 'wlad' er mwyn cadarnhau domisil unigolyn. Felly bydd domisil unigolyn yng Nghymru a Lloegr, neu'r Alban neu yng Ngogledd Iwerddon; yn y nodiadau hyn cyfeirir at y rhain i gyd fel y 'Deyrnas Unedig'. Ystyrir bod Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn wledydd tramor at ddibenion domisil. Dylech ond ddarllen gweddill y nodyn hwn os credwch nad oedd domisil yr ymadawedig yn y DU.

Os ydych yn ansicr a oedd domisil yr ymadawedig yn y DU, neu a oedd ei ddomisil yn cael ei ystyried i fod yn y DU, at ddibenion Treth Etifeddiant, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/inheritance-tax-manual/ihtm13000

**Domisil gwreiddiol** - Rydych yn cael domisil gwreiddiol adeg eich geni. Fel arfer mae hyn yr un fath â domisil eich tad ar y pryd, hynny yw'r wlad yr oedd eich tad yn ystyried i fod ei gartref parhaol ar adeg eich geni. O ganlyniad

i hyn, mae'n bosibl na fydd eich domisil gwreiddiol fod yr un fath â'r wlad y cawsoch eich geni ynddi. Os nad oedd eich rhieni'n briod pan gawsoch eich geni, bydd eich domisil yn deillio o'ch mam. Os ydych wedi'ch mabwysiadu, mae'ch domisil yn deillio o'ch tad mabwysiedig - os nad oes tad mabwysiedig, mae'ch domisil yn deillio o'ch mam fabwysiedig.

**Cyn-breswylydd domisil** - O 6 Ebrill 2017 ymlaen, roedd categori ar wahân o ddomisil tybiedig. Rydych yn gyn-breswylydd os yw'r canlynol yn berthnasol:

- cawsoch eich geni yn y DU gyda domisil gwreiddiol yn y DU
- rydych wedi cael domisil arall o ddewis nad yw yn y DU
- rydych yn breswylydd yn y DU ac roeddech yn breswylydd yn y DU yn ystod o leiaf 1 o'r 2 flwyddyn dreth flaenorol

Fodd bynnag, os ydych yn gyn-breswylydd domisil, ni all eiddo y gwnaethoch ei setlo ar ymddiriedolaeth pan nad oeddech â'ch domisil yn y DU fod yn eiddo eithriedig at ddibenion Treth Etifeddiant. Nid yw hyn yn berthnasol os mai dim ond o dan y rheolau newydd yr ystyrir eich bod yn breswylydd domisil.

Er y gallai domisil yr ymadawedig fod wedi bod dramor, mae rhai rheolau arbennig sy'n golygu y gallwn drin yr ymadawedig fel pe bai'n ddomisil yn y DU.

Y rheolau yw:

- os yw'r person wedi byw yn y DU am amser hir - roedd yn breswylydd at ddibenion Treth Incwm am o leiaf 15 allan o 20 mlwyddyn dreth a ddaeth i ben yn y flwyddyn dreth y bu farw (17 allan o'r 20 mlynedd ar gyfer marwolaethau cyn 6 Ebrill 2017)
- os oedd y person yn ddomisil yn y DU o dan gyfraith Lloegr ar unrhyw adeg yn ystod y 3 blynedd cyn iddo farw

mae'r gyfraith yn datgan y gallwn drin yr ymadawedig fel pe bai'n ddomisil yn y DU pan fu farw. Mae hyn yn golygu y gallwn godi Treth Etifeddiant ar ystâd fyd-eang yr ymadawedig, er nad oedd yn ddomisil yn y DU pan fu farw.

Noder, os bydd telerau confensiwn neu gytundeb trethiant dwbl yn berthnasol, efallai y caiff unigolyn ei drin fel un sydd â mwy nag un domisil. Bydd telerau'r confensiwn neu'r cytundeb yn datgan pa ddomisil i'w ddefnyddio.

Os bydd unrhyw un o'r rheolau arbennig hyn yn gymwys, a chaiff yr ymadawedig ei drin at ddibenion Treth Etifeddiant fel petai'r domisil yn y Deyrnas Unedig, dylech nodi enw'r wlad dramor yn y blwch o hyd, ond dylech lenwi gweddill y ffurflen fel petai domisil yr ymadawedig yn y Deyrnas Unedig. Ysgrifennwch yn y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 ffurflen IHT400 fod yr ymadawedig wedi cael ei drin fel pe bai ei ddomisil (neu ei 'ddomisil tybiedig') yn y Deyrnas Unedig at ddibenion Treth Etifeddiant.

Os na fydd y rheolau arbennig yn berthnasol a bod domisil yr ymadawedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig, dylech lenwi Atodlen IHT401, *'Domicile outside the United Kingdom'* i roi manylion i ni. Llenwch ffurflen IHT400 gyda manylion asedion sydd yn y Deyrnas Unedig yn unig.

### 6b Preswylydd tymor hir yn y DU (dim ond ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025)

Mae unigolyn yn breswylydd tymor hir yn y DU os yw'r unigolyn wedi bod yn breswyl yn y DU am o leiaf 10 blwyddyn dreth allan o'r 20 blwyddyn dreth ddiwethaf yn union cyn y flwyddyn dreth pan gododd y digwyddiad trethadwy (gan gynnwys marwolaeth).

Pan fo unigolyn yn breswylydd tymor hir yn y DU ac yn dod yn breswylydd yn y DU nad yw'n breswylydd tymor hir, bydd yr unigolyn yn parhau i fod o fewn terfynau Treth Etifeddiant am isafswm o 3 blynedd ac uchafswm o 10 mlynedd yn dibynnu ar faint o amser y mae wedi bod yn breswyl yn y DU.

Os yw confensiwn trethiant dwbl yn berthnasol ar sail domisil yr ymadawedig neu'i ddomisil tybiedig, bydd angen i chi roi manylion yn atodlen IHT401a.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn a'r rheolau ynghylch preswylio tymor hir yn y DU, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/inheritance-tax-manual/ihtm47000

Os nad oedd yr ymadawedig yn breswylydd tymor hir yn y DU, llenwch atodlen IHT401.

Llenwch weddill ffurflen IHT400 â dim ond manylion yr asedion yn y DU, ac eithrio unrhyw drosglwyddiadau oes a wnaed pan oedd yr unigolyn yn breswylydd tymor hir yn y DU (neu, cyn 6 Ebrill 2025, pan oedd ei ddomisil yn y DU).

## Os oedd domisil yr ymadawedig yn yr Alban ar ddyddiad ei farwolaeth, tudalen 2

7 Bydd hyn yn gymwys dim ond os bu farw'r ymadawedig pan oedd y domisil yn yr Alban. Ewch i dudalen 3 y canllaw hwn am esboniad o 'legitim'. Defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 ffurflen IHT400 os bydd angen i chi roi gwybodaeth bellach am hawliad am hawliau cyfreithiol.

12 Os mai dim ond rhentu'r eiddo'r oedd yr ymadawedig, ni ddylech roi tic wrth 'Iawn' i'r cwestiwn hwn. Os oedd yr ymadawedig yn rhentu'r eiddo gan gwmni nad yw wedi'i restru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig y mae gan yr ymadawedig gyfranddaliadau ynddi, dylid rhoi manylion llawn yn y blwch a ddarparwyd.

14 **Rhif Yswiriant Gwladol**

Nodwch rif Yswiriant Gwladol y cyflogai. Os talwyd Pensiwn y Wladwriaeth yn uniongyrchol i fanc neu gymdeithas adeiladu, y cyfeirnod a ddangosir gan y banc neu'r gymdeithas adeiladu ar eu cyfriflenni yw'r rhif Yswiriant Gwladol.

Os oedd yr ymadawedig yn dal i weithio, bydd y rhif Yswiriant Gwladol yn ymddangos ar slip cyflog neu ffurflen P60, neu ar lythyron a anfonwyd gan Gyllid a Thollau EF (CThEF), er enghraifft ar P2, 'Hysbysiad Cod TWE'.

15 **Rhif Treth Incwm neu Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr**

Gallwch ddod o hyd i'r cyfeirnod Treth Incwm neu Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) ar holl ohebiaeth CThEF os oedd yr ymadawedig yn drethdalwr Hunanasesiad.

16 **Pŵer atwrnai**

Dylech ateb 'Iawn' i'r cwestiwn hwn os oedd yr ymadawedig wedi llofnodi dogfen pŵer atwrnai cyffredinol, parhaol neu barhaus a defnyddiwyd y pŵer hwnnw gan yr atwrnai yn ystod bywyd yr ymadawedig. Dylid amgáu copi o'r pŵer atwrnai gyda'r ffurflen.

## Manylion cyswllt y sawl sy'n delio â'r ystâd, tudalen 3

17 i 22 Os ydych yn gwneud cais am grant heb gymorth cyfreithiwr, unigolyn arall sydd wedi'i gymeradwyo i ddarparu gwasanaethau profiant, neu gyfrifydd, i weithredu ar eich rhan, ac mae'n anodd i ni gysylltu â chi ar y ffôn yn ystod y dydd, ni allwn drafod materion yr ystâd gydag unigolyn arall heb eich awdurdod ysgrifenedig. Efallai y byddwch am i ni ysgrifennu atoch, ond ynglŷn â

rhywun arall - gŵr, gwraig, partner sifil neu berthynas arall, efallai - ddelio â galwadau ffôn. Os felly, nodwch yr enw a'r manylion ym mlychau 18 ac 19.

## Awdurdod i ad-dalu Treth Etifeddiant, tudalen 3

23 Os bydd angen i ni ad-dalu Treth Etifeddiant, byddwn yn ei had-dalu'n uniongyrchol drwy Daliadau Cyflymach i'r cyfrif banc yn enwau pawb a lofnododd y ffurflen. Os nad oes gennych gyfrif banc yn yr enwau hynny, gallai fod yn anodd i chi gael yr ad-daliad. Er mwyn osgoi'r anhawster hwn, rhowch fanylion y cyfrif yr ydych eisiau i'r ad-daliad gael ei dalu iddo ar dudalen 3 yr IHT400. Os oes cyfreithiwr, person arall sydd wedi'i gymeradwyo i ddarparu gwasanaethau profiant neu asiant arall yn gweithredu ar eich rhan a bod yr ad-daliad i'w dalu i'w gwmni, nodwch y manylion yma..

## Beth sy'n rhan o'ch cyfrif Treth Etifeddiant –atodlenni, tudalennau 5 a 6

Gwefan:
www.gov.uk/treth-etifeddiant
Llinell Gymorth: 0300 200 1900

Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen gwybodaeth ychwanegol arnom am amgylchiadau'r ymadawedig neu asedion penodol. Rhaid i chi roi'r wybodaeth hon ar yr atodlenni a amgaeir gyda ffurflen IHT400. Atebwch y cwestiynau ar dudalennau 5 a 6 ffurflen IHT400 i ddarganfod pa atodlenni sydd eu hangen arnoch. Efallai y bydd angen mwy nag un copi o atodlen benodol arnoch.

Byddwch wedi cael detholiad o'r atodlenni a ddefnyddir amlaf. Os bydd angen rhai eraill arnoch, gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan neu gallwch ffonio ein Llinell Gymorth i ofyn am y rhai sydd angen arnoch. Os cawsoch atodlenni nad oes eu hangen arnoch, peidiwch â'u defnyddio. Pan fo angen, bydd y nodiadau ychwanegol hyn yn eich helpu i benderfynu pa atodlenni sy'n rhaid i chi eu llenwi.

**29a** **Haen cyfradd sero preswyl**
Llenwch Atodlen IHT435, 'Gwneud cais ar gyfer haen cyfradd sero preswyl' os bu farw'r ymadawedig ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny, eu bod yn berchen ar gartref a bod y cartref yn cael ei etifeddu gan ddisgynyddion uniongyrchol yr ymadawedig.

**29b** **Trosglwyddo'r haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio**
Llenwch Atodlen IHT436, 'Cais i drosglwyddo unrhyw haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio' os ydych yn hawlio'r haen cyfradd sero preswyl (RNRB) a bod gan yr ymadawedig briod neu bartner sifil a bu farw naill ai cyn 6 Ebrill 2017, neu ar ôl hynny, heb ddefnyddio'r holl RNRB oedd ar gael iddo. Mae gennych 24 mis ar ôl diwedd y mis pan fu farw'r ymadawedig i wneud yr hawliad..

**29c** **Trosglwyddo'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio**
Llenwch Atodlen IHT402, 'Cais i drosglwyddo rhan o'r haen cyfradd sero nas defnyddiwyd' os bu farw'r ymadawedig ar 9 Hydref 2007, neu ar ôl hynny, os oedd ganddo briod neu bartner sifil a fu farw'n gyntaf ac rydych am hawlio trosglwyddiad o'r haen cyfradd sero nas defnyddiwyd er mwyn ei hychwanegu at haen cyfradd sero ystâd yr ymadawedig.

Bydd hyn yn gymwys os na wnaeth ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf ddefnyddio'r cyfan o'r haen cyfradd sero sydd ar gael, fel arfer oherwydd bod y rhan fwyaf o'r ystâd wedi'i throsglwyddo i'r priod neu bartner sifil a oroesodd, neu fod yr ystâd yn llai na'r haen cyfradd sero ar adeg y farwolaeth gyntaf. Mae gennych 24 mis ar ôl diwedd y mis y bu farw'r ymadawedig i wneud yr hawliad.

**30** **Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth**
Gallwch roi tic wrth 'Na' a does dim angen llenwi Atodlen IHT403 os mai'r unig roddion a roddwyd gan yr ymadawedig oedd y categorïau canlynol:
- i briod neu bartner sifil a bydd Eithriad Priod neu Bartner Sifil yn gymwys
- rhoddion llwyr i unigolyn heb fod yn fwy na £250 mewn unrhyw un flwyddyn (caiff y rhain eu cwmpasu gan Eithriad Rhoddion Bychain)
- rhoddion llwyr i unrhyw unigolyn o arian neu stociau a chyfranddaliadau a restrwyd sydd wedi'u cwmpasu'n gyfan gwbl gan yr Eithriad Blynyddol
- rhoddion llwyr a wnaed yn rheolaidd o incwm nad oedd eu cyfanswm yn fwy na £3,000 bob blwyddyn

Ceir manylion o'r eithriadau hyn ar dudalen 74 y canllaw hwn.

Petai'r ymadawedig wedi rhoi unrhyw roddion eraill neu 'trosglwyddiadau o werth' er 18 Mawrth 1986, gan gynnwys trosglwyddiadau i ymddiriedolaethau, taliadau ar gyfer premiymau yswiriant er budd unigolyn arall, blaensymiau allan o gronfa ymddiriedolaeth neu asedion a gymerwyd allan o ymddiriedolaeth cyn y farwolaeth, rhaid i chi lenwi Atodlen IHT403, 'Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth'. Yn gyffredinol, 'trosglwyddo gwerth' yw unrhyw drafodiad lle na chafodd yr ymadawedig werth llawn

yn gyfnewid.

31 **Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd**

Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, stociau a chyfranddaliadau, nwyddau i'r tŷ, eiddo rhydd-ddaliol neu eiddo prydlesol yw'r asedion sydd fel arfer yn cael eu perchen ar y cyd. Rydym yn galw'r holl asedion sydd mewn perchnogaeth ar y cyd yn 'asedion ar y cyd'. Llenwch Atodlen IHT404, 'Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd' os oedd yr ymadawedig yn berchen ar asedion yn y Deyrnas Unedig ar y cyd gydag un neu ragor o bobl.

32 **Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir**

Yn ogystal â bod yn berchen ar dir ac adeiladau, gallai'r ymadawedig fod wedi cael buddiannau mewn neu hawliau dros dir. Dylid dangos y rhain ar Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir'. Mae enghreifftiau o'r buddiannau a'r hawliau hyn yn cynnwys:

- hawliau cloddio
- hawliau pysgota
- hawliau tramwy

36 **Pensiynau**

Llenwch Atodlen IHT409, 'Pensiynau' os:

- talwyd pensiwn i'r ymadawedig gan gyflogwr neu o gynllun pensiwn personol neu gytundeb blwydd-dal ymddeol
- parhaodd y taliadau ar ôl marwolaeth yr ymadawedig
- daeth buddiant marwolaeth yn daladwy o'r fath ffynhonnell o ganlyniad i farwolaeth yr ymadawedig
- roedd yr ymadawedig wedi gwneud newidiadau i'r darpariaethau pensiwn neu gyfraniadau i gynllun pensiwn yn y 2 flynedd cyn y farwolaeth

**Buddiant marwolaeth**

Mae'r buddiannau marwolaeth yn cynnwys y canlynol:

- taliad marwolaeth tra'n aelod o'r lluoedd arfog a wnaed pan fo'r person yn marw cyn dechrau cymryd y pensiwn
- cyfandaliad budd-dal marwolaeth, fel arfer o'r arian sy'n weddill yn y cynllun
- unrhyw arian sy'n weddill yn y cynllun y gall buddiolwr cael mynediad ato, er enghraifft fel arian a gyrchir yn hyblyg o gronfa pensiwn

37 **Aswiriant bywyd a blwydd-daliadau**

Llenwch Atodlen IHT410, 'Yswiriant bywyd a blwydd-daliadau' os talodd yr ymadawedig naill ai premiymau'n rheolaidd, yn fisol neu fuddiant marwolaeth ar gyfer:

- polisïau yswiriant sy'n daladwy i'r ystâd
- polisïau diogelu morgeisi
- bondiau buddsoddi uned gysylltiol gyda chwmnïau yswiriant neu ddarparwyr gwasanaeth ariannol eraill sy'n talu 101% o werth yr unedau i'r ystâd
- cynlluniau buddsoddi neu ailfuddsoddi, bondiau neu gytundebau gyda darparwyr gwasanaethau ariannol sy'n talu'r ystâd ar farwolaeth
- polisïau yswiriant a bondiau buddsoddi uned gysylltiol sy'n daladwy i'r buddiolwyr o dan ymddiriedolaeth ac nad ydynt yn ffurfio rhan o'r ystâd
- polisïau bywyd ar y cyd yr oedd yr ymadawedig un o'r bywydau a yswiriwyd ond sy'n parhau mewn grym ar ôl dyddiad y farwolaeth
- polisïau yswiriant ar fywyd unigolyn arall ond lle'r oedd yr ymadawedig yn elwa
- os cafodd yr ymadawedig unrhyw daliadau o dan flwydd-dal a barhaodd ar ôl y farwolaeth, neu yr oedd buddiannau marwolaeth yn daladwy

o ganlyniad i'r farwolaeth

38 **Stociau a chyfranddaliadau wedi'u rhestru**

Llenwch Atodlen IHT411, 'Stoc a chyfranddaliadau wedi'u rhestru' os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw stociau a chyfranddaliadau a restrwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig neu unrhyw warantau Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu fwrdeisiol. Bydd cyfranddaliadau mewn cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus wedi'u rhestru. Os oedd gan yr ymadawedig gyfran neu ddaliad rheoli o gyfranddaliadau mewn cwmni a restrwyd (mae'r rhain yn achosion prin) ni ddylech eu rhoi ar yr atodlen hon, ond yn hytrach defnyddiwch Atodlen IHT412, *'Stociau a chyfranddaliadau anrhestredig a daliannau sy'n rhoi rheolaeth'* yn lle.

39 **Stociau a chyfranddaliadau heb eu rhestru a daliadau rheoli**

Llenwch Atodlen IHT412, *'Stociau a chyfranddaliadau anrhestredig a daliannau sy'n rhoi rheolaeth'* os oedd yr ymadawedig yn berchen ar gyfranddaliadau mewn cwmni cyfyngedig preifat nas rhestrwyd ar y gyfnewidfa stoc. Dylech hefyd lenwi'r atodlen hon os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw gyfranddaliadau sydd:

- wedi'u rhestru ar farchnad nad yw'n bodloni diffiniad 'rhestredig' at ddibenion CThEF
- wedi'u cadw mewn Cynllun Ehangu Busnes (BES) neu Gynllun Dechrau Busnes (BSS)
- wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig ac mae gan yr ymadawedig reolaeth dros y cwmni

Gallwch ddod o hyd i restr o'r marchnadoedd sy'n cael eu diffinio fel rhai 'rhestredig' neu 'heb eu rhestru' at ddibenion CThEF, ewch i www.gov.uk/guidance/recognised-stock-exchanges

44 **Asedion tramor**

Llenwch Atodlen IHT417, *'Asedion tramor'* i roi manylion asedion tramor a oedd yn eiddo i'r ymadawedig, gan gynnwys unrhyw ased tramor a oedd yn eiddo ar y cyd. Peidiwch â chynnwys yma manylion am gyfranddaliadau tramor sydd wedi eu rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain. Rydym yn galw'r holl asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt dramor yn 'asedion tramor'. Mae Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn wledydd tramor ac felly mae asedion a gadwyd yno yn asedion tramor.

45 **Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth**

Rydym yn galw asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth yn 'eiddo setledig'. Byddwn yn dweud y bu gan yr ymadawedig 'fuddiant mewn meddiant' mewn eiddo setledig pan oedd gan yr ymadawedig hawl:

- i'r incwm o asedion (er enghraifft difidendau o gyfranddaliadau, llog o gyfrif banc neu rent o eiddo wedi'i osod)
- i daliadau sy'n symiau penodedig pob blwyddyn, yn aml mewn rhandaliadau rheolaidd
- i fyw mewn tŷ a defnyddio'i gynnwys heb dalu unrhyw rent

Mewn rhai amgylchiadau pan fo gan unigolyn fuddiant mewn meddiant mewn eiddo setledig, caiff ei drin at ddibenion treth etifeddiant fel petai'n berchen yn bersonol ar yr asedion hynny.

Dylech lenwi Atodlen IHT418, *'Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth'* os oedd buddiant mewn meddiant yr ymadawedig mewn:

- ymddiriedolaeth a sefydlwyd cyn 22 Mawrth 2006
- ymddiriedolaeth a sefydlwyd ar 22 Mawrth 2006, neu ar ôl hynny
  - buddiant yn union ar ôl y farwolaeth

  - buddiant unigolyn anabl
  - buddiant cyfresol trosiannol

**Beth yw buddiant yn union ar ôl y farwolaeth?**
Mae buddiant yn union ar ôl y farwolaeth yn un pan fo gan y buddiolwr hawl i fudd o ymddiriedolaeth, a:

- sefydlwyd yr ymddiriedolaeth o dan ewyllys neu o dan reolau diewyllysedd
- cafodd y buddiolwr ei hawl i'r budd ar farwolaeth yr unigolyn a sefydlodd yr ymddiriedolaeth (y setlwr)
- nid yw'r ymddiriedolaeth ar gyfer unigolyn anabl neu finorydd mewn profedigaeth

**Beth yw buddiant unigolyn anabl?**
Mae buddiant unigolyn anabl yn cael ei greu pan:

- fydd mwy na hanner yr asedion mewn ymddiriedolaeth nad oes gan neb yr hawl i elwa ohoni, yn cael eu defnyddio er budd yr unigolyn anabl
- fydd unigolyn (y setlwr) sydd â chyflwr sy'n debyg o arwain at yr unigolyn i fod yn anabl, fel y disgrifir isod, yn creu ymddiriedolaeth gan ddefnyddio'i asedion ei hun ac mae'r amodau canlynol yn berthnasol
  - does dim buddiant mewn meddiant yn ystod bywyd y setlwr
  - bydd unrhyw eiddo'r ymddiriedolaeth sy'n berthnasol yn cael ei ddefnyddio er budd y setlwr
  - os dygir yr ymddiriedolaeth i ben yn ystod bywyd y setlwr, rhaid i'r asedion ddod yn eiddo i'r setlwr neu ran o ymddiriedolaeth unigolyn anabl
  - daeth unigolyn anabl yn unigolyn â hawl i fuddiant mewn meddiant mewn ymddiriedolaeth a ddaeth i fodolaeth ar 22 Mawrth 2006, neu ar ôl hynny
- mae'r buddiolwr yn unigolyn anabl, a sefydlwyd yr ymddiriedaeth ar 22 Mawrth 2006, neu ar ôl hynny

Mae rheolau newydd yn gymwys ar gyfer ymddiriedolaethau sy'n codi ar 8 Ebrill 2013, neu ar ôl hynny. Bellach, mae'n rhaid i'r holl asedion (mwy na hanner, yn flaenorol), gan gynnwys incwm, gael eu cymhwyso er budd yr unigolyn anabl, ac eithrio terfyn blynyddol o hyd at £3,000 (neu 3% o'r asedion, os yn is) y gellir ei gymhwyso er budd eraill. Ar gyfer rhoddion a wnaed i ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli cyn 8 Ebrill 2013 (neu sy'n codi ar ôl hynny o dan ewyllys a oedd yn bodoli cyn y dyddiad hwnnw), nid yw'r ymddiriedolaethau wedi'u hatal rhag bod yn gymwys fel budd unigolyn anabl gan y rheolau newydd, cyn belled â nad yw'r ymddiriedolaethau neu'r ewyllysiau hynny'n cael eu newid ar 8 Ebrill 2013, neu ar ôl hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am ymddiriedolaethau ar gyfer unigolyn anabl, ewch i'r Llawlyfr Treth Etifeddiant ('Inheritance Tax Manual') yn IHTM 42805 - ewch i www.gov.uk a chwilio am lawlyfrau CThEF ('HMRC manuals').

## Diffiniad o unigolyn anabl

At y diben hwn, diffiniad person anabl yw person sydd:

- yn methu, ar gyfrif anhwylder meddwl (o fewn yr ystyr a roddir yn Neddf Iechyd Meddwl 1983), â gweinyddu'i eiddo neu reoli'i faterion ei hun
- yn cael Lwfans Gweini (o dan Adran 64 naill ai Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 neu Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1992 neu fe fyddai'n ei gael oni bai ei fod yn cael triniaethau penodol neu'n bodloni'r cymwysterau preswyl
- yn cael Lwfans Byw i'r Anabl, ar y raddfa uchaf neu'r raddfa ganolig (o dan Adran 71 naill ai Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 neu Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1992 neu fe fyddai'n ei gael oni bai ei fod yn cael triniaethau penodol neu'n bodloni'r cymwysterau preswyl

Mae unigolyn anabl bellach yn cynnwys unigolyn sy'n cael

- Lwfans Annibyniaeth Personol, neu a fyddai'n ei gael oni bai am y gwaharddiadau ar gyfer preswylwyr cartref nyrsio, y rheiny sy'n cael gofal cleifion mewnol ac ar gyfer carcharorion
- Pensiwn Anabledd wedi'i gynyddu, neu a fyddai'n ei gael oni bai am y gwaharddiadau a nodir uchod mewn perthynas â Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini cyson, neu a fyddai'n ei gael oni bai ei fod yn cael cynhaliaeth mewn ysbyty
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, neu a fyddai'n ei gael oni bai ei fod wedi'i dderbyn i'r Ysbyty Brenhinol, Chelsea

**Beth yw buddiant cyfresol trosiannol?**

Ceir dau fath o fuddiant trosiannol cyfresol. Y math cyntaf yw pan fo ymddiriedolaeth buddiant mewn meddiant yn codi ar 22 Mawrth 2006, neu ar ôl hynny, a chyn 6 Ebrill 2008, ond mae'n dilyn buddiant mewn meddiant blaenorol a oedd eisoes yn bodoli cyn 22 Mawrth 2006. Yr ail fath yw pan fo ymddiriedolaeth buddiant mewn meddiant yn codi ar farwolaeth, ar neu ar ôl 22 Mawrth 2006, deiliad buddiant mewn meddiant blaenorol a naill ai:

- bod y deiliad newydd yn briod neu'n bartner sifil i'r deiliad blaenorol
- bod yr eiddo setledig yn cynnwys cytundeb yswiriant bywyd

I gael rhagor o wybodaeth am fuddion cyfres drosiannol, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant

## 46 Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig

Llenwch Atodlen IHT419, 'Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig' i roi manylion unrhyw:

- arian a fenthycwyd gan yr ymadawedig oddi wrth gyfeillion neu berthnasau agos
- arian a wariwyd gan gyfeillion neu berthnasau agos ar ran yr ymadawedig ac sydd i'w ad-dalu o'r ystâd
- benthyciadau eraill
- dyledion gwarantu yr ydych yn eu didynnu o'r ystâd

Does dim angen i chi lenwi Atodlen IHT419 os ydy'r ddyled yn cynrychioli morgais sydd wedi'i warantu yn erbyn eiddo a ddangosir yn Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir'. Yn lle hynny, dylid dangos y morgais ym mlwch 80 ar ffurflen IHT400.

## 47 Asedion Treftadaeth Genedlaethol

**Eithriad Amodol**

Mae Eithriad Amodol rhag Treth Etifeddiant ar gael ar gyfer darluniau, printiadau, llyfrau, llawysgrifau, gweithiau celf, gwrthrychau gwyddonol ac hynafolion a gwrthrychau eraill nad ydynt yn cynhyrchu incwm. Rhaid hawlio'r eithriad cyn pen 2 flynedd ar ôl marwolaeth yr ymadawedig, heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad, rhaid iddynt fod yn ddigyffelyb o ran diddordeb cenedlaethol, gwyddonol, hanesyddol neu artistig, neu fod ganddynt gysylltiad hanesyddol ag adeilad sy'n gymwys ar gyfer Eithriad Amodol.

Mae adeiladau yn gymwys os ydynt o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol. Mae tir yn gymwys os yw o ddiddordeb harddwch, hanesyddol, neu wyddonol eithriadol, neu os yw'n diogelu cymeriad ac amwynderau adeilad cymwys.

Mae'r eithriad yn gymwys cyhyd â bod y perchennog yn:

- cadw'r ased yn y Deyrnas Unedig
- cynnal a chadw'r ased
- caniatáu i'r ased fod ar gael i'r cyhoedd heb apwyntiad ymlaen llaw

Os ydych yn hawlio Eithriad Amodol neu os oedd yr ymadawedig yn berchen ar asedion sydd wedi'u heithrio ar sail Treftadaeth Genedlaethol ar unrhyw achlysur trethadwy blaenorol, llenwch Atodlen IHT420, *'Asedion Treftadaeth Genedlaethol - Eithriad amodol a chronfeydd cynnal a chadw'.*

**Cronfeydd cynhaliaeth**

Cronfeydd ymddiriedolaeth yw'r rhain y mae CThEF wedi'u cymeradwyo ar gyfer cynnal a chadw tir neu adeiladau eithriadol neu dir amwynderau neu gynhwysion hanesyddol cysylltiedig a fyddai'n gymwys ar gyfer Eithriad Amodol.

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar asedion a gynhaliwyd gan gronfa gynhaliaeth, llenwch Atodlen IHT420, *'Asedion Treftadaeth Genedlaethol - Eithriad amodol a chronfeydd cynnal a chadw'.*

Mae Eithriad rhag Treth Etifeddiant ar gael ar gyfer trosglwyddiadau llwyr i gronfeydd cynhaliaeth. Rhaid hawlio'r eithriad cyn pen 2 flynedd ar ôl marwolaeth yr ymadawedig, heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol.

Os ydych yn hawlio'r eithriad hwn, llenwch Atodlen IHT420.

48 **Atodlenni**

Pan fyddwch wedi nodi pa atodlenni sydd eu hangen arnoch, dylech lenwi'r holl atodlenni sydd wedi'u marcio, ac eithrio IHT435 ac IHT436, cyn mynd ymlaen i dudalen 7 o'r IHT400. Llenwch atodlenni IHT435 ac IHT436 cyn i chi symud ymlaen i dudalen 12.

## Rhagarweiniad

# Llenwi'r atodlenni – nodiadau ychwanegol

Pan fo hynny'n bosibl rydym wedi cynnwys nodiadau ynglŷn â'r Atodlen. Mae nodiadau ychwanegol ar gyfer yr atodlenni canlynol wedi eu cynnwys yn y canllaw hwn:


- Atodlen IHT403, 'Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth' 18
- Atodlen IHT404, 'Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd' 23
- Atodlen IHT407, 'Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol' 26
- Atodlen IHT408, 'Nwyddau'r aelwyd a nwyddau personol a roddwyd i elusen' 26
- Atodlen IHT409, 'Pensiynau' 27
- Atodlen IHT411, 'Stoc a chyfranddaliadau wedi'u rhestru' 31
- Atodlen IHT412, 'Stociau a chyfranddaliadau anrhestredig a daliannau sy'n rhoi rheolaeth' 32
- Atodlen IHT413, 'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau' 34
- Atodlen IHT414, 'Rhyddhad Amaethyddol' 37
- Atodlen IHT418, 'Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth' 39
- Atodlen IHT420, 'Asedion Treftadaeth Genedlaethol - Eithriad amodol a chronfeydd cynnal a chadw' 40


## Beth yw rhodd?

# Atodlen IHT403 Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth

Mae'r gyfraith yn dweud y bydd rhodd pryd bynnag y bydd 'colled i'r rhoddwr' (y 'rhoddwr' yw'r un sy'n rhoi'r rhodd).

Nid yn unig rhoddion llwyr, megis rhoi siec o £10,000 i rywun ar achlysur arbennig, sy'n berthnasol ar gyfer Treth Etifeddiant. Gall hyn ddigwydd mewn ffyrdd gwahanol.

**Enghraifft**
Mae rhiant yn gwerthu tŷ i'w fab am lai na'r hyn y gallai werthu'r eiddo ar y farchnad agored. At ddibenion Treth Etifeddiant, byddai hyn yn golygu colled i'r rhoddwr.

Mae gan unigolyn gyfranddaliadau mewn cwmni sy'n golygu bod ganddo reolaeth dros y cwmni hwnnw. Mae'n gwerthu ychydig o gyfranddaliadau i berthynas ond mae hyn yn golygu colli rheolaeth ar y cwmni ac yn gostwng gwerth ei gyfranddaliadau eraill.

At ddibenion Treth Etifeddiant, byddai hyn yn golygu colled i'r rhoddwr.

Rhowch wybod i ni am unrhyw asedion a roddwyd am ddim (rhoddion) neu a drosglwyddwyd gan yr ymadawedig pan fu 'colled i'r rhoddwr' ar 18 Mawrth 1986, neu ar ôl hynny.

## Terfynau amser

Pan fyddwn yn ystyried gwerth ystâd unigolyn, byddwn fel arfer yn edrych ar y cyfnod o 7 mlynedd cyn dyddiad y farwolaeth. Fodd bynnag, yn anaml, bydd angen ystyried rhoddion a wnaed cyn y cyfnod hwnnw o 7 mlynedd. Ewch i dudalen 22.

## Gwerth rhoddion

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am werth unrhyw roddion a wnaed gan yr ymadawedig rhag ofn y bydd angen didynnu'r gwerth o'r haen cyfradd sero, fel y gallwn gyfrifo faint o dreth sy'n daladwy.

Dylech gynnwys manylion llawn yr holl roddion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Eithriad ar gyfer Priod neu Bartner Sifil, Eithriad Rhoddion Bach neu Eithriad Blynyddol. Cewch fanylion llawn am yr eithriadau hyn ar dudalen 74 y canllaw hwn.

## Pwy sy'n talu'r Dreth Etifeddiant ar rodd?

Os yw cyfanswm gwerth y rhoddion o dan haen cyfradd sero Treth Etifeddiant, defnyddir yr haen cyfradd sero yn gyntaf gan y rhoddion. Bydd y dreth sy'n daladwy ar yr ystâd yn cymryd i ystyriaeth y rhoddion, ond ni fydd angen i'r rhai sy'n eu cael dalu'r dreth eu hunain. Telir y dreth gan y cynrychiolwyr personol.

**Enghraifft**

Mae **A** yn rhoi rhodd o £100,000 ar 3 Mai 2011 ac yn marw ar 18 Gorffennaf 2012.

Mae **ystâd A** pan fu farw yn £340,000.

Cyfrifir y Dreth Etifeddiant fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Haen cyfradd sero Treth Etifeddiant ar 18 Gorffennaf 2012 | £325,000 |
| Llai'r rhodd | £100,000 |
| Haen cyfradd sero sydd ar gael | £225,000 |
| Ystâd A pan fu farw | £340,000 |
| Llai'r haen cyfradd sero sydd ar gael | £225,000 |
| Taladwy | £115,000 |
| Treth ar yr ystâd ar 40% = £115,000 x 40% | |
| Cyfanswm y dreth sy'n ddyledus | £46,000 |

Os yw cyfanswm y rhoddion yn fwy na'r haen cyfradd sero at ddibenion Treth Etifeddiant, yna bydd y dreth yn ddyledus ar y rhoddion eu hunain ac yn daladwy gan y rhai sy'n cael y rhoddion.

**Enghraifft**

Mae **B** yn rhoi rhodd o £350,000 ar 10 Mai 2011 ac yn marw ar 27 Awst 2012.

Mae **ystâd B** pan fu farw yn £500,000. Cyfrifir y Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus ar y rhodd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhodd | £350,000 |
| Llai haen cyfradd sero Treth Etifeddiant ar 27 Awst 2012 | £325,000 |
| Taladwy | £25,000 |
| Treth ar y rhodd ar 40% = £25,000 x 40% | |
| Cyfanswm y dreth sy'n ddyledus | £10,000 |

Y Dreth Etifeddiant ar yr ystâd, sy'n daladwy gan y cynrychiolwyr personol, £500,000 x 40% = £200,000.

## Rhoddion a roddwyd o fewn 7 mlynedd cyn y farwolaeth

Gwefan:
www.gov.uk/treth-etifeddiant
Llinell Gymorth: 0300 200 1900

1 **Rhoddion neu asedion a drosglwyddwyd**

Mae hyn yn cynnwys rhoddion o arian parod neu asedion eraill ac unrhyw drefniadau eraill sydd wedi achosi 'colled i'r rhoddwr'. Gall hyn gynnwys:

- caniatáu prydles am lai na rhent llawn y farchnad
- ail drefnu'r cyfranddaliadau mewn cwmni preifat neu newid yr hawliau sydd ynghlwm wrth y cyfranddaliadau
- cytuno i weithredu fel gwarantwr ar gyfer dyledion rhywun arall

Os nad ydych yn siŵr a ddylech gynnwys manylion trafodyn penodol, yna ffoniwch ein Llinell Gymorth.

2 a 3 **Ymddiriedolaethau a setliadau a grëwyd gan yr ymadawedig yn ystod ei oes**

Mae hyn yn cynnwys rhoddion o arian parod neu asedion eraill yn ogystal ag unrhyw drefniant arall gyda'r ymddiriedolwyr sydd wedi achosi 'colled i'r rhoddwr'. Os gwnaed y rhodd ar 22 Mawrth 2006, neu ar ôl hynny, byddwn yn cyfrifo'r dreth gan ddefnyddio'r gyfradd dreth sy'n briodol i'r dyddiad pan wnaed y rhodd, oni bai fod un o'r amodau canlynol yn berthnasol:

- sefydlwyd yr ymddiriedolaeth er budd unigolyn a oedd yn anabl ar yr adeg pan drosglwyddwyd yr asedion i'r ymddiriedolaeth
- sefydlwyd yr ymddiriedolaeth gan unigolyn sy'n dioddef o gyflwr y disgwylir iddo beri i'r unigolyn hwnnw fod yn anabl, ac roedd y rhodd o asedion yr unigolyn ei hun ac mae'r ymddiriedolaeth er eich budd chi eich hun

Ewch i dudalen 16 y canllaw hwn am ddiffiniad o unigolyn anabl.

4 **Premiymau a dalwyd ar bolisi yswiriant bywyd**

Dylech ateb 'do' i'r cwestiwn hwn os ydy'r ymadawedig wedi gwneud rhodd drwy dalu'r premiymau ar bolisi yswiriant bywyd er budd rhywun arall. Dylech anwybyddu polisïau pan yr unig unigolyn a fyddai'n elwa yw priod neu bartner sifil yr ymadawedig. Dylech ddarparu copi o'r:

- polisi yswiriant bywyd
- dogfennau perthnasol, er enghraifft gweithredoedd ymddiriedolaeth a chytundebau benthyciadau

Os oes mwy nag un polisi yswiriant ac maent i gyd yr un fath, anfonwch un copi'n unig atom. Rhaid i chi gynnwys manylion yr holl bremiymau a dalwyd a darparu copïau o ddogfennau'r polisi, hyd yn oed os didynnwch ryddhad am roddion a roddwyd o incwm (ewch i dudalen 23).

Gallai'r ymadawedig fod wedi prynu blwydd-dal yn ogystal â thalu premiymau ar bolisi yswiriant bywyd er budd rhywun arall. Mae rheolau a allai fod yn gymwys mewn amgylchiadau o'r fath, ac efallai na fydd yr eithriad ar gyfer rhoddion a dalwyd allan o incwm ar gael ar gyfer y premiymau.

Dylech ddarparu copi o'r dogfennau blwydd-dal a'r polisi yswiriant bywyd os oedd yr ymadawedig:

- wedi prynu blwydd-dal (ar unrhyw adeg)
- wedi talu'r premiymau ar bolisi yswiriant bywyd er bydd rhywun arall
- wedi trefnu'r polisi ar ôl 27 Mawrth 1974

5 **Peidiodd yr ymadawedig â chael hawl i elwa o'r asedion**

Efallai yr oedd gan yr ymadawedig hawl i elwa o'r asedion a gadwyd mewn ymddiriedolaeth neu setliad, ond daeth yr hawl hwnnw i ben yn ystod bywyd yr ymadawedig. Gallai hyn fod yn llwyr neu'n rhannol.

Gallai hawl yr ymadawedig i elwa o'r ased fod wedi dod i ben oherwydd telerau'r ymddiriedolaeth neu oherwydd i'r ymadawedig ofyn i'r ymddiriedolwyr i newid yr hawl neu ddod â'r hawl i ben.

6 **Rhoddion a gaiff eu trin fel rhai a eithrir oherwydd eu bod yn rhai a delir allan o incwm**

Os ydych yn honni bod rhoddion a wnaed gan yr ymadawedig yn rhoddion sydd wedi'u heithrio oherwydd eu bod wedi'u talu allan o incwm arferol, dylech lenwi'r tabl ar dudalen 6 yr atodlen IHT403, yn ogystal â rhoi manylion o'r rhoddion ar dudalen 2 yr atodlen.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr Eithriad 'Gwariant Arferol allan o Incwm' ar dudalen 74 y canllaw hwn.

## Rhoddion â budd amodol

Mae rhodd â budd amodol yn un lle nad yw'r sawl sy'n ei chael yn berchen arni'n llawn, neu'n un lle mae'r rhoddwr naill ai'n cadw neu'n cymryd rhyw faint o fudd ohoni. Rhowch wybod i ni am bob rhodd o'r fath ar dudalen 5 Atodlen IHT403.

O dan rai amgylchiadau, dywed y gyfraith y gallwn gynnwys yr asedion fel rhan o ystâd yr ymadawedig ar adeg y farwolaeth. Er enghraifft, os:

- rhoddodd rhiant (sydd bellach wedi marw) ei dŷ i'w fab, ond parhaodd i fyw yno heb dalu rhent
- rhoddodd rhiant ddarlun i'w fab, ond arhosodd y darlun ar y wal yn nhŷ'r rhiant
- rhoddodd rhiant gyfrif cymdeithas adeiladu yn enw ei ferch, ond roedd y llog a enillwyd ar yr arian yn parhau i'w gael ei dalu i'r rhiant

Mae'r rheol hon yn berthnasol i'r holl roddion a wnaed ar neu ar ôl 18 Mawrth 1986, ac nid oes terfyn o 7 mlynedd fel sydd ar gyfer rhoddion llwyr.

Ni fyddem yn cynnwys yr ased fel rhan o ystâd yr ymadawedig ar adeg y farwolaeth, os gwnaeth y rhiant yn y ddwy enghraifft gyntaf drefnu i dalu rhent ar gyfradd y farchnad. Os cafodd rhent ei dalu, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am y rhodd o hyd, ar dudalen 5 Atodlen IHT403.

Gallai fod adegau pan roddir y rhodd wreiddiol yn amodol ac mae'r rhodd yn peidio â bod yn un amodol yn ddiweddarach. Er enghraifft, mae rhiant yn rhoi ei dŷ i'w fab ac yn parhau i fyw yno heb dalu rhent. Ddwy flynedd yn ddiweddarach mae'r rhiant yn dechrau talu rhent ar gyfradd y farchnad. Golyga hyn bod y rhodd yn peidio â bod yn un amodol.

Unwaith y bydd y rhodd yn peidio â bod yn un amodol, mae'r rhodd yn dod yn rhodd lwyr. Byddwn yn ystyried bod y rhodd wedi'i rhoi ar y dyddiad pan beidiodd y rhodd â bod yn un amodol. Yn yr enghraifft hon, bydd hyn ar y dyddiad cyntaf y talwyd y rhent (ar gyfradd y farchnad).

Pan fyddwn yn cyfrifo'r dreth sy'n ddyledus, byddai'r cyfnod o 7 mlynedd yn dechrau ar y dyddiad pan beidiodd y rhodd â bod yn un amodol.

Os bu farw'r ymadawedig o fewn y cyfnod o 7 mlynedd, peidiwch â nodi manylion yn yr adran 'Rhoddion â budd amodol'. Yn hytrach, rhowch fanylion ar dudalen 3 atodlen IHT403, 'Rhoddion a wnaed o fewn saith mlynedd cyn y farwolaeth', a sicrhewch eich bod yn cynnwys gwerth yr eiddo ar yr adeg pan beidiodd y rhodd â bod yn un amodol.

Dywed y gyfraith pan fo rhodd amodol yn dod yn rhodd lwyr, ni allwch ddidynnu unrhyw un o'r eithriadau o werth y rhodd.

Os bydd angen help neu ragor o wybodaeth arnoch, ffoniwch y Llinell Gymorth.

## Asedion roeddech yn berchen arnynt yn flaenorol

Mewn rhai amgylchiadau, pan fo unigolyn yn elwa o ased yr oedd yn berchen arno'n flaenorol, gallai tâl Treth Etifeddiant godi o dan reolau mewn perthynas â rhoddion amodol.

Cyflwynwyd tâl Treth Incwm ar asedion roeddech yn berchen arnynt yn flaenorol yn y flwyddyn dreth 2005-06. Mae'r tal hwn yn berthnasol i asedion a waredwyd gan unigolyn ond parhaodd yr unigolyn i elwa ohonynt. Gall fod yn berthnasol hefyd pan fydd unigolyn wedi cyfrannu at brynu ased ar gyfer unigolyn arall y bu iddo gael budd neu fwynhad ohono ar ôl hynny.

Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi dewis i chi ddewis trin yr asedion o dan sylw fel rhan o'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant, o dan reolau neilltuo buddiannau. Cyhyd â bod y dewis yn dal mewn bodolaeth, ni fyddwch yn gorfod talu'r dreth incwm.

Er mwyn gwneud y dewis hwn, rhaid eich bod wedi cyflwyno ffurflen IHT500, *'Election for Inheritance Tax to apply to asset previously owned'* cyn 31 Ionawr ar ôl y flwyddyn y daethoch yn agored i dreth, neu fel eithriad, os gallwch ddangos esgus rhesymol am fethu â chyflwyno'r ffurflen erbyn y dyddiad cau, ar ddyddiad sy'n fwy diweddar. Nid yw'n bosibl gwneud dewis ar ran yr ymadawedig, ar ôl y farwolaeth.

## Trosglwyddiadau cynharach

Mae'r rhan hon o'r ffurflen yn sôn am unrhyw roddion a wnaed gan yr ymadawedig (y rhoddwr) yn y cyfnod cyn y rhoddion a ddangosir ar dudalennau 2 i 4 yr IHT403. I gyfrifo p'un a oes treth yn daladwy ar unrhyw rodd, dywed y gyfraith bod yn rhaid i ni ei hychwanegu at unrhyw roddion trethadwy a wnaed yn y 7 mlynedd cyn y rhodd dan sylw. Er enghraifft, os gwnaeth yr ymadawedig rodd 6 blynedd cyn marw, byddwn yn ychwanegu'r rhodd honno at unrhyw roddion trethadwy a wnaed yn y 7 mlynedd cyn i'r rhodd gael ei rhoi.

Mae rhodd drethadwy yn golygu unrhyw rodd nad yw wedi'i chwmpasu'n gyfan gwbl gan eithriadau, a:

- cafodd ei rhoi cyn 18 Mawrth 1986
- cafodd ei rhoi rhwng 18 Mawrth 1986 a 21 Mawrth 2006 ac fe'i rhoddwyd i gwmni neu ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth ddewisol
- cafodd ei rhoi ar 22 Mawrth 2006, neu ar ôl hynny, oni bai ei bod yn rhodd
  - i unigolyn arall
  - i ymddiriedolaeth anabl
  - ymddiriedolaeth plentyn dan oed mewn profedigaeth wrth i fuddiant yn union ar ôl i'r farwolaeth ddod i ben

Nid yw rhoddion o un unigolyn i'r llall yn rhoddion trethadwy ac ni ddylid eu cynnwys yn yr adran hon o'r ffurflen.

Ni ddylech gynnwys y rhoddion cynharach hyn yn yr ystâd ar adeg y farwolaeth oherwydd dim ond wrth gyfrifo'r dreth sy'n daladwy ar roddion maent yn berthnasol. Byddwn yn ystyried unrhyw roddion blaenorol wrth edrych ar y rhoddion ar ôl i chi gael y grant.

### Rhoddion a roddwyd fel rhan o wariant arferol allan o incwm

Arweiniad yw'r tabl ar dudalen 6 o'r IHT403 i'r wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei darparu os ydych am ddangos bod y rhoddion rheolaidd a wnaed gan yr ymadawedig yn ffurfio rhan o'r gwariant allan o incwm yr ymadawedig, ac o ganlyniad, eu bod wedi'u heithrio.

Mae angen manylion llawn ynghylch incwm a gwariant yr ymadawedig ar gyfer pob blwyddyn y mae'r eithriad yn cael ei ddidynnu, fel eich bod yn dangos bod y rhoddion wedi dod o incwm yr ymadawedig yn hytrach nag o gyfalaf.

Does dim rhaid i chi ddarparu copïau o gyfriflenni banc neu filiau ar yr adeg hon ond dylech fod yn barod i ddarparu tystiolaeth ddogfennol o incwm a gwariant yr ymadawedig os byddwn yn gofyn amdanynt ar ôl i chi anfon y ffurflen atom.

# Atodlen IHT404
# Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd

### Penderfynu ar gyfran yr ymadawedig

Gallai cyfran yr ymadawedig o'r ased at ddibenion Treth Etifeddiant fod yn wahanol i'r sefyllfa gyfreithiol, a bydd yn rhaid i chi benderfynu ar gyfran yr ymadawedig.

Pan fo tir ac adeiladau mewn perchnogaeth ar y cyd, bydd gweithredoedd yr eiddo fel arfer yn datgan cyfran pob perchennog. Ond gydag asedion eraill, bydd cyfran pob perchennog fel arfer yn cyfateb i'w gyfraniad tuag at yr ased. Lle nad yw cyfran yr ymadawedig yn cyfateb i gyfraniad yr ymadawedig tuag at yr ased, bydd angen i chi esbonio pam y mae cyfran yr ymadawedig yn wahanol ar Atodlen IHT404.

### Busnesau

Peidiwch â chynnwys unrhyw asedion busnes sydd mewn perchnogaeth ar y cyd gan bartneriaeth ar Atodlen IHT404. Dylid cynnwys asedion o'r fath ar Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'* ac ym mlwch 69 ar dudalen 8 ffurflen IHT400.

### Eiddo tramor

Fel arfer nid yw'r modd y gall asedion fod mewn perchnogaeth ar y cyd yn y Deyrnas Unedig fod yn berthnasol mewn gwledydd eraill. Peidiwch â chynnwys eiddo tramor sydd mewn perchnogaeth ar y cyd ar Atodlen IHT404. Llenwch Atodlen IHT417, *'Asedion tramor'* gan roi manylion am yr eiddo tramor. Yna yn y blychau ar gyfer 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 yr IHT400, nodwch fanylion y cydberchnogion eraill. Dylech ddefnyddio'r cwestiynau ar dudalen 2 Atodlen IHT404 fel canllaw ar gyfer yr wybodaeth rydym ei hangen.

## Tai a thir

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar dai neu dir mewn perchnogaeth ar y cyd, rhowch fanylion yma.

## Nwyddau'r tŷ

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar nwyddau'r tŷ ac ati ar y cyd, dylid eu cynnwys yma fel eiddo mewn perchnogaeth ar y cyd. Rhowch eitemau o'r un categori mewn grwpiau a'u rhestru yn yr un drefn ac a welir ar Atodlen IHT407, 'Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol'.

## Polisïau yswiriant a bondiau

Os ydych wedi didynnu unrhyw arian a oedd yn ddyledus o dan forgais ar y cyd ym mlwch 2 ar Atodlen IHT404, ac aseiniwyd polisi i ad-dalu'r morgais, dylech gynnwys gwerth cyfran yr ymadawedig o dderbyniadau'r polisi fel ased ar Atodlen IHT404 ym mlwch 6.

Os oedd hawl gan yr ymadawedig i elwa o bolisi 'bywyd a goroeswr ar y cyd' (gweler Atodlen IHT410, *'Aswiriant bywyd a blwydd-daliadau'*), rhowch enw'r cwmni yswiriant, rhif y polisi a gwerth buddiant yr ymadawedig yn y polisi ar Atodlen IHT404 ym mlwch 6. Mae hwn yn faes cymhleth. I gael rhagor o wybodaeth am bolisïau yswiriant bywyd, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant

## Sut i brisio eiddo mewn perchnogaeth ar y cyd

Mae'r rheolau ar gyfer prisio eiddo ar y cyd yr un fath â'r rheolau ar gyfer prisio asedion yr oedd yr ymadawedig berchen arnynt ar ei ben ei hun. I gael rhagor o wybodaeth am brisio asedion, gweler tudalennau 67 i 73 o'r canllaw hwn. Yn achos cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, stociau a chyfranddaliadau canfyddwch y gwerth cyflawn ac yna cynhwyswch werth cyfran yr ymadawedig.

**Enghraifft**
Roedd yr ymadawedig yn berchen ar gyfrif ar y cyd gyda dau o bobl eraill a oedd yn werth £9,000 ar ddyddiad y farwolaeth. Roedd pob un wedi cyfrannu'r un swm o arian i'r cyfrif. Byddai gwerth cyfran yr ymadawedig yn union draean y cyfanswm (hynny yw, £3,000).

Fodd bynnag, mewn achos tŷ neu dir, mae gwerth cyfran ar y farchnad agored yn debygol o fod yn llai na chyfran a gyfrifwyd yn y ffordd hon, oherwydd gallai disgownt fod yn briodol. Bydd swm y disgownt yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau pob eiddo a ph'un ai cyfraith Lloegr neu'r Alban sy'n gymwys.

**Cyfraith Lloegr** - Er mwyn i ni gael man cychwyn, gallwch leihau cyfran rifyddol gwerth llawn yr eiddo gan 10%. Bydd hyn yn arwydd o werth cyfran o'r eiddo. Mae'r ffigur hwn o 10% yn rhoi man cychwyn i ni yn unig. Efallai y bydd angen newid swm y disgownt, yn ogystal ag amcangyfrif o werth yr eiddo cyfan ar ôl anfon y grant.

**Enghraifft**
Roedd yr ymadawedig yn berchen ar dŷ gwerth £120,000 ar y cyd gydag un unigolyn arall. Gwerth rhifyddol cyfran yr ymadawedig yw £60,000 a gellir lleihau hwn gan 10% (neu £6,000). Y gwerth y dylid ei gynnwys yw £54,000.

**Cyfraith yr Alban** - O dan gyfraith yr Alban mae gan berchennog ar y cyd hawl i weithredu er mwyn rhannu a gwerthu. Bydd disgownt ar gyfer perchnogaeth ar y cyd yn adlewyrchu'r gost ac o bosibl yr oedi o gynnal gweithred o'r fath. Nid yw'r gost yn berthynol i werth yr eiddo, ac felly ni ellir ei gyfrifo yn nhermau canran. Fel man cychwyn gallwch ddidynnu £4,000 o werth yr eiddo cyfan cyn cyfrifo gwerth rhifol cyfran yr ymadawedig fel y gwerth i'w gynnwys yn y cyfrif. Dim ond man cychwyn yw hyn. Efallai y bydd angen newid y gwerth a amcangyfrifir ar ôl i chi gael cadarnhad.

### Y cydberchennog arall yw priod neu bartner sifil yr ymadawedig

P'un ai cyfraith Lloegr neu'r Alban sy'n gymwys, ni ddylech gynnwys unrhyw ddisgownt os mai'r cydberchennog arall yw priod neu bartner sifil yr ymadawedig. Mae rheolau arbennig yn atal y disgownt hwn rhag bod yn gymwys, felly dylech gynnwys cyfran rifyddol yr ymadawedig o werth cyflawn y tŷ neu'r tir.

Byddwn fel arfer yn gofyn i Asiantaeth y Swyddfa Brisio roi eu barn ynglŷn â gwerth eiddo'r ymadawedig. Byddant yn ystyried amgylchiadau unrhyw eiddo mewn perchnogaeth ar y cyd a swm y disgownt i'w ganiatáu. Os na all Asiantaeth y Swyddfa Brisio dderbyn y ffigurau a anfonwyd gennych, byddant yn ceisio cytuno ar brisiad gyda chi. Os bydd y gwerth y cytunir arno yn fwy na'r ffigur a awgrymwyd gennych, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy o dreth (a llog).

# Atodlen IHT407
# Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol

### Prisio nwyddau'r tŷ a nwyddau personol

Ceir gwybodaeth am sut i brisio nwyddau'r tŷ a nwyddau personol ar dudalen 70 y canllaw hwn.

Mae angen gwerthoedd unigol arnom, dim ond ar gyfer yr asedion a ddisgrifir ym mlychau 1 i 3 ar Atodlen IHT407. Gellir ychwanegu holl nwyddau'r tŷ eraill at ei gilydd a gellir nodi'r cyfanswm ym mlwch 4.

# Atodlen IHT408 Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol a roddwyd i elusen

## Eithriad Elusennol

Weithiau bydd y bobl sy'n etifeddu nwyddau'r tŷ a nwyddau personol yr ymadawedig am roddi rhai ohonynt neu'r cyfan i elusen. Er enghraifft, trwy eu rhoi i siop elusennol. Os byddant yn penderfynu gwneud hynny, byddant ond yn gallu didynnu Eithriad Elusennol o werth y nwyddau os byddant yn llofnodi offeryn amrywio. I gael rhagor o wybodaeth am offerynnau amrywio, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant

Mae Atodlen IHT408 yn ffurflen safonol sy'n caniatáu'r buddiolwyr i wneud rhodd o'r fath ac elwa o Ryddhad Elusennol heb orfod llofnodi offeryn amrywio.

Dylai pob buddiolwr sydd wedi etifeddu nwyddau lenwi a llofnodi'r datganiad i ddangos p'un a yw'r holl nwyddau neu rhai ohonynt yn cael eu rhoi i elusen a pha elusen neu elusennau sy'n mynd i elwa.

Os bu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 6 Ebrill 2012, mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth i CThEF bod yr elusen yn gwybod pa nwyddau rydych yn eu rhoi iddi. Mae copïau o lythyron sy'n dangos bod yr elusen yn gwybod ei bod am gael y nwyddau, neu ei bod wedi eu cael, yn ddigonol. Os ydych yn rhoi'r nwyddau i siop elusennol leol, bydd copi o'r dderbynneb ar gyfer y nwyddau yn ddigonol.

## Rhestr o eitemau

Os bydd peth o'r nwyddau ond nid y nwyddau i gyd yn cael eu rhoi i elusen, dylai'r buddiolwyr sy'n rhoi'r rhodd lenwi'r rhestr o eitemau i ddangos pa eitemau sy'n cael eu rhoi a gwerth yr eitemau hynny.

Dylid cynnwys yr holl eitemau sy'n cael eu rhoi yn y ffordd hon yn Atodlen IHT407.

Dylid dangos swm yr Eithriad Elusennol a hawlir ym mlwch 92 ar ffurflen IHT400.

# Atodlen IHT409 Pensiynau

Gwnaeth polisïau pensiynau personol disodli cytundebau blwydd-daliadau o 1 Gorffennaf 1988. Pan fyddwn yn cyfeirio at bolisïau pensiynau personol bydd hyn hefyd yn gymwys i gytundebau.

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar gontract blwydd-dal ymddeol, llenwch Atodlen IHT409 fel pe bai'n bolisi pensiwn personol.

## Cynlluniau pensiwn cofrestredig neu heb eu cofrestru

At ddibenion Treth Incwm, gall cynlluniau pensiwn a pholisïau pensiynau personol cael eu cofrestru gyda CThEF er mwyn cael arbediad treth. Dylai papurau'r cynllun neu ddogfennau'r polisi ddangos p'un a yw'r cynllun wedi'i gofrestru ai peidio. Os nad ydynt, bydd Gweinyddwr y Cynllun yn gallu dweud wrthych. Os bydd y buddiannau yn daladwy o dan gynllun nad yw wedi'i gofrestru gyda CThEF, rhowch fanylion (yn y blychau ar gyfer 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 Atodlen IHT400) y buddiannau sy'n daladwy o dan y cynllun a'r rheiny a gymerwyd gan yr ymadawedig, yn ogystal ag ateb y cwestiynau ar Atodlen IHT409.

Os ydych chi eisiau trafod sefyllfa benodol gyda ni, ffoniwch y Llinell Gymorth ar 0300 200 1900.

## Taliadau pensiwn parhaus

Yn y mwyafrif o achosion, bydd taliadau pensiwn neu fuddiannau eraill yn stopio pan fydd yr unigolyn sydd â hawl i'w cael yn marw. Mewn rhai achosion, gallai'r pensiwn fod wedi'i warantu am gyfnod penodedig ac mae'r unigolyn sydd â hawl iddo yn marw cyn daw'r cyfnod hwnnw i ben. Efallai bydd y taliadau yn parhau i gael eu talu i'r ystâd. Dylid cynnwys gwerth yr hawl i gael gweddill y taliadau ar yr Atodlen hon ac ar ffurflen IHT400.

## Buddiannau marwolaeth

Ers mis Ebrill 2015 mae llawer o bensiynau hefyd yn caniatáu i'r cronfeydd sy'n weddill mewn pensiwn gael eu trosglwyddo i fuddiolwr fel arian a gyrchir yn hyblyg o gronfa pensiwn. Mae cyfandaliadau ac arian a gyrchir yn hyblyg o gronfa pensiwn yn fathau o 'buddiant marwolaeth'. Mae'r buddiannau marwolaeth yn ased ystâd yr ymadawedig a dylid ei gynnwys ar ffurflen IHT400 os:

- maent yn daladwy i gynrychiolydd personol yr ymadawedig, naill ai drwy hawl neu oherwydd nad oes unrhyw un arall sy'n gymwys am y taliad
- gallai'r ymadawedig, hyd at adeg y farwolaeth, fod wedi llofnodi 'enwebiad' (naill ai am y tro cyntaf neu ar ôl diddymu 'enwebiad' a oedd yn bodoli eisoes) a oedd yn rhwymo ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn i wneud y taliad i'r un a enwyd gan yr ymadawedig

## Llythyr dymuniadau

Mae enwebiad rhwymo yn wahanol i 'llythyr dymuniadau'. Mae llythyr dymuniadau yn cofnodi beth hoffai'r ymadawedig weld yn digwydd gyda'r buddiant marwolaeth, ac nid yw'n rhwymo ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn i ddilyn dymuniadau'r ymadawedig.

Mae'n bwysig darganfod a allai'r ymadawedig rwymo'r ymddiriedolwyr drwy enwebiad. Mae llawer o gynlluniau pensiwn a pholisïau yn darparu ffurflen a elwir yn enwebiad, ond sydd fel arfer yn mynd ymlaen i ddweud nad yw'r ymddiriedolwyr wedi eu rhwymo i ddilyn dymuniadau'r ymadawedig. Os nad yw'r ymadawedig wedi llofnodi ffurflen o'r fath, bydd wedi llofnodi llythyr dymuniadau ac nid enwebiad rhwymo.

## Trosglwyddiadau o, neu newidiadau i, fuddiannau pensiwn

Mae'r mwyafrif o gynlluniau pensiwn a pholisïau pensiwn personol yn caniatáu'r aelod i drosglwyddo neu waredu'r buddiannau marwolaeth a gwneud newidiadau i'r buddiannau y mae hawl ganddo iddynt o dan y cynllun neu'r polisi. Fel arfer, gall yr aelod:

- enwebu neu bennu'r buddiannau marwolaeth i rywun arall
- aseinio'r buddiannau marwolaeth i ymddiriedolaeth
- gwneud newidiadau i'r buddiannau pensiwn maent yn bwriadu eu cymryd a phryd y mae'n bwriadu eu cymryd (ceir enghreifftiau o'r math o newidiadau a allai gael eu gwneud yn yr adran nesaf)

Os trosglwyddodd yr ymadawedig fuddiannau pensiwn, neu os gwnaeth enwebiad, apwyntiad, aseiniad neu unrhyw newidiadau i'r buddiannau pensiwn yn y ddwy flynedd cyn marw, gallai rhwymedigaeth i Dreth Etifeddiant godi. Os yw hyn yn berthnasol, llenwch yr adran dan y pennawd 'Trosglwyddiadau a newidiadau i fudd-daliadau pensiwn'.

Mae '**Incwm o'r pensiwn**' yn sefyllfa arbennig pan fo'r ymadawedig wedi cyrraedd oed pensiwn ond wedi dewis peidio â phrynu blwydd-dal a fydd yn darparu pensiwn. Yn lle hynny, penderfynodd yr ymadawedig godi swm penodol o incwm o gronfa ymddeol gyda golwg ar brynu blwydd-dal ar ddyddiad diweddarach.

'**Ymddeoliad graddol**' yw pan fo'r ymadawedig wedi rhannu hawl i bensiwn yn gyfres o ddarnau ac wedi cytuno gyda darparwr pensiwn ar gynllun ymddeol i gymryd hyn a hyn o ddarnau bob blwyddyn.

### Enghreifftiau o newidiadau i fuddiannau

Mae rhai enghreifftiau o newidiadau yn y buddiant a allai ddigwydd yn cynnwys:

- lle'r oedd yr ymadawedig wedi cyrraedd oedran pensiwn ac wedi peidio â chymryd y taliad o bensiwn ar y pryd, neu wedi dewis cymryd 'incwm wedi'i dynnu i lawr'
- lle'r oedd yr ymadawedig, ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ac wedi dewis cymryd 'incwm wedi'i dynnu i lawr' wedi penderfynu'n ddiweddarach (ac yn ystod iechyd gwael) lleihau lefel yr incwm a gymerwyd
- lle'r oedd yr ymadawedig, ar ôl cyrraedd oedran pensiwn a dewis cymryd 'ymddeoliad graddol' wedi penderfynu'n ddiweddarach (ac yn ystod iechyd gwael) lleihau nifer y segmentau a gymerwyd

Os oedd yr ymadawedig wedi rhoi budd-daliadau, neu wedi gwneud rhai newidiadau i'r budd-daliadau yr oedd gan yr ymadawedig hawl i'w cael, mae'n bosibl bod yr ymadawedig wedi gwneud trosglwyddiad o werth. Rhowch y manylion y gofynnwn amdanynt uchod ar Atodlen IHT409 a byddwn yn edrych ar yr hyn rydych wedi'i ddweud ar ôl i'r grant gael ei gyhoeddi. Os credwn y bu trosglwyddiad o werth, byddwn yn trafod y gwerth â chi.

Os ydych yn dymuno cynnwys eich gwerth eich hun ar gyfer y buddiannau a roddwyd, nodwch ffigur ar Atodlen IHT403, 'Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth'. Defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalen 16 ffurflen IHT400 i ddangos sut rydych wedi cyfrifo eich gwerth.

**Prisio'r buddiannau a roddwyd am ddim**
Bydd gwerth y buddiannau a roddwyd neu effaith y newidiadau a wnaed yn dibynnu i raddau helaeth ar iechyd yr ymadawedig ar ddyddiad y trosglwyddiad, yr enwebiad, y penodiad neu'r newid. Darparwch rywfaint o dystiolaeth o gyflwr iechyd a disgwyliad oes yr ymadawedig ar y pryd fel y gallwn sefydlu gwerth. Llythyr gan feddyg yr ymadawedig yw'r math gorau o dystiolaeth.

Os bydd cael llythyr gan feddyg yr ymadawedig yn oedi'ch cais am grant, nid oes rhaid i chi ei gael cyn anfon ffurflen IHT400 atom. Fodd bynnag, bydd angen i ni weld y llythyr cyn gynted ag y byddwch yn ei gael ar ôl i'r grant gael ei gyhoeddi.

## Cyfraniadau at gynllun pensiwn o fewn dwy flynedd i'r farwolaeth

Gall cyfraniadau at gynllun pensiwn gan yr aelod o'r cynllun neu ei gyflogwr fod yn drosglwyddiad o werth (rhodd) os yw'r cyfraniadau yn cael eu gwneud pan mae'r aelod o'r cynllun yn wael.

# Atodlen IHT411
# Stociau a chyfranddaliadau wedi'u rhestru

## Difidendau a llog

Ym mlychau 1 a 2, cynhwyswch unrhyw ddifidendau a llog ar yr asedion a oedd yn ddyledus ar ddyddiad y farwolaeth, ond sydd heb eu talu eto. Mae rhagor o wybodaeth am y mathau gwahanol o daliadau difidend a'r hyn y dylid ei gynnwys yn 'Sut i brisio'r asedion' ar dudalen 67 y canllaw hwn.

## Ymddiriedolaethau unedol

Wrth lenwi Atodlen IHT411, nodwch enw llawn yr ymddiriedolaeth unedol, er enghraifft, *'AXA Equity and Law Unit Trust Managers', 'Pacific Basin Trust Accumulation Units'.*

Nid yw papurau newydd yn dangos y difidendau sy'n ddyledus ar unedau ymddiriedolaeth. Bydd angen i chi ofyn i reolwyr y cronfeydd beth ddylech ei gynnwys fel y difidend a gyhoeddwyd.

## Cynlluniau Ecwiti Personol (PEPs)

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar PEP dylech gael prisiad gan reolwyr y PEP. Dylech ei amgáu gyda'r atodlen a nodi 'gweler y prisiad amgaeedig' yn y rhan briodol. Copïwch werth y cyfranddaliadau yn y PEP i'r golofn briodol, ond peidiwch â chynnwys unrhyw ddidyniadau ar gyfer ffioedd y rheolwr. Os na allwch ddod o hyd i brisiad, rhestrwch y cyfranddaliadau a gedwir mewn PEP ar y ffurflen a'u prisio yn yr un modd â chyfranddaliadau eraill.

Mae'n rhaid i chi gynnwys ffigur ar gyfer unrhyw arian nas fuddsoddwyd, ac a gadwyd yn y PEP, gyda gwerth y cyfranddaliadau

## Cyfrifon Cynilo Unigol (ISA)

Dim ond cyfranddaliadau a restrir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig neu a fasnachir ar AIM y gellir eu cadw mewn ISA. Os oedd gan yr ymadawedig cyfranddaliadau mewn ISA a oedd wedi'u rhestru ar farchnad mae CThEF yn diffinio fel 'rhestredig', dylech eu cynnwys ym mlwch 2 ar Atodlen IHT411.

Dylech gynnwys unrhyw gyfranddaliadau a restrir ar farchnad nad yw CThEF yn ei hystyried yn 'rhestredig' ar Atodlen IHT412. Gallwch ddod o hyd i restr o farchnadoedd a ddiffinnir fel rhai 'rhestredig' neu 'heb eu rhestru' at ddibenion CThEF, ewch i www.gov.uk/guidance/recognised-stock-exchanges.

Rhestrwch y cyfranddaliadau ar yr atodlen a'u prisio yn yr un modd â chyfranddaliadau eraill. Rhaid i chi gynnwys ffigur ar gyfer unrhyw arian nas buddsoddwyd ac a gedwir mewn ISA, ond peidiwch â chynnwys unrhyw arian arall neu bolisïau yswiriant a gedwir mewn ISA gyda gwerth y cyfranddaliadau.

Rhowch arian a gedwir mewn ISA ym mlwch 1 ar Atodlen IHT406, 'Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu'. Dim ond cyfranddaliadau a restrir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig y gellir eu cadw mewn ISA. Dylech gynnwys cyfranddaliadau tramor (ac eithrio'r rhai a restrir ar Gyfnewidfa Stoc Llundain) ar Atodlen IHT417, *'Asedion tramor'.*

## Gwarantau Llywodraeth y DU a rhai bwrdeisiol

1

Dylid defnyddio'r blwch hwn ar gyfer rhestru holl warantau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gwarantau bwrdeisiol:

- Stociau'r Trysorlys, Stociau'r Siecr, Stociau Trosiadwy, Stociau Cyfunol a Benthyciadau, Stociau Ariannu, Bondiau Cynilo, Bondiau Buddugoliaeth, Benthyciadau Rhyfel
- Stoc y Llywodraeth a gedwir ar Gofrestr Stoc Llywodraeth Prydain
- holl warantau bwrdeistrefol y Deyrnas Unedig, morgeisi, dyledebion a stociau mewn siroedd, dinasoedd neu drefi, dociau, porthladdoedd a byrddau dŵr, Awdurdod Porthladd Llundain, Corfforaeth Morgais Amaethyddol a Stociau Bwrdeistrefol Gogledd Iwerddon

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau a restrwyd

2

Dylid rhestru'r holl stociau, cyfranddaliadau, dyledebion a gwarantau eraill a restrir ar Restr Ddyddiol Swyddogol y Gyfnewidfa Stoc a marchnadoedd eraill ystyrir yn 'rhestredig' gan CThEF, gael eu rhestru yn y blychau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- ymddiriedolaethau unedol
- ymddiriedolaethau buddsoddi
- cwmnïau buddsoddi pen agored
- Cynlluniau Ecwiti Personol
- cyfranddaliadau a gedwir mewn Cyfrif Cynilo Unigol
- cyfranddaliadau tramor a restrir ar Gyfnewidfa Stoc y DU

Dylid defnyddio blwch 2 ar gyfer daliadau o gyfranddaliadau a restrwyd nad oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig.

Os oedd gan yr ymadawedig gyfranddaliadau a oedd yn rhoi rheolaeth iddo dros y cwmni dylid eu dangos ar Atodlen IHT412, *'Stociau a chyfranddaliadau anrhestredig a daliannau sy'n rhoi rheolaeth'.*

# Atodlen IHT412
# Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrir, a daliannau sy'n rhoi rheolaeth

## Prisio cyfranddaliadau heb eu rhestru

Rhoddir gwybodaeth ynglŷn â sut i brisio cyfranddaliadau nas rhestrwyd yn 'Sut i brisio'r asedion' ar dudalen 67 y canllaw hwn.

Byddwn fel arfer yn gofyn i Adran Brisio Cyfranddaliadau ac Asedion CThEF ystyried cyfranddaliadau nas rhestrwyd; rhif ffôn eu Llinell Gymorth yw 0300 123 1082 (Saesneg yn unig).

## Stociau a chyfranddaliadau heb eu rhestru a fasnachwyd

1 a 4

Dylech gynnwys cyfranddaliadau a restrir ar farchnad nad yw'n bodloni'r diffiniad o 'rhestredig' at ddibenion CThEF yn y blychau hyn.
Dylid rhestru cyfranddaliadau nad oeddynt yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig ym mlwch 1.

Dylid rhestru cyfranddaliadau a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig ym mlwch 4.

Gallwch ddod o hyd i restr o'r marchnadoedd a ddiffinnir fel rhai 'rhestredig' neu 'heb eu rhestru' at ddibenion CThEF, ewch i www.gov.uk/guidance/recognised-stock-exchanges

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau heb eu rhestru

2 a 3

Dylech gynnwys y cyfranddaliadau canlynol yn y blychau hyn:
- cyfranddaliadau a gwarantau mewn cwmnïau cyfyngedig preifat nas rhestrwyd
- cyfranddaliadau a gedwir mewn Cynllun Ehangu Busnes (BES) neu mewn Cynllun Dechrau Busnes (BSS)

Dylid rhestru cyfranddaliadau nad oeddynt yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig ym mlwch 2.

Dylid rhestru cyfranddaliadau a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig ym mlwch 3.

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau a restrwyd a oedd yn golygu bod gan yr ymadawedig reolaeth dros y cwmni

5

Holl stociau, cyfranddaliadau, dyledebion a gwarantau eraill a restrwyd ar Restr Ddyddiol Swyddogol y Gyfnewidfa Stoc a marchnadoedd eraill a ystyrir yn 'rhestredig' gan CThEF a roddodd rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig.

## Rhyddhad Busnes

Os ydych am ddidynnu rhyddhad busnes o stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd, a daliadau rheoli, stociau a chyfranddaliadau a restrwyd, dylech ddarllen y nodiadau yn y canllaw hwn ar gyfer Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'*.

## Rhyddhad Busnes a rhoddion o stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd, a daliadau rheoli

Er mwyn i ryddhad busnes fod yn gymwys i rodd o stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd, a daliadau rheolaeth, mae'r rheolau arbennig ychwanegol sy'n dilyn yn berthnasol:

- rhaid bod y cyfranddaliadau wedi bod yn eiddo i'r unigolyn a gafodd y rhodd o ddyddiad y rhodd hyd at y dyddiad y bu farw'r trosglwyddwr
- ni ddylai'r gyfran fod wedi bod yn destun cytundeb cyfrwymol ar gyfer ei gwerthu ar ddyddiad y farwolaeth
- byddai'r cyfranddaliadau wedi bod yn gymwys am Ryddhad Busnes petai'r unigolyn a gafodd y rhodd wedi trosglwyddo'r cyfranddaliadau ar ddyddiad y farwolaeth

Nid yw'r rheol olaf yn gymwys i ddaliadau rheoli cyfranddaliadau a restrwyd neu gyfranddaliadau nas rhestrwyd a oedd heb eu rhestru ar ddyddiad y rhodd ac a barodd heb eu rhestru trwy gydol y cyfnod rhwng y rhodd a marwolaeth yr ymadawedig (neu farwolaeth yr unigolyn a gafodd y rhodd, os bu farw'n gyntaf).

# Atodlen IHT413
# *Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau*

Rhaid i chi lenwi Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'* os oedd yr ymadawedig yn berchen ar y naill neu'r llall o'r canlynol:

- busnes neu ran o fusnes
- ased a ddefnyddiwyd mewn busnes ac rydych yn didynnu Rhyddhad Busnes

Os bydd angen, llenwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob partneriaeth busnes neu ased a ddefnyddir mewn busnes. I gael rhagor o wybodaeth am Ryddhad Busnes, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant Fel arall, ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 0300 200 1900.

Os mai Rhyddhad Busnes ar gyfer cyfranddaliadau sydd dan sylw, defnyddiwch Atodlen IHT412, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'* yn lle Atodlen IHT413.

## Pryd mae Rhyddhad Busnes ar gael?

Mae'r rhyddhad ar gael ar gyfer trosglwyddiadau sy'n ymwneud â mathau arbennig o fusnesau, asedion busnes a chyfranddaliadau. Rhaid bod yr ymadawedig wedi bod yn berchen ar yr asedion am gyfnod penodol, dwy flynedd fel arfer, a rhaid i'r asedion fod yn gymwys o dan nifer o reolau eraill hefyd.

## Beth yw'r gyfradd ar gyfer rhyddhad?

Os yw'r ased yn gymwys am ryddhad, dangosir y gyfradd y caniateir y rhyddhad yn y tabl ar dudalen 35 y canllaw hwn. Rhoddir y rhyddhad trwy ddidynnu'r canran perthnasol o werth cyfalafol yr ased.

Os yw'r ased yn gymwys i gael 100% o'r rhyddhad dylech gynnwys gwerth yr ased ym mlwch 69 ar ffurflen IHT400. Dylech ddidynnu'r rhyddhad gan ddefnyddio'r un ffigur ym mlwch 93 ar ffurflen IHT400.

## Tabl o gyfraddau'r rhyddhad

| Math o fuddiant yn y busnes | Dyddiad y farwolaeth ar 6 Ebrill 1996, neu ar ôl hynny | Dyddiad y farwolaeth Rhwng: 10 Mawrth 1992 a 5 Ebrill 1996 yn gynhwysol | Dyddiad y farwolaeth Rhwng: 17 Mawrth 1987 a 9 Mawrth 1992 yn gynhwysol |
|---|---|---|---|
| Busnes neu fuddiant mewn busnes | 100% | 100% | 50% |
| Daliadau rheoli cyfranddaliadau mewn cwmni 'heb ei restru' | 100% | 100% | 50% |
| Daliadau sylweddol o gyfranddaliadau mewn cwmni 'heb ei restru' | 100% | 100% | 50% |
| Cyfranddaliadau eraill cwmni 'heb ei restru' | 100% | 50% | 30% |
| Daliadau rheoli o gyfranddaliadau mewn cwmni 'rhestredig' | 50% | 50% | 50% |
| Tir, adeiladau neu offer a pheiriannau a ddefnyddir mewn busnes | 50% | 50% | 30% |
| Tir, adeiladau neu offer a pheiriannau a gedwir mewn ymddiriedolaeth | 50% | 50% | 30% |

## Diffiniadau

**Cwmni a restrwyd**
Mae cwmni sydd wedi'i restru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig a'r farchnad yn bodloni'r diffiniad o 'rhestredig' at ddibenion CThEF.

**Cwmni nas rhestrwyd**
Cwmni nad yw wedi'i restru ar farchnad sy'n bodloni diffiniad CThEF o 'rhestredig'. Gallwch ddod o hyd i restr o farchnadoedd a ddiffinnir fel rhai 'rhestredig' neu 'heb eu rhestru' at ddibenion CThEF, ewch i www.gov.uk/guidance/recognised-stock-exchanges. Ffoniwch ein llinell gymorth os yw dyddiad y farwolaeth, neu ddyddiad y rhodd, cyn 10 Mawrth 1992 ac roedd yr ymadawedig yn berchen ar gyfranddaliadau wedi'u rhestru ar y USM.

**Daliadau rheoli**
Daliad stociau a chyfranddaliadau sy'n rhoi rheolaeth dros gwmni i berson. At ddibenion Treth Etifeddiant mae unigolyn yn rheoli cwmni os gall reoli'r mwyafrif (mwy na 50%) o'r pwerau pleidleisio ynglŷn â phob cwestiwn sy'n effeithio'r cwmni cyfan.

**Daliad sylweddol**
Daliad stociau a chyfranddaliadau sy'n rhoi mwy na 25% o'r pwerau pleidleisio i'r perchennog ar bob cwestiwn sy'n effeithio ar y cwmni cyfan.

**Defnyddir mewn busnes**
Bydd tir, adeiladau neu offer a pheiriannau yn cymhwyso am Ryddhad Busnes dim ond os cânt eu defnyddio mewn busnes yr oedd yr ymadawedig yn bartner ar ddyddiad y farwolaeth neu os cawsant eu defnyddio gan gwmni a oedd yn cael ei reoli gan yr ymadawedig.

**Ei gadw mewn ymddiriedolaeth**
Bydd tir, adeiladau neu offer a pheiriannau a gedwir mewn ymddiriedolaeth yn cymhwyso am Ryddhad Busnes dim ond os oedd gan yr ymadawedig yr hawl i elwa o'r ymddiriedolaeth a defnyddiwyd yr ased mewn busnes a gynhaliwyd gan yr ymadawedig.

## Prisio busnes

Rhoddir gwybodaeth am sut i brisio'r busnes ar dudalen 72 y canllaw hwn

## Perchnogaeth, manylion cytundeb gwerthiant a buddiannau busnes

1

**Perchnogaeth**
Os ateboch 'Na' i'r cwestiwn hwn, ni fu'r ymadawedig yn berchen ar yr asedion yn ddigon hir i gymhwyso am Ryddhad Busnes. Fodd bynnag, y mae rheolau pan fydd Rhyddhad Busnes ar gael o hyd. Mae'r rheolau hyn yn gymwys pan:
- etifeddwyd yr ased gan yr ymadawedig ar farwolaeth, neu
- mae'r ased wedi disodli asedion eraill a oedd yn gymwys am ryddhad busnes

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant Fel arall, ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 0300 200 1900.

3

**Cytundeb i werthu**
Os oedd y busnes neu'r buddiant busnes yn destun cytundeb cyfrwymol ar gyfer gwerthiant ar ddyddiad y farwolaeth, ni fydd Rhyddhad Busnes fel arfer ar gael oni bai bod y naill neu'r llall o'r ddau amod a nodir ym mlwch 6 yn gymwys.

## Rhyddhad Busnes ar oes rhoddion buddiannau busnes a phartneriaeth ac asedion

Cwblhewch yr adran hon os ydych yn didynnu Rhyddhad Busnes mewn cysylltiad â rhodd oes ar ddyddiad rhoi'r rhodd. Rhaid i chi ateb pob un o'r cwestiynau er mwyn i ni benderfynu p'un a yw'r rhyddhad yn ddyledus.

Ar y ffurflen rydym yn cyfeirio at y cyfnod rhwng dyddiad y rhodd a'r dyddiad y bu farw'r ymadawedig fel y 'cyfnod perthnasol'.

Rhaid i chi ystyried, petai'r unigolyn a gafodd y rhodd wedi trosglwyddo'r eiddo ar ddyddiad y farwolaeth, y byddai'r trosglwyddiad wedi bod yn gymwys am Ryddhad Busnes, a elwir yn 'drosglwyddiad tybiannol'.

**Sylwer**
Os bydd yr amodau ar gyfer Rhyddhad Amaethyddol yn ogystal â Rhyddhad Busnes wedi'u bodloni, caniateir Rhyddhad Amaethyddol yn hytrach na Rhyddhad Busnes. Ni chaniateir Rhyddhad Busnes yn lle hynny, neu'n ychwanegol at Ryddhad Amaethyddol.

# Atodlen IHT414
# Rhyddhad Amaethyddol

## Pryd mae Rhyddhad Amaethyddol ar gael?

Mae Rhyddhad Amaethyddol ar gael ar gyfer trosglwyddiadau o eiddo amaethyddol a chyfranddaliadau penodol mewn cwmnïau amaethu. Ceir tair rheol sylfaenol:

1 rhaid i'r eiddo fod yn eiddo amaethyddol
2 rhaid bod yr ymadawedig wedi bod yn berchen ar yr eiddo am nifer penodol o flynyddoedd
3 rhaid bod yr eiddo wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol

At ddibenion Rhyddhad Amaethyddol, mae eiddo amaethyddol yn golygu tir amaethyddol yn y DU. Ond at ddibenion unrhyw daliadau a godwyd cyn 6 Ebrill 2024 ar sgil marwolaeth neu unrhyw drosglwyddiadau eraill, mae eiddo amaethyddol yn golygu tir amaethyddol yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw a ddefnyddir i dyfu cnydau neu ddwys fagu anifeiliaid at ddibenion bwyta. Bydd unrhyw drosglwyddiadau oes o eiddo yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw a wnaed cyn 6 Ebrill 2024 parhau i elwa o'r rhyddhad os bu farw'r ymadawedig cyn pen 7 mlynedd o ddyddiad y trosglwyddiad.

Mae hefyd yn cynnwys unrhyw ffermdai, bythynnod neu adeiladau sydd o 'natur briodol' i'r eiddo. Golyga hyn bod yn rhaid iddynt fod yn gymesur o ran maint a natur i anghenion gweithgareddau amaethu a gynhelir ar y tir amaethyddol neu'r tir pori dan sylw.

## Beth yw'r gyfradd ar gyfer rhyddhad?

Cyfrifir y rhyddhad drwy ddidynnu canran perthnasol gwerth cyfalafol yr ased. Felly, os yw'r eiddo'n gymwys i gael 100% o'r rhyddhad, dylech gynnwys gwerth yr asedion ym mlwch 68 ar ffurflen IHT400. Dylech ddidynnu'r rhyddhad gan ddefnyddio'r un ffigur ym mlwch 93. Os yw'n gymwys i gael 50% o'r rhyddhad, dylech gynnwys werth yr ased ym mlwch 68 a didynnu'r rhyddhad gan ddefnyddio hanner y ffigur hwnnw ym mlwch 93. Tir gyda meddiant gwag

| | **Dyddiad y farwolaeth ar 10 Mawrth 1992, neu ar ôl hynny** |
|---|---|
| Tir â meddiant gwag | 100% |
| Tir ar osod | 50% |
| Tir ar osod ar ôl 31 Awst 1995 | 100% |

Mae rhai amgylchiadau lle gellir defnyddio'r gyfradd uwch o ryddhad ar gyfer tir ar osod.

Mae'n bosibl y gallai'r rhyddhad fod ar gael ar y gyfradd uwch os oedd y tir yn destun tenantiaeth a ddechreuodd cyn 10 Mawrth 1981. Mae tri amod arall y mae'n rhaid eu bodloni. Maent fel a ganlyn:

- roedd yr ymadawedig wedi bod yn berchen ar y tir ers 10 Mawrth 1981
- byddai'r tir wedi bod yn gymwys am ryddhad amaethyddol llawn o dan y gyfraith ar y dyddiad hwnnw
- nid oedd gan yr ymadawedig, ac ni allai'r ymadawedig gael, yr hawl i feddiant gwag rhwng 10 Mawrth 1981 a dyddiad y farwolaeth

Rhowch fanylion llawn am y rhesymau pam y credwch fod hyn yn berthnasol yn yr achos hwn yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen 4.

**Sylwer**
Os bydd yr amodau ar gyfer Rhyddhad Amaethyddol yn ogystal â Rhyddhad Busnes wedi'u bodloni, caniateir Rhyddhad Amaethyddol yn hytrach na Rhyddhad Busnes. Ni chaniateir Rhyddhad Busnes yn lle hynny, neu'n ychwanegol at Ryddhad Amaethyddol.

Os yw'r eiddo'n gymwys i gael Rhyddhad Amaethyddol a Rhyddhad Busnes, rhowch fanylion yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol'.

Mae'r rheolau ynglŷn â Rhyddhad Amaethyddol yn gymhleth a gallwch ganfod rhagor o wybodaeth ar ein gwefan. Ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant

## Cytundeb cyfrwymol i werthu

3

Os oedd y cyfan neu ran o'r eiddo yn destun cytundeb rhwymol ar werth lle'r oedd y contractau wedi'u cyfnewid cyn i'r ymadawedig farw (neu yn yr Alban, lle'r oedd llythyrau swyddogol wedi'u cwblhau) ond nad oedd y gwerthiant wedi'i gwblhau, ni fydd Rhyddhad Amaethyddol yn ddyledus. Dylech roi manylion y gwerthiant, a nodi'n glir y rhan o'r eiddo a werthwyd ar y cynllun a ddarperwch.

## Defnydd o dir amaethyddol

5

Disgrifiwch y gweithgareddau amaethyddol a gynhelir gan bob deiliad. Nodwch p'un a oedd:
- yn fferm âr, fugeiliol neu gymysg
- y math o gnydau a dyfir fel arfer
- y math o dda byw a oedd yn pori'r tir

Os oedd amrywiaeth o anifeiliaid yn pori'r tir, rhowch syniad ynghylch nifer yr anifeiliaid a nifer yr erwau a ddefnyddiwyd gan bob math.

Rhowch wybod i ni os daeth y gweithgareddau amaethyddol i ben ar unrhyw adeg. Nodwch pryd ddigwyddodd hyn a pham.

Ar gyfer marwolaethau a throsglwyddiadau eraill o werth cyn 6 Ebrill 2025, efallai y bydd Rhyddhad Amaethyddol yn dal i fod yn ddyledus os oedd yr eiddo'n cael ei reoli o dan drefniant cynllun amaeth-amgylcheddol neu gynllun cynefin.

Ar gyfer marwolaethau a throsglwyddiadau eraill o werth o 6 Ebrill 2025 ymlaen, bydd gwerth amgylcheddol tir o dan reolaeth cytundeb rheoli tir amgylcheddol cymhwysol yn gymwys i gael Rhyddhad Amaethyddol.

Bydd rhyddhad ar gael i dir sydd wedi'i reoli o dan gytundeb amgylcheddol â Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig, cyrff cyhoeddus, awdurdodau lleol neu gyrff cyfrifol cymeradwy, neu ar ran un o'r rhain.

6

Disgrifiwch y gweithgareddau amaethyddol a gynhaliwyd gan yr ymadawedig. Nodwch p'un a oedd:
- yn fferm âr, fugeiliol neu gymysg
- y math o gnydau a dyfir fel arfer
- y math o dda byw a oedd yn pori'r tir

Os oedd amrywiaeth o anifeiliaid yn pori'r tir, rhowch syniad ynghylch nifer yr anifeiliaid a nifer yr erwau a ddefnyddiwyd gan bob math.

Os caniatawyd trwydded bori neu borfelaeth gan yr ymadawedig ('conacre' yng Ngogledd Iwerddon), darparwch gopi o'r drwydded os oes un, neu rhowch fanylion llawn y drwydded bori ym mlwch 5.

Dylech roi gwybod i ni hefyd os bu i'r ymadawedig adael yr eiddo neu ddod â'r gweithgaredd amaethyddol i ben. Nodwch pryd ddigwyddodd hyn a pham.

Ar gyfer marwolaethau a throsglwyddiadau eraill o werth cyn 6 Ebrill 2025, efallai y bydd Rhyddhad Amaethyddol yn dal i fod yn ddyledus os oedd yr eiddo'n cael ei reoli o dan drefniant cynllun amaeth-amgylcheddol neu gynllun cynefin.

Ar gyfer marwolaethau a throsglwyddiadau eraill o werth o 6 Ebrill 2025 ymlaen, bydd gwerth amgylcheddol tir o dan reolaeth cytundeb rheoli tir amgylcheddol cymhwysol yn gymwys i gael Rhyddhad Amaethyddol.

Bydd rhyddhad ar gael i dir sydd wedi'i reoli o dan gytundeb amgylcheddol â Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig, cyrff cyhoeddus, awdurdodau lleol neu gyrff cyfrifol cymeradwy, neu ar ran un o'r rhain.

### Ffermdai a bythynnod

12 i 15

Mae angen manylion llawn arnom o'r holl dai a bythynnod yr ydych yn didynnu Rhyddhad Treth Amaethyddol oddi wrthynt. Os oes angen rhagor o le arnoch, yna lawrlwythwch neu llungopïwch gopïau ychwanegol o dudalen 3 Atodlen IHT414.

### Rhyddhad Amaethyddol a throsglwyddiadau oes

17 i 20

Os ydych yn hawlio Rhyddhad Amaethyddol ar rodd, mae'n rhaid i chi ateb cwestiynau 17 i 20 i'n helpu i benderfynu a yw'r rhyddhad yn ddyledus.

# Atodlen IHT418
# *Asedion a ddaliwyd mewn ymddiriedolaeth*

### Buddiant yr ymadawedig yn y meddiant

Rhaid i chi lenwi Atodlen IHT418 os oedd gan yr ymadawedig fuddiant mewn meddiant ac mae'r ymddiriedolaeth yn un o'r canlynol:

- ymddiriedolaeth a sefydlwyd cyn 22 Mawrth 2006 yr oedd hawl gan yr ymadawedig elwa ohoni
- buddiant yn union ar ôl y farwolaeth
- buddiant unigolyn anabl
- buddiant cyfresol trosiannol

Esbonnir yr holl fuddiannau hyn yn nhudalennau 15 ac 16 y canllaw hwn.

### Ymddiriedolaethau tramor

Os oedd gan yr ymadawedig hawl i gael budd o eiddo sefydlog a bod yr holl asedion dramor, dim ond llenwi Adrannau A ac E sydd angen i chi ei wneud os oedd yr ymadawedig wedi marw cyn 6 Ebrill 2025, neu roedd yr unigolyn a wnaeth greu'r ymddiriedolaeth wedi marw cyn 6 Ebrill 2025, ac roedd yr unigolyn hwnnw â'i ddomisil y tu allan i'r DU pan greodd yr ymddiriedolaeth a phan gafodd unrhyw asedion eu hychwanegu at yr ymddiriedolaeth.

Ym mhob achos arall, mae'n rhaid i'r ddau beth canlynol fod yn berthnasol:

- nid oedd yr ymadawedig yn breswylydd tymor hir yn y DU yn union cyn ei farwolaeth
- nid oedd yr unigolyn a greodd yr ymddiriedolaeth yn breswylydd tymor hir yn y DU pan fu farw'r ymadawedig, neu os yw'r unigolyn a greodd yr ymddiriedolaeth wedi marw cyn yr ymadawedig, nid oedd yr unigolyn yn breswylydd tymor hir yn y DU yn union cyn ei farwolaeth

## Pwy ddylai rhoi gwybod i ni am ymddiriedolaeth?

Rhaid i ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth roi manylion llawn i ni ynglŷn â'r asedion a'r rhwymedigaethau sydd ynghlwm yn yr ymddiriedolaeth a phwy ddylai dalu unrhyw Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus.

Fodd bynnag, mae angen i ni wybod cyfanswm gwerth net yr eiddo setledig i'w gynnwys yn yr ystâd er mwyn ein galluogi i gyfrifo cyfanswm y dreth sy'n ddyledus. Mewn rhai amgylchiadau penodol bydd yr ymddiriedolwyr yn talu'r dreth ar yr un adeg ag y byddwch chi'n gwneud cais am grant. Gallai hyn ddigwydd os mai'r un bobl yw'r ymddiriedolwyr a'r cynrychiolwyr personol.

Os yw'r uchod yn berthnasol yma, rhowch fanylion llawn yr holl asedion a'r rhwymedigaethau ar Atodlen IHT418 ac anfonwch atom gopi o'r weithred ymddiriedolaeth. Os mai'r un bobl yw'r ymddiriedolwyr a'r cynrychiolwyr personol ac rydych yn rhoi manylion yr eiddo setledig i ni, efallai y gofynnwn i chi lunio adroddiad ffurfiol wedi'i lofnodi gan yr ymddiriedolwyr. Byddwn yn gwneud hyn o dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

Os yw'r ymddiriedolwyr a'r cynrychiolwyr personol yn bobl wahanol neu os mai dim ond manylion byr yr oedd yn bosibl i chi nodi ar Atodlen IHT418, byddwn yn gofyn i'r ymddiriedolwyr i lunio adroddiad ar wahân (marwolaeth IHT100b).

## Asedion yn yr ymddiriedolaeth

Os oes gennych fanylion llawn o'r asedion a ddaliwyd mewn ymddiriedolaeth gallwch roi'r manylion hynny ym mlychau 8 ac 13. Os bydd angen mwy o le arnoch er mwyn rhestru'r asedion, gallwch ddefnyddio'r blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen 4 Atodlen IHT418. Gellir dangos rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r asedion ym mlychau 9 ac 14.
Ewch i dudalen 74 o'r canllaw hwn i gael gwybodaeth am eithriadau a rhyddhad.

## Sut i brisio asedion a ddaliwyd mewn ymddiriedolaeth

Mae'r rheolau ar gyfer prisio eiddo setledig yr un peth â'r rheolau ar gyfer prisio asedion yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt. I gael rhagor o wybodaeth am brisio asedion, ewch i dudalennau 67 i 73 y canllaw hwn.

## Polisïau yswiriant a ddaliwyd mewn ymddiriedolaeth

Dylech sicrhau bod buddiant yr ymadawedig o dan delerau'r polisi yn un o'r buddiannau lle y dylid cynnwys gwerth yr ymddiriedolaeth fel rhan o'i ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant. Os mai dyma'r achos, nodwch:

- enwau a chyfeiriadau'r ymddiriedolwyr, a
- gwerth buddiant yr ymadawedig yn y polisi

Atodwch gopi o'r polisi.

## Hawl yn y dyfodol i asedion mewn ymddiriedolaeth

19

23

Efallai yr oedd hawl gan yr ymadawedig i rai asedion mewn ymddiriedolaeth ond bod rhywun arall yn cael y budd ohonynt yn ystod bywyd yr unigolyn. Ni fydd ystâd yr ymadawedig yn cael yr asedion hyn tan ar ôl i'r unigolyn arall farw. Gelwir hyn yn 'fuddiant rifersiwn' neu'n 'fuddiant disgwyliad'. Bydd treth ond yn ddyledus ar yr hawl sydd i ddod mewn amgylchiadau prin a dylech ateb cwestiwn 20 i weld os dylai'r gwerth gael ei gynnwys ar ffurflen IHT400 ai peidio.

# Atodlen IHT420
# *Asedion Treftadaeth Genedlaethol - Eithrad Amodol a chronfeydd cynhaliaeth*

## Eithriad Amodol

Llenwch Atodlen IHT420 er mwyn:
- hawlio Eithriad Amodol
- hawlio eithriad ar gyfer trosglwyddiad mewn i gronfa gynhaliaeth
- rhoi manylion unrhyw ased yn yr ystâd, sydd ar unrhyw adeg flaenorol
  - wedi cael Eithriad Amodol o Dreth Etifeddiant, Treth Ystadau neu Dreth Enillion Cyfalaf ar y sail eu bod yn asedion treftadaeth cenedlaethol
  - wedi bod yn destun cronfa gynhaliaeth

Mae Eithriad Amodol o Dreth Etifeddiant ar gael ar gyfer trosglwyddiadau asedion sy'n ffurfio rhan o dreftadaeth genedlaethol y Deyrnas Unedig a rhaid eu hawlio o fewn dwy flynedd ar ôl marwolaeth yr ymadawedig, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol. Golyga hyn na thelir Treth Etifeddiant pan roddir yr ased i berchennog newydd ar farwolaeth neu fel rhodd. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad, rhaid i'r perchennog newydd gytuno i edrych ar ôl yr eitem, caniatáu iddo fod ar gael i'r cyhoedd heb apwyntiad ymlaen llaw ac, os yw'n symudadwy, i'w gadw yn y Deyrnas Unedig. Ond eithriad amodol yn unig ydyw. Os bydd y perchennog newydd yn marw neu'n cael gwared ar yr eiddo, drwy werthiant neu rodd neu fel arall, neu os nad yw'n cadw at y cytundeb, bydd treth fel arfer yn daladwy.

Ond ni fyddai treth yn daladwy os:
- yw'r rhoddai neu'r becweddai yn cytuno i fod yn rhwymedig yn yr un modd
- oedd y gwerthiant drwy gytundeb preifat i sefydliad cenedlaethol cymeradwy, megis Amgueddfa Prydain neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- derbyniwyd yr eiddo yn lle Treth Etifeddiant

## Pa eitemau sy'n gymwys am Eithriad Amodol?

Gall ystod eang o asedion treftadaeth gymhwyso ar gyfer yr eithriad.
- tir â golygfeydd, o ddiddordeb hanesyddol neu wyddonol eithriadol megis Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, maes y gad enwog neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol rhagorol
- tir sy'n hanfodol ar gyfer diogelu cymeriad ac amwynderau adeilad o'r fath
- gwrthrychau oedd yn gysylltiedig yn hanesyddol ag adeilad tebyg
- lluniau, argraffiadau, llyfrau, llawysgrifau, gweithiau celf neu wrthrychau gwyddonol a gwrthrychau eraill nad ydynt eto yn cynhyrchu incwm, sydd yn ddigyffelyb ar gyfer eu diddordeb cenedlaethol, gwyddonol, hanesyddol neu artistig ynddo'u hunain

## Pwy sy'n penderfynu pa eitemau sy'n gymwys?

CThEF sy'n penderfynu p'un a yw eitem yn gymwys ar gyfer Eithriad Amodol gyda chymorth a chyngor gan gyrff cynghorol treftadaeth y Llywodraeth.

## Pa atodlenni eraill sydd eu hangen arnaf?

Yn ogystal â llenwi Atodlen IHT420, bydd angen i chi hefyd lenwi atodlenni eraill er mwyn rhoi manylion llawn o'r asedion cysylltiedig.

**Tir ac adeiladau**

Dylid dangos gwerth unrhyw dir neu adeiladau sydd eisoes wedi'u heithrio yn amodol, sydd yn destun cronfeydd cynhaliaeth neu y mae Eithriad Amodol yn cael ei hawlio arnynt nawr, yn y blwch priodol ar dudalennau 7 ac 8 ffurflen IHT400. Didynnwch swm yr eithriad rydych yn ei hawlio ym mlwch 93. Dylech hefyd lenwi Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir' gan roi manylion llawn y tir neu'r adeiladau cysylltiedig.

**Mân eiddo**

Dylid dangos gwerth unrhyw fân eiddo sydd eisoes wedi'u heithrio'n amodol, sydd yn wrthrychau cronfeydd cynhaliaeth neu sydd ag Eithriad Amodol yn cael ei hawlio arnynt, ym mlwch 55 ffurflen IHT400. Didynnwch swm yr eithriad rydych yn ei hawlio ym mlwch 92. Dylech hefyd lenwi'r Atodlen IHT407, 'Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol' gyda manylion llawn y mân asedion perthnasol.

**Asedion sy'n pasio o dan Ewyllys yr ymadawedig i ymddiriedolwyr cronfa gynhaliaeth**

Mae cronfeydd cynhaliaeth yn gronfeydd ymddiriedolaeth y mae CThEF wedi'u cymeradwyo ar gyfer cynhaliaeth tir neu adeiladau eithriadol ac unrhyw dir amwynderau neu gynhwysion hanesyddol cysylltiedig a fyddai'n gymwys ar gyfer Eithriad Amodol. Mae Eithriad rhag Treth Etifeddiant ar gael ar gyfer trosglwyddiadau llwyr i gronfeydd cynhaliaeth. Rhaid hawlio'r eithriad o fewn 2 flynedd ar ôl marwolaeth yr ymadawedig, heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol.

Os oes unrhyw arian neu asedion eraill yn cael eu pasio o dan delerau Ewyllys yr ymadawedig i gronfa gynhaliaeth ac yr hoffech wneud cais am eithriad rhag Treth Etifeddiant, dylech nodi swm yr arian neu'r asedion yn y blychau priodol ar dudalennau 7 ac 8 ffurflen IHT400. Dylid didynnu swm yr eithriad a hawlir ym mlwch 93, os yw'r asedion yn dir neu'n adeiladau, neu flwch 92 ar gyfer pob ased arall. Yn achos asedion nad ydynt yn arian, dylech hefyd lenwi'r atodlen gymwys gan roi manylion llawn yr asedion perthnasol.

## Ymhle y gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth am asedion treftadaeth neu Eithriad Amodol neu gynigion yn lle treth, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
Fel arall, ffoniwch y Llinell Gymorth ar 0300 200 1900 gan ofyn i gael eich trosglwyddo i'r Tîm Treftadaeth.

# Llenwi ffurflen IHT400 (tudalennau 7 i 16) – ystâd yn y Deyrnas Unedig

## Asedion y gellir ac na ellir talu'r dreth ar eu cyfer fesul rhandaliad

Rhaid i chi lenwi tudalennau 7 i 10 gyda manylion asedion a rhwymedigaethau'r ymadawedig. Rhennir y tudalennau hyn yn ddwy golofn wedi'u labeli colofn A a cholofn B. Rhaid talu Treth Etifeddiant ar yr holl asedion a welir yng ngholofn A cyn y gallwch gael grant cynrychiolaeth (neu Gadarnhad yn yr Alban). Gellir talu'r Dreth Etifeddiant ar asedion yng ngholofn B mewn 10 rhandaliad blynyddol (hynny yw, un rhandaliad bob blwyddyn am 10 mlynedd) ar yr amod nad yw'r asedion dan sylw wedi cael eu gwerthu. Bydd yn rhaid i chi dalu llog ar y rhandaliadau.

Ar ôl i chi lenwi tudalennau 7 i 10 byddwch yn gallu penderfynu a ydych am dalu'r dreth ar yr asedion yng ngholofn B fesul rhandaliad ym mlwch 110.

## Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd, tudalen 7

49 a 50

Rhaid i chi gynnwys gwerth cyfran yr ymadawedig o'r holl asedion roedd e'n berchen arnynt ar y cyd ym mlychau 49 a 50. Bydd angen i chi hefyd roi manylion llawn y rhain ar Atodlen IHT404, 'Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd'. Ceir rhagor o wybodaeth am asedion mewn perchnogaeth ar y cyd ar dudalen 23 y canllaw hwn.

Rhaid i chi gynnwys gwerth yr holl asedion a ddisgrifir yng nghwestiynau 51 i 76 yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn y Deyrnas Unedig yn enw'r ymadawedig pan fu farw.

## Asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn llwyr, tudalennau 7 ac 8

51

### Preswylfa'r ymadawedig (ac eithrio ffermdai a thai mewn perchnogaeth ar y cyd)

Cofiwch gynnwys gwerth cartref yr ymadawedig. Os mai ffermdy yw cartref yr ymadawedig ac rydych yn didynnu Rhyddhad Amaethyddol, peidiwch â'i gynnwys yma. Dylech ei gynnwys ym mlwch 68 yn lle hynny. Os oedd yr ymadawedig wedi symud i gartref nyrsio neu gartref preswyl arall cyn y bu farw, ac roedd y cartref yn wag, dylech gynnwys gwerth y tŷ yma ac nid ym mlwch 70. Os oedd preswylfa'r ymadawedig yn cael ei osod ar ddyddiad y farwolaeth, dylech ei gynnwys ym mlwch 70 ac nid ym mlwch 51.

Rhaid i chi hefyd lenwi Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir' gan roi manylion llawn am gartref yr ymadawedig os oedd yn cael ei osod neu os oedd yn ffermdy. Os oedd preswylfa'r ymadawedig mewn perchnogaeth ar y cyd, dylech ei gynnwys ym mlwch 49 a llenwi IHT404, 'Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd'.

52

### Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu

Rhestrwch bob cyfrif neu fuddsoddiad ar Atodlen IHT406, 'Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu' (neu ffurflen C1, *'Stocrestr'* yn yr Alban) a chynhwyswch yn y blwch hwn y cyfanswm ar gyfer:

- cyfrifon, cyfredol, adnau, llog uchel, llog sefydlog, tymor, bond a'r farchnad arian gyda banc, cymdeithas adeiladu, cymdeithas gilyddol, gyfeillgar neu gydweithredol
- cyfrifon gydag archfarchnadoedd neu gwmnïau yswiriant
- cyfrifon Banc Cynilion Cenedlaethol
- cyfrifon TESSA
- arian a gedwir mewn Cyfrif Cynilo Unigol (ISA)

### Sut i brisio cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu

Bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu yn gallu dweud wrthych faint o arian oedd ym mhob cyfrif pan fu farw'r ymadawedig a faint o log oedd yn ddyledus, ond heb ei dalu, hyd at ddyddiad y farwolaeth. Os oes gennych ffigurau gwahanol ar gyfer cyfalaf a llog, yna ychwanegwch nhw at ei gilydd ar Atodlen IHT406. Ni ddylai cyfrifon banc y busnes gael eu cofnodi ar Atodlen IHT406, dylid eu cynnwys ym mlwch 69 ar dudalen 8 yr IHT400 ac Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'*.

53

### Arian parod

Cynhwyswch yn y blwch hwn:

- unrhyw arian parod a gedwir gan yr ymadawedig neu a gadwyd gartref neu unrhyw le arall er enghraifft blychau adneuo
- arian a gedwir ar ran yr ymadawedig gan rywun arall - er enghraifft, brocer stoc

- sieciau teithio
- unrhyw sieciau heb eu cyflwyno i'r banc yn enw'r ymadawedig

Dylid cynnwys sieciau teithio sterling i ddangos eu hwynebwerth. Os yw'r sieciau teithio mewn arian cyfred tramor mwyaf cyffredin, dylech eu trosi i sterling gan ddefnyddio'r pris canol adeg cau, ar ddyddiad y farwolaeth. Gallwch ddod o hyd i dablau arnewid arian cyfred yn nhudalennau ariannol y papurau newydd neu gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar y rhyngrwyd.

**54** **Bondiau premiwm a chynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol**

Rhestrwch bob buddsoddiad ar wahân ar Atodlen IHT406, *'Cyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu neu gyfrif Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I)'* (neu ffurflen C1, *'Stocrestr'* yn yr Alban) a chynhwyswch yn y blwch hwn y cyfanswm ar gyfer yr holl fuddsoddiadau.

Gallwch ddarganfod gwerth holl fuddsoddiadau Cynilion Cenedlaethol drwy fynd i www.nsandi.com/hafan, neu drwy ffonio llinell ymholiadau cyffredinol Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol ar 0800 783 3368. Os cewch ffigurau ar wahân ar gyfer cyfalaf ac ar gyfer llog sy'n ddyledus, ond heb ei dalu, hyd at ddyddiad y farwolaeth, ychwanegwch nhw at ei gilydd ar Atodlen IHT406.

**55** **Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol**

Ym mlwch 55 nodwch gyfanswm gwerth yr holl nwyddau tŷ a nwyddau personol a restrwyd ar Atodlen IHT407, 'Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol' a chopïwch y ffigur o flwch 6 ar yr atodlen honno i flwch 55 ar ffurflen IHT400.

**56** **Pensiynau**

Ym mlwch 56 nodwch gyfanswm y ffigurau ym mlychau 7 ac 15 o Atodlen IHT409, 'Pensiynau', yn ogystal â gwerth unrhyw ôl-daliadau pensiwn sy'n ddyledus i'r ymadawedig o'r taliadau misol diwethaf hyd at ddyddiad y farwolaeth.

**57** **Polisïau aswiriant bywyd a diogelu morgeisi**

Ym mlwch 57 nodwch y cyfanswm sy'n daladwy:

- o bolisïau yswiriant bywyd, gan gynnwys bonysau
- o dan bolisïau gwarchod morgeisi (gallwch ganfod rhagor ynglŷn â pholisïau ar y cyd ar gyfer gwarchod morgeisi ar dudalen 24 y canllaw hwn)
- o dan gynlluniau buddsoddi sydd ynghlwm wrth unedau sy'n talu 101% o werth yr uned
- cynlluniau buddsoddi neu ailfuddsoddi, bondiau neu gytundebau gyda darparwyr gwasanaethau ariannol sy'n talu'r ystâd ar farwolaeth
- gwerth buddiant yr ymadawedig mewn polisïau ar y cyd ar gyfer yswiriant bywyd yr oedd yr ymadawedig yn un o'r bywydau a yswiriwyd drwyddo, ond sy'n parhau mewn grym ar ôl y farwolaeth
- polisïau yswiriant ar fywyd unigolyn arall ond lle'r oedd yr ymadawedig yn elwa
- o bolisïau yswiriant sy'n rhan o Gyfrif Cynilo Unigol (ISA)
- o dan yswiriant meddygol preifat i gwrdd â chostau ysbyty a chostau iechyd eraill a gododd cyn y farwolaeth

Llenwch Atodlen IHT410 Yswiriant bywyd a blwydd-daliadau i roi manylion pob polisi yswiriant.

62 **Gwarantau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a bwrdeisiol**
Ym mlwch 62 nodwch gyfanswm y gwerth ar gyfer:
- Stociau'r Trysorlys, Stociau'r Siecr, Stociau Trosiadwy, Stociau Cyfunol a Benthyciadau, Stociau Ariannu, Bondiau Cynilo, Bondiau Buddugoliaeth, Benthyciadau Rhyfel
- Stoc y Llywodraeth a gedwir ar Gofrestr Banc Lloegr (a gadwyd yn flaenorol ar Gofrestr Cynilion Cenedlaethol)
- dinasoedd neu drefi, dociau, porthladdoedd a byrddau dŵr, Awdurdod Porthladd Llundain, Corfforaeth Morgais Amaethyddol, Stociau Bwrdeisiol Gogledd Iwerddon

Llenwch Atodlen IHT411, 'Stoc a chyfranddaliadau wedi'u rhestru' i roi manylion pob buddsoddiad. Copïwch y ffigur o flwch 1 yr atodlen i flwch 62 ffurflen IHT400.

63 **Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau wedi'u rhestru**
Ym mlwch 63 nodwch gyfanswm y gwerth ar gyfer:
- yr holl stociau, cyfranddaliadau, dyledebion a marchnadoedd eraill sy'n bodloni diffiniad CThEF o 'rhestredig'
- ymddiriedolaethau unedol
- ymddiriedolaethau buddsoddi
- cwmnïau buddsoddi penagored
- cyfranddaliadau wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig sy'n rhan o ISA
- cyfranddaliadau tramor a restrir ar Gyfnewidfa Stoc Llundain

Gallwch ddod o hyd i restr o'r marchnadoedd sy'n cael eu diffinio fel rhai 'rhestredig' neu 'heb eu rhestru' at ddibenion CThEF, ewch i www.gov.uk/recognised-stock exchanges

Peidiwch â chynnwys cyfranddaliadau a restrwyd a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig. Dylech gynnwys y rheiny ym mlwch 67 yn lle hynny.

Ceir arweiniad ynghylch sut i brisio stociau a chyfranddaliadau ar dudalen 67 y canllaw hwn.

Bydd angen i chi hefyd lenwi Atodlen IHT411, 'Stoc a chyfranddaliadau wedi'u rhestru' i restru holl stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau'r ymadawedig. Copïwch y ffigur o flwch 2 yr atodlen i flwch 63 ffurflen IHT400.

64 **Difidendau neu log ar stociau, cyfranddaliadau a gwarantau**
Ym mlwch 64 nodwch gyfanswm gwerth y difidendau a llog ar asedion ym mlychau 62, 63, 65, 66 a 67 sy'n ddyledus ar ddyddiad y farwolaeth ond nad oeddynt wedi'u talu eto.

65 **Cyfranddaliadau heb eu rhestru ac a fasnachir a chyfranddaliadau heb eu rhestru ac eithrio daliadau rheoli**
Pan fo cwmni wedi'i restru ar farchnad y DU neu farchnad Cyfnewidfa Dramor nad yw'n bodloni diffiniad CThEF o 'rhestredig', caiff ei gyfranddaliadau a'i warantau eu dynodi fel rhai anrhestredig.

Ym mlwch 65 nodwch gyfanswm gwerth:
- stociau a chyfranddaliadau mewn cwmnïau cyfyngedig preifat nas rhestrwyd
- cyfranddaliadau sydd wedi'u masnachu ar farchnadoedd eraill, gan gynnwys cyfranddaliadau sy'n rhan o ISA
- cyfranddaliadau a gedwir mewn BES neu mewn BSS

nad oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig.
Dylech gynnwys y stociau a'r cyfranddaliadau ar Atodlen IHT412, *'Stociau a chyfranddaliadau anrhestredig a daliannau sy'n rhoi rheolaeth'.*

66 **Rhandaliadau ar gyfranddaliadau**

Gallwch dalu'r dreth ar rai cyfranddaliadau nas rhestrwyd a fasnachir a chyfranddaliadau nas rhestrwyd drwy randaliadau ond bydd hyn yn anghyffredin iawn. Ewch i'r nodiadau ar Atodlen IHT412 ynglŷn â thalu treth drwy randaliadau.

67 **Daliadau rheoli o gyfranddaliadau heb eu rhestru ac a fasnachir a chyfranddaliadau wedi'u rhestru**

Dylech gynnwys yn y blwch hwn gyfanswm gwerth cyfranddaliadau a restrir ar farchnad nad yw'n bodloni'r diffiniad o 'rhestredig' at ddibenion CThEF, lle'r oedd gan yr ymadawedig reolaeth ar y cwmni.
Gallwch ddod o hyd i restr o farchnadoedd a ddiffinnir fel rhai 'rhestredig' neu 'heb eu rhestru' at ddibenion CThEF, ewch i www.gov.uk/recognised-stock-exchanges

Dylech gynnwys y stociau a'r cyfranddaliadau ar Atodlen IHT412, *'Stociau a chyfranddaliadau anrhestredig a daliannau sy'n rhoi rheolaeth'.*

68 **Ffermydd, ffermdai a thir fferm**

Yn y blwch hwn dylech gynnwys cyfanswm gwerth y ffermydd, ffermdai a thir fferm yr ydych yn didynnu Rhyddhad Amaethyddol ar eu cyfer.

Rhaid i chi hefyd lenwi Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir' gan roi manylion llawn y ffermydd, ffermdai a thir fferm ac Atodlen IHT414, *'Rhyddhad Amaethyddol'* i ddidynnu Rhyddhad Amaethyddol.

69 **Busnesau gan gynnwys busnesau ffermio, asedion busnes a choed**

Dylech gynnwys gwerth net buddiant yr ymadawedig mewn busnes ym mlwch 69. Os bu'r ymadawedig yn cymryd rhan mewn mwy nag un busnes, efallai y bydd angen i chi lenwi Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'* ar gyfer pob busnes neu bartneriaeth. Nodwch gyfanswm gwerth yr holl fusnesau yn y blwch priodol.

**Busnes ffermio**

Yn y blwch hwn dylech gynnwys unrhyw asedion yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt ac yn dal i gael eu defnyddio gan yr ymadawedig ar gyfer gweithgareddau busnes ffermio.

**Eiddo busnes**

Cynhwyswch werth unrhyw eiddo roedd yr ymadawedig yn berchen arno lle'r oedd yn cynnal busnes, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth (er enghraifft, gwesty, siop, neu ffatri). Os oedd yn fusnes ffermio, cynhwyswch werth yr eiddo ym mlwch 68.

**Buddiant mewn busnes**

Dylech gynnwys gwerth net buddiant yr ymadawedig mewn busnes neu mewn busnes ffermio. Os oedd yr ymadawedig mewn partneriaeth, nodwch y gwerth ym mlwch 69. Os bu'r ymadawedig yn cymryd rhan mewn mwy nag un busnes, efallai y bydd angen i chi lenwi Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'* ar gyfer pob buddiant busnes.

**Buddiant yn y bartneriaeth**

Dylech gynnwys gwerth net buddiant yr ymadawedig mewn partneriaeth. Os bu'r ymadawedig yn cymryd rhan mewn mwy nag un bartneriaeth, efallai y bydd angen i chi lenwi Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'* ar wahân ar gyfer pob buddiant partneriaeth.

**Asedion busnes**

Yn y blwch hwn dylech gynnwys unrhyw asedion yr oedd yr ymadawedig

yn berchen arnynt ac a ddefnyddiwyd gan yr ymadawedig ar gyfer gweithgareddau busnes.

**Coed a choetiroedd**
Dylech gynnwys gwerth unrhyw goed neu goetiroedd yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt nad oedd yn rhan o'r fferm. Bydd y rhan fwyaf o ffermydd yn cynnwys coedlannau, coedwigoedd bychain a lleiniau o goed sy'n cysgodi'r tir. Cynhwyswch y rhain gyda gwerth y fferm ym mlwch 68.

70 **Tir, adeiladau a hawliau dros diroedd eraill**
Cynhwyswch yn y blwch hwn gwerth unrhyw dir, adeiladau neu hawliau dros diroedd nas cynhwyswyd mewn blychau mewn mannau eraill.

Gallai'r rhain gynnwys:
- eiddo sydd wedi'u gosod
- garejys cloi
- tir segur
- eiddo diffaith
- chwareli
- meysydd awyr
- hawliau pysgota neu hawliau eraill sydd ynghlwm wrth dir

Llenwch Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir' gyda manylion y tir neu'r eiddo.

71 a 72 **Buddiant mewn ystâd arall**
Gallai'r ymadawedig fod wedi cael yr hawl i gymynrodd neu gyfran o ystâd rhywun a fu farw o flaen yr ymadawedig. Os bu farw'r ymadawedig cyn cael yn llawn y gymynrodd neu gyfran o'r ystâd honno, dylech gynnwys ffigur yn y blwch hwn ar gyfer asedion sydd i'w cael o hyd. Bydd angen i chi lenwi Atodlen IHT415, *'Interest in another estate'* i roi manylion o'r buddiant hwn.

73 **Dyledion sy'n ddyledus i'r ystâd**
Nodwch gyfanswm gwerth:
- arian yr oedd yr ymadawedig wedi rhoi benthyg i rywun arall yn bersonol ac nad oedd wedi'i ad-dalu ar ddyddiad y farwolaeth
- arian roedd yr ymadawedig wedi rhoi benthyg i ymddiriedolwyr a oedd wedi'i gysylltu â pholisi aswiriant bywyd a ddelir mewn ymddiriedolaeth
- arian yr oedd yr ymadawedig yn dal nodyn addewidiol
- arian yr oedd yr ymadawedig yn dal nodyn benthyciad sef 'IOU'
- arian sy'n ddyledus i'r ymadawedig o gyfrif benthyciad cyfarwyddwr neu gyfrif cyfredol gyda chwmni

Bydd angen i chi lenwi Atodlen IHT416, *'Debts due to the estate'* i roi manylion pob swm sy'n ddyledus i'r ymadawedig.

**Dyledion sy'n ddyledus i'r ymadawedig ac a warantwyd gan forgais**
Nodwch gyfanswm yr arian y gwnaeth yr ymadawedig rhoi benthyg i rywun a oedd wedi'i warantu gan forgais ac roedd heb ei ad-dalu, hyd at ddyddiad y farwolaeth. Bydd angen i chi lenwi Atodlen IHT416, *'Debts due to the estate'* gan roi manylion pob morgais.

74 **Ad-daliad Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf**
Ym mlwch 74 nodwch gyfanswm unrhyw Dreth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf a ad-dalwyd mewn gwirionedd i'r ystâd neu amcangyfrif rhesymol o unrhyw swm a allai fod yn ad-daladwy i'r ymadawedig. Gallai ad-daliad Treth

Incwm fod yn ddyledus os bu farw'r ymadawedig yn gynnar yn y flwyddyn dreth gan gael pensiwn ac incwm arall pan ddidynnwyd treth wrth y ffynhonnell.

75 **Incwm o ymddiriedolaeth sy'n ddyledus i'r ymadawedig**

Yn y blwch hwn nodwch incwm o ymddiriedolaeth sy'n ddyledus i'r ymadawedig. Gallai hyn fod yn incwm a gafodd yr ymddiriedolwyr ond na dalwyd i'r ymadawedig neu incwm a oedd wedi cronni, ond heb ei dalu i'r ymddiriedolwyr.

At ddibenion ateb y cwestiwn hwn does dim gwahaniaeth p'un a ddylai gwerth eiddo'r ymddiriedolaeth gael ei drin fel rhan o ystâd yr ymadawedig at ddibenion Treth Etifeddiant. Dylai ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth fod yn gallu dweud wrthych ba ffigur i'w gynnwys ym mlwch 75.

76 **Asedion eraill ac incwm sy'n ddyledus i'r ymadawedig**

Ym mlwch 76 nodwch gyfanswm gwerth unrhyw asedion eraill nas rhestrwyd ym mlychau 49 i 75 neu incwm sy'n ddyledus i'r ymadawedig nas talwyd ar ddyddiad y farwolaeth. Dylech gynnwys yma swm gros unrhyw rent o eiddo ar osod a oedd yn ddyledus i'r ymadawedig. Cynhwyswch yr eiddo ei hun ar wahân ar Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir'.

**Asedion ac incwm arall**

Nodwch gyfanswm gwerth:
- arian a oedd yn ddyledus ar ffurf tâl, cyflog neu ffioedd cyfarwyddwr
- budd-daliadau (ac eithrio ôl-daliadau pensiwn) sy'n ddyledus ond sydd heb eu hawlio o'r Adran Gwaith a Phensiynau (cynhwyswch ôl-daliadau pensiwn ym mlwch 56)
- unrhyw ad-daliad gan gyflenwyr nwy, trydan neu ddŵr
- unrhyw bremiymau yswiriant neu ad-daliadau trwyddedi
- buddiannau marwolaeth sy'n daladwy i'r ystâd o flwydd-dâl, cynllun pensiwn neu bolisi
- arian sy'n ddyledus i'r ymadawedig drwy werthu eiddo real neu ar brydles pan fo'r contract am werthu wedi'i gyfnewid cyn y farwolaeth ond lle nad oedd y gwerthiant wedi'i gwblhau erbyn yr adeg y bu farw'r ymadawedig
- unrhyw asedion eraill nas cynhwyswyd mewn man arall
- unrhyw grypto-asedion yr ystyrir eu bod yn dilyn lleoliad eu perchennog

Defnyddiwch y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 17 i nodi unrhyw wybodaeth arall.

## Didyniadau o'r ystâd a dalwyd hyd at ddyddiad y farwolaeth, tudalennau 9 a 10

**Didyniadau yn gyffredinol**

Gellir didynnu o'r ystâd unrhyw ddyledion a rhwymedigaethau yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt ar y dyddiad y bu farw. Pan fu'r ymadawedig farw ar 17 Gorffennaf 2013, neu ar ôl hynny, mae yna rai amodau sy'n rhaid eu bodloni cyn y gellir didynnu rhwymedigaeth. Mae'r amodau yn ymwneud â:
- yr hyn y defnyddiwyd yr arian a fenthycwyd ar ei gyfer
- a gafodd yr arian ei ad-dalu gan yr ystâd mewn gwirionedd

Os nad yw'r rhwymedigaeth yn bodloni'r amodau, mae'n bosib na chaiff ei didynnu o'r ystâd. Os bu'r ymadawedig farw cyn 17 Gorffennaf 2013, nid yw'r amodau hyn yn berthnasol.

Mae'r rhan fwyaf o rwymedigaethau yn debygol o fod yn filiau a dyledion sy'n ddyledus ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, cardiau credyd ac ati. Ond mae hefyd yn bosib fod dyledion yn ddyledus i aelodau o'r teulu, ymddiriedolaethau'r teulu a chwmnïau a dyledion a ddefnyddiwyd mewn perthynas â chynlluniau arbed treth. Mae'n bosib na chaiff pob un o'r dyledion hyn eu caniatáu fel didyniad o'r ystâd.

Os caiff dyled ei gwrthod yn benodol, mae'n rhaid i chi beidio â'i chynnwys wrth lenwi'r ffurflen. Fel arall gallwch gynnwys pob dyled arall yr oedd gan yr ymadawedig ar adeg y farwolaeth. Mae hyn gan ddisgwyl y bydd y dyledion hyn yn cael eu had-dalu o'r ystâd.

Nid oes yn rhaid i chi ddarparu unrhyw dystiolaeth bod dyled wedi'i had-dalu o'r ystâd. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi am rai dyledion unwaith y byddwn wedi edrych ar y ffurflen a byddwn yn dweud wrthych wedyn beth fyddwn angen i chi wneud er mwyn dangos bod y ddyled wedi'i had-dalu. Os na chaiff unrhyw ddyledion eu had-dalu o'r ystâd ar ôl hynny, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni.

## Didyniadau nad oes modd eu caniatáu

Os benthycwyd arian i gaffael, cynnal a chadw neu wella eiddo wedi'i eithrio, ni ellir ei ganiatáu fel didyniad yn erbyn yr ystâd. Mae hyn yn gymwys p'un a yw'r ddyled wedi'i had-dalu mewn gwirionedd ai peidio, ac mae'r un peth yn gymwys ar gyfer benthyciad a ddefnyddiwyd i gaffael, cynnal a chadw neu wella eiddo sydd wedi dod yn eiddo eithriedig.

Ond mae yna eithriad i'r rheol hon os yw'r eiddo eithriedig wedi'i werthu ers hynny ac mae'r arian a gafwyd ar ei gyfer bellach yn agored i dreth, neu mae'r eiddo eithriedig ei hunan wedi dod yn agored i dreth. Os credwch fod yr eithriad hwn yn gymwys ac mae'r ddyled wedi'i had-dalu mewn gwirionedd o'r ystâd, gallwch gynnwys y ddyled hon. Rhowch wybod i ni pam y credwch y dylid caniatáu'r ddyled ar yr Atodlen IHT419.

## Didyniadau y gellir eu caniatáu

Rhaid ad-dalu dyled o asedion yr ystâd cyn y gellir ei ganiatáu fel didyniad o'r ystâd. Disgwyliwn y bydd y rhan fwyaf o ddyledion yn cael eu had-dalu unwaith bydd y grant wedi'i ganiatáu, fel y gellir eu cynnwys ym mlwch 80 neu 82. Ond os ydych yn gwybod na fydd dyled yn cael ei had-dalu, neu ond yn cael ei thalu yn rhannol, ni ddylech gynnwys y ddyled ar y ffurflen, neu dylech ond cynnwys y rhan fydd yn cael ei had-dalu. Os ydych yn cynnwys unrhyw ddyledion ar y ffurflen nad ydynt yn cael eu had-dalu gan yr ystâd ar ôl hynny, yna mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni.

## Didyniadau na chânt eu had-dalu o'r ystâd

Os na ad-delir y ddyled o'r ystâd, mae yna amgylchiadau penodol pan fydd, o bosib, yn dal i gael ei chaniatáu fel didyniad. Bydd hyn pan:

- fod yna reswm masnachol gwirioneddol dros beidio ag ad-dalu'r ddyled
- nad yw peidio ag ad-dalu'r ddyled yn arwain at fantais o ran treth

Os nad yw dyled yn mynd i gael ei had-dalu, ond credwch y bydd yn dal i gael ei chaniatáu, gallwch gynnwys y ddyled. Rhowch wybod pa bryd y credwch y dylid caniatáu'r ddyled yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 ffurflen IHT400.

## Didyniadau a ddefnyddir i gaffael rhai mathau penodol o asedion

Os defnyddiwyd rhwymedigaeth y gellir ei chaniatáu fel didyniad i gaffael, gwella neu gynnal a chadw eiddo sy'n gymwys ar gyfer Rhyddhad Amaethyddol, Rhyddhad Busnes neu Ryddhad Coetiroedd, a chodwyd y rhwymedigaeth ar 6 Ebrill 2013, neu ar ôl hynny, mae'n rhaid i chi ddidynnu'r rhwymedigaeth honno o'r eiddo perthynol cyn cyfrifo swm y rhyddhad sy'n ddyledus.

Mae hyn yn gymwys p'un a yw'r rhwymedigaeth, mewn gwirionedd, wedi'i gwarantu yn erbyn eiddo arall ai peidio. Os yw'r rhwymedigaeth yn fwy na gwerth yr eiddo sy'n gymwys am y rhyddhad, rydych yn dal i allu cynnwys y rhwymedigaeth lawn am y caniateir y gormodedd yn erbyn yr asedion eraill.

80 **Morgeisi a benthyciadau wedi'u gwarantu**
Yn y blwch hwn dylech gynnwys unrhyw arian a warantwyd ar forgais ar yr adeiladau neu'r tir a ddangosir ar dudalennau 7 ac 8 y ffurflen IHT400.

Os oedd yr un morgais wedi'i warantu ar eiddo mewn dau neu ragor o flychau 49 i 71, ac ar yr un adeg mae eithriad neu ryddhad yn ddyledus, bydd yn rhaid dosrannu'r morgais rhwng yr eiddo. Hefyd, yn yr achosion prin hynny pan fo dim ond un eiddo o fewn y categori a ddisgrifir ym mlychau 49 i 79, ond defnyddir rhan o'r eiddo hwnnw yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion busnes ac ni ddefnyddir rhan arall, yna fel arfer dylid dosrannu'r morgais rhwng rhan yr eiddo a ddefnyddir ar gyfer y busnes a'r rhan nas defnyddir ar ei gyfer.

Os oedd gan yr ymadawedig bolisi diogelu morgais, dylech gynnwys y morgais ym mlwch 80 a chynnwys yr arian sy'n ddyledus i'r ystâd o'r polisi ym mlwch 57.

**81** **Treuliau angladd**

Gallwch ddidynnu costau'r angladd a threuliau galaru rhesymol. Gallwch hefyd ddidynnu cost carreg bedd sy'n dynodi safle bedd yr ymadawedig.

Gall y treuliau hyn hefyd gynnwys swm rhesymol i dalu am gost:

- blodau
- darparu lluniaeth ar gyfer galarwyr ar ôl y gwasanaeth
- treuliau angenrheidiol a dalwyd gan yr ysgutor neu weinyddwr wrth drefnu'r angladd

Defnyddiwch y bwlch a ddarparwyd i roi manylion y costau eraill sy'n cael eu didynnu.

**82** **Rhwymedigaethau eraill**

Cynhwyswch dim ond dyledion yr oedd mewn gwirionedd yn ddyledus gan yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth ac sy'n bodloni'r amodau ar gyfer didynnu dyled. Rhaid i chi beidio â chynnwys ffioedd am wasanaethau proffesiynol a gyflawnwyd oni bai yr aed i'r ffioedd wrth gael ad-daliad Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf a dangosir yr ad-daliad fel ased yr ystâd ym mlwch 74. Golyga hyn na ellir didynnu ffioedd profiant, unrhyw ffioedd cyfreithiwr neu werthwr tai ac unrhyw ffioedd prisio a dalwyd wrth ddelio ag ystâd yr ymadawedig.

Rhestrwch yr holl ddyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth. Llenwch enw'r unigolyn neu'r corff y mae arian yn ddyledus iddo a nodwch yn gryno pam mae'r arian yn ddyledus. Os byddwch yn cynnwys didyniad ar gyfer ffioedd cyfreithwyr neu gyfrifwyr, rhowch ddyddiadau'r cyfnod y cafodd y gwaith ei wneud ynddo. Ychwanegwch y rhwymedigaethau at ei gilydd a nodwch y cyfanswm yn y blwch hwn.

**Benthyciadau**

Llenwch Atodlen IHT419, 'Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig' i roi manylion unrhyw fenthyciadau a wnaed i'r ymadawedig. Rhowch gymaint â phosibl o fanylion i ddangos y gellid caniatáu'r benthyciad fel didyniad.

**Sieciau heb eu clirio**

Os ydych yn cynnwys sieciau a ysgrifennwyd gan yr ymadawedig, ond nad oeddynt wedi'u clirio cyn i'r ymadawedig farw, nodwch ar gyfer pwy roedd y sieciau wedi'u hysgrifennu ac ar gyfer pa nwyddau neu wasanaethau. Ni ellir didynnu sieciau nas cliriwyd ac a ysgrifennwyd gan yr ymadawedig fel rhoddion, fel rhwymedigaethau'r ystâd.

**Arian sy'n cael ei ad-dalu**

Llenwch Atodlen IHT419, 'Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig' i roi manylion am arian sy'n cael ei ad-dalu i berthnasau.

### Dyledion a warantwyd

Llenwch Atodlen IHT419, 'Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig' i roi manylion unrhyw.

## Delio â diffyg ariannol, tudalen 10

85 a 86

Os yw'r ffigur ym mlwch 85 neu flwch 86 yn ffigur minws (oherwydd roedd y rhwymedigaethau ar yr asedion yng ngholofn A neu golofn B yn fwy na gwerth yr asedion) gallwch ddelio â'r diffyg fel a ganlyn:

- os yw'r ffigur ym mlwch 85 yn ffigur minws, ysgrifennwch '0' ym mlwch 85 a didynnwch y diffyg ym mlwch 88
- os yw'r ffigur ym mlwch 86 yn ffigur minws, ysgrifennwch '0' ym mlwch 86 a didynnwch y diffyg ym mlwch 87
- os yw'r ffigur ym mlwch 89 neu flwch 90 yn ffigur minws, ysgrifennwch '0' ym mlwch 89 neu 90 a didynnwch y diffyg o'r eiddo tramor (os oes un) trwy ychwanegu'r diffyg at y rhwymedigaethau ym mlwch 2 ar Atodlen IHT417, *'Asedion tramor'*
- os yw'r eiddo tramor yn dangos diffyg hefyd, ysgrifennwch '0' ym mlwch 3 ar Atodlen IHT417
- os oes diffyg, dylai blwch 96 fod yn '0' hefyd

## Eithriadau a rhyddhad, tudalen 10

92

### Eithriadau a rhyddhad a ddidynnwyd o asedion yng ngholofn A

Mae rhagor o wybodaeth am eithriadau a rhyddhad ar dudalen 74 y cynllun. Mae'r mwyafrif o eithriadau a rhyddhad yn gymwys ar gyfer asedion penodol. Felly, cyfyngir swm yr eithriad neu'r rhyddhad i werth yr ased ar ôl didynnu unrhyw rwymedigaethau. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys nid yn unig rhwymedigaethau a godwyd ar yr eiddo dan sylw, ond hefyd unrhyw rwymedigaethau a godwyd er mwyn caffael, gwella neu gynnal gwerth unrhyw eiddo yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer. Nodwch yr eithriad neu'r rhyddhad i'w ddidynnu o'r asedion sydd wedi'u cynnwys yng ngholofn A ar dudalennau 7 ac 8 y ffurflen IHT400.

Gallai rhai eithriadau, er enghraifft, Eithriad Elusennol, fod yn gymwys i'r ystâd gyfan. Pan fo hyn yn gymwys, dosrannwch y rhyddhad rhwng yr asedion dan sylw, waeth sut gaiff y gymynrodd ei hariannu, felly gallai cyfran o'r rhyddhad fod yn gymwys i'r asedion yng ngholofn A a'r rhan arall i'r asedion yng ngholofn B. Peidiwch â didynnu trosglwyddiad yr haen cyfradd sero nas defnyddiwyd yma, defnyddiwch flwch 116 yn lle.

### Toll Ystâd a dalwyd ar farwolaeth priod

Os oedd gan yr ymadawedig hawl i elwa o ymddiriedolaeth a grëwyd gan yr ewyllys neu drwy ddiewyllysedd priod neu gyn briod a fu farw cyn 13 Tachwedd 1974, caiff y gwerth cyfalafol ei adael allan o'r cyfrif os talwyd y Dreth Ystâd neu os cafodd ei thrin fel petai wedi'i thalu ar adeg y farwolaeth gynharach ar gyfer yr asedion hynny ac nid oedd yr ymadawedig 'yn gymwys i waredu' yr asedion. Er enghraifft, os rhoddwyd y grym i'r ymadawedig i ddweud sut y dylid delio â'r eiddo setledig naill ai yn ystod ei fywyd neu ar adeg ei farwolaeth y byddai'n gymwys i waredu'r asedion ac ni fyddai'r eithriad yn gymwys.

### Eiddo a eithriwyd

Ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025, os nad oedd yr ymadawedig yn breswylydd tymor hir yn y DU yn union cyn ei farwolaeth ac nid oedd yn breswyl yn y DU pan fu farw, mae cyfrifon banc arian cyfred tramor a ddelir mewn rhai banciau yn y DU yn 'eiddo eithriedig'.

Ar gyfer marwolaethau ar neu cyn 5 Ebrill 2025, roedd cyfrifon banc arian cyfred tramor yn eiddo eithriedig os oedd yr ymadawedig â'i ddomisil y tu allan i'r DU ac nid oedd yr ymadawedig yn breswyl neu fel arfer yn preswylio

yn y DU pan fu farw.

Bydd unrhyw gyfrif arian cyfred tramor gydag unrhyw fanc 'y Stryd Fawr', er enghraifft Barclays neu'r *Royal Bank of Scotland,* yn gymwys. Bydd cyfrifon arian cyfred gyda banciau eraill megis:

- ANZ Grindlays Bank Plc
- Banque Nationale de Paris Plc
- ANZ Grindlays Bank Plc
- ANZ Grindlays Bank Plc

yn gymwys hefyd. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os bydd angen i chi wirio p'un a yw cyfrif arian cyfred tramor yn cymhwyso fel 'eiddo eithriedig'. Dylech gynnwys y cyfrifon banc ym mlwch 52 ar ffurflen IHT400, ond didynnwch y gwerth ym mlwch 92.

Efallai y bydd gwarantau Llywodraethol yn eiddo eithriedig os nad yw'r ymadawedig yn breswylydd yn y DU a'i fod yn bodloni'r amodau cymhwyso i'r rhain fod yn Rhydd o Dreth at ddiben Preswylwyr Tramor (amodau FOTRA). Cynhwyswch y gwarantau ym mlwch 62 ffurflen IHT400, ond didynnwch y gwerth ym mlwch 92.

Os ydych yn gwneud didyniad ar gyfer eiddo a eithrir o asedion mewn ymddiriedolaeth, bydd unrhyw incwm a ddosrannir, a gynhwyswyd ym mlwch 74, wedi'i eithrio hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad yn gymwys i unrhyw incwm cronedig nad oedd wedi'i dalu i'r ymadawedig ac fe'i cynhwysir ym mlwch 74.

## Eithriadau a rhyddhad, tudalen 11

93

**Eithriadau a rhyddhad a ddidynnwyd o asedion yng ngholofn B**
Mae'r mwyafrif o eithriadau a rhyddhad yn gymwys ar gyfer asedion penodol. Felly, cyfyngir swm yr eithriad neu'r rhyddhad i werth yr ased ar ôl didynnu unrhyw rwymedigaethau. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys nid yn unig rhwymedigaethau a godwyd ar yr eiddo dan sylw, ond hefyd unrhyw rwymedigaethau a godwyd er mwyn caffael, gwella neu gynnal gwerth unrhyw eiddo yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer. Nodwch yma'r eithriad neu'r rhyddhad i'w didynnu o'r asedion sydd wedi'u cynnwys yng ngholofn B ar dudalennau 7 ac 8.

Gallai rhai eithriadau, er enghraifft, Eithriad Elusennol, fod yn gymwys i'r ystâd gyfan. Pan fo hyn yn gymwys, dosrannwch y rhyddhad rhwng yr asedion dan sylw, waeth sut gaiff y gymynrodd ei hariannu, felly gallai cyfran o'r rhyddhad fod yn gymwys i'r asedion yng ngholofn A a'r rhan arall i'r asedion yng ngholofn B. Peidiwch â didynnu trosglwyddiad yr haen cyfradd sero nas defnyddiwyd yma, defnyddiwch flwch 116 yn lle.

Os ydych yn didynnu Rhyddhad Busnes neu Ryddhad Amaethyddol o ased, bydd angen i chi hefyd lenwi Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'* neu Atodlen IHT414, *'Rhyddhad Amaethyddol'* fel y bo'n briodol.

## Asedion eraill a ystyriwyd wrth gyfrifo'r dreth, tudalen 11

99 a 100

Dylech gynnwys yn y blychau ar dudalen 11 yr holl asedion eraill sydd angen eu hystyried er mwyn cyfrifo'r Dreth Etifeddiant.

**Asedion a gedwir mewn ymddiriedolaeth y dymuna'r ymddiriedolwyr dalu treth arnynt nawr**
Gall ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth yr oedd gan yr ymadawedig hawl i elwa ohoni ddewis talu'r dreth ar yr ymddiriedolaeth honno'r un pryd ag y telir y dreth ar ystâd yr ymadawedig. Os mai dyna'r achos, nodwch ym mlychau 99 neu 100 gwerth yr asedion a gedwir yn yr ymddiriedolaeth, y

mae'r dreth ar ei chyfer yn cael ei thalu nawr.
Ewch i dudalen 15 y canllaw hwn i gael gwybodaeth am ymddiriedolaethau.

101 **Asedion enwebedig**
Os, yn ystod oes yr ymadawedig, gwnaeth yr ymadawedig 'enwebiad' yn nodi y dylai ased gael ei drosglwyddo i unigolyn arbennig, nodwch werth yr ased hwnnw, ar ôl didynnu eithriadau, ym mlwch 101. Yr unig asedion y gellir eu henwebu yn y modd hwn yw adneuon o hyd at £5,000 mewn cymdeithasau cyfeillgar a chymdeithasau diwydiannol a darbodus, neu dystysgrifau neu gyfrifon Cynilion Cenedlaethol cyn 1 Mawrth 1981.

Defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 ffurflen IHT400 i roi disgrifiad o'r asedion enwebedig ac enw'r unigolyn a fydd yn cael yr asedion ac unrhyw eithriadau a ddidynnir.

105 **Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn talu treth arnynt nawr**
Os yw'r ymddiriedolwyr yn mynd i dalu'r dreth sy'n ddyledus ar yr ymddiriedolaeth ar wahân, nodwch yma werth yr asedion a gedwir mewn ymddiriedolaeth. Dylid ychwanegu gwerth yr asedion yn yr ymddiriedolaeth at gyfanswm gwerth yr ystâd er mwyn cyfrifo cyfanswm y Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus, ond anfonir cyfrifiad treth ar wahân yn dangos y dreth sy'n ddyledus ar yr ymddiriedolaeth at yr ymddiriedolwyr.

Os nad oes Treth Etifeddiant i'w thalu, does dim angen i chi lenwi blychau 109 i 119 ar dudalen 12.

## Cyfrifo'r Dreth Etifeddiant, tudalen 12

109 **Cyfradd is y Dreth Etifeddiant**
Llenwch Atodlen IHT430, *'Reduced rate of Inheritance Tax'* os bu farw'r ymadawedig ar 6 Ebrill 2012, neu ar ôl hynny, a gadawyd o leiaf 10% o ystâd net yr unigolyn i elusen gymeradwy.

Dylech hefyd lenwi Atodlen IHT430 os ydych am gyfuno elfennau o'r ystâd neu optio allan o dalu cyfradd is y Dreth Etifeddiant. Rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan bob unigolyn priodol ar gyfer bob elfen o'r ystâd sydd am gyfuno elfennau o'r ystâd, a phob unigolyn priodol o elfennau sydd wedi'u heffeithio sydd am optio allan o dalu ar y gyfradd is.

Rhaid i chi anfon ffurflen IHT430 o fewn dwy flynedd o farwolaeth yr ymadawedig. Gellir tynnu'n ôl dewis i gyfuno elfennau o ystâd neu optio allan o gyfradd ostyngol y Dreth Etifeddiant drwy hysbysu CThEF yn ysgrifenedig o fewn dwy flynedd ac un mis o farwolaeth yr ymadawedig, a rhaid i'r hysbysiad gael ei lofnodi gan bob unigolyn priodol sydd wedi'u heffeithio.

Os ydych yn llenwi ffurflen IHT400 heb gymorth cyfreithiwr, rhywun arall sydd â thrwydded i ddarparu gwasanaethau profiant neu gynghorydd arall, does dim angen i chi gyfrifo'r dreth sy'n ddyledus eich hun, gallwn wneud hynny ar eich rhan. Ond mae angen i chi benderfynu p'un a ydych am dalu rhan o'r dreth drwy randaliadau, os oes unrhyw asedion yn yr ystâd a ddangosir yng ngholofn B ar dudalennau 7 ac 8.

Darllenwch yr wybodaeth ganlynol am dalu Treth Etifeddiant fesul rhandaliad ac yna atebwch gwestiwn 110.

## Talu Treth Etifeddiant fesul rhandaliad

**Beth a olygir gan dalu Treth Etifeddiant fesul rhandaliad?**
Gellir talu Treth Etifeddiant sy'n ddyledus ar asedion penodol fesul 10 rhandaliad blynyddol, hynny yw, un rhandaliad y flwyddyn am 10 mlynedd.

Fel arfer bydd llog yn daladwy ar bob rhandaliad.

**Ar ba fath o asedion y gallaf dalu fesul rhandaliad?**
Gallwch dalu fesul rhandaliad ar yr asedion canlynol sydd heb eu gwerthu:
- tir ac adeiladau
- cyfranddaliadau a gwarantau penodol
- gwerth net busnes neu fuddiant mewn busnes (ar ôl didynnu Rhyddhad Busnes)
- coed

Yr ased mwyaf cyffredin y gallwch dalu treth trwy randaliadau ar ei gyfer yw tŷ'r ymadawedig.

Mae'r ffurflen IHT400 yn rhestru'r asedion na ellir talu treth arnynt trwy randaliadau yng ngholofn A ar dudalennau 7 ac 8 ac asedion y gellir talu treth arnynt trwy randaliadau yng ngholofn B ar dudalennau 7 ac 8.

**A oes rhaid i mi dalu fesul rhandaliad ar asedion pan fo'n bosibl talu fesul rhandaliad?**
Nac oes. Gallwch ddewis talu'r dreth gyfan pan fyddwch yn cyflwyno'r ffurflen IHT400, os dymunwch.

Byddwn yn gofyn i chi a ydych am dalu fesul rhandaliad ym mlwch 110.

Rhennir rhai o'r atodlenni i asedion pan na ellir talu treth trwy randaliadau ac asedion y gellir talu treth arnynt trwy randaliadau. Byddwch wedyn wedi copïo'r ffigurau o'r atodlenni i'r golofn gywir ar ffurflen IHT400.

**Ar ba fath o gyfranddaliadau y gallaf dalu'r dreth trwy randaliadau?**
Gallwch dalu Treth Etifeddiant fesul rhandaliad ar gyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni os:
- gwnaethant roi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig ar adeg y trosglwyddiad
- ydynt heb eu rhestru, a gallwch ddangos na ellid talu'r Dreth Etifeddiant ar eu gwerth mewn un swm heb achosi caledi gormodol, neu fod o leiaf 20% o'r dreth y mae'r un unigolyn yn agored i'w thalu, yn rhinwedd yr un swydd, ar asedion (gan gynnwys y cyfranddaliadau dan sylw) yn gymwys i'w thalu trwy randaliadau
- ydynt yn gyfranddaliadau nas rhestrwyd ac mae eu gwerth yn fwy nag £20,000 ac mae'r cyfranddaliadau yn cynrychioli o leiaf 10% o werth nominal cyfranddaliadau'r cwmni

Dangosir y cyfranddaliadau hyn ym mlychau 66 a 67 ar yr IHT400, nid blychau 62, 63 neu 65.

## Rhandaliadau sy'n rhydd o log

Fel arfer mae llog yn daladwy ar randaliadau Treth Etifeddiant, ond mae ychydig o asedion sy'n gymwys am Ryddhad Llog. Maent yn:
- eiddo amaethyddol sy'n gymwys am ryddhad amaethyddol
- cyfranddaliadau a gwarantau (ar wahân i gwmnïau buddsoddiadau)
- busnesau neu fuddiannau mewn busnesau, a
- coetiroedd - pan godir Treth Etifeddiant wrth eu gwaredu

Mae pob rhandaliad Treth Etifeddiant ar yr asedion hyn yn ddi-log os caiff ei dalu cyn y dyddiad dyledus. Os caiff ei dalu ar ôl y dyddiad dyledus, codir llog o'r dyddiad dyledus tan y dyddiad y caiff ei dalu.

## Rhandaliadau treth 110

Os nad ydych am gyfrifo'r dreth eich hun, nodwch ym mlwch 110 gyfanswm gwerth yr asedion a ddangosir yng ngholofn B ar dudalennau 7 ac 8 yr IHT400 sydd heb eu gwerthu ac rydych am dalu'r dreth arnynt trwy

randaliadau. Os nad oes asedion yr ydych am dalu'r dreth fesul rhandaliad, nodwch '0' ym mlwch 110, nesaf at yr arwydd '£'. Os ydych yn cyfrifo'r dreth eich hun, gofynnir i chi ar ffurflen IHT400 Cyfrifiad ar ba asedion rydych yn talu treth fesul rhandaliad.

## Cyfrifiad Treth Etifeddiant syml

111 i 119

Os yw'r ystâd yn un syml ac rydych am dalu'r holl dreth nawr, efallai y gallech ddefnyddio tudalen 12 ar ffurflen IHT400 i gyfrifo'r dreth. Darllenwch y paragraff uwchben blwch 111 i weld os yw'r cyfrifiad syml yn addas i chi. Os nad yw'r cyfrifiad syml yn addas i chi, ewch i'r ffurflen IHT400, *'Cyfrifiad'* i gyfrifo'r dreth nawr, ac yna parhewch i lenwi'r ffurflen hon o flwch 120.

## Cynllun Taliadau Uniongyrchol

120

Mae Cynllun Taliadau Uniongyrchol ar gael ar gyfer cyfrifon banc, cymdeithasau adeiladu, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I), broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi.

O dan y Cynllun Taliadau Uniongyrchol bydd banciau, cymdeithasau adeiladu, NS&I, broceriaid, cwmnïau buddsoddi'n rhyddhau arian o gyfrifon yr ymadawedig yn uniongyrchol i CThEF er mwyn talu Treth Etifeddiant.

Mae'n rhaid i'r cyfrifon dan sylw fod yn enw'r ymadawedig yn unig, felly ni allwch ddefnyddio cyfrifon ar y cyd ar gyfer y dull hwn o dalu.

Mae nifer o fanciau, cymdeithasau adeiladu, broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi'n rhan o'r cynllun hwn, ond dylech wirio â'r sefydliad(au) a oedd yn dal arian yr ymadawedig cyn mynd ymhellach.

Os ydych am ddefnyddio'r cynllun hwn, dylech wneud eich hun yn hysbys i'r sefydliad perthnasol yr ydych yn bwriadu rhoi cyfarwyddiau iddynt i drosglwyddo arian a phrofi iddynt eich bod yn gynrychiolydd personol priodol.

Dylech gysylltu â phob sefydliad i ganfod beth yw eu gofynion er mwyn i chi wneud hyn. Argymhellwn eich bod yn gwneud hyn ymhell o flaen llaw cyn eich bod yn bwriadu gwneud cais am grant cynrychiolaeth er mwyn osgoi unrhyw oedi'n hwyrach.

Dylech lenwi Atodlen IHT423 y Cynllun Taliadau Uniongyrchol ar gyfer pob sefydliad fydd yn trosglwyddo arian. Ni ddylai'r swm i'w drosglwyddo ar Atodlen IHT423 fod yn fwy na chyfanswm y rhwymedigaeth IHT.

Dylech hefyd ddefnyddio Atodlen IHT423 i ofyn i froceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi werthu'r cyfan neu ran o'r asedion yng nghyfrif yr ymadawedig a gofyn eu bod yn trosglwyddo'r arian i ni er mwyn talu'r IHT sy'n ddyledus. Ni fyddant yn gwneud unrhyw daliadau i ystâd yr ymadawedig hyd nes eu bod yn cael y grant profiant gwreiddiol.

Bydd pob sefydliad yn cynnal asesiad risg ei hun, ac fel arfer yn gofyn am y dystysgrif farwolaeth wreiddiol ac unrhyw ddogfennau ychwanegol cyn trosglwyddo arian i ni er mwyn talu IHT.

Dylech anfon yr atodlen IHT423 (neu fwy nag un os yw'n berthnasol) gyflawn yn uniongyrchol at y sefydliadau a fydd yn gwneud y trosglwyddiadau ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon ffurflen IHT400 i:

Treth Etifeddiant, Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF, BX9 1ST.

Bydd y sefydliad(au) yn trosglwyddo'r arian atom. Byddant yn gallu rhoi gwybod i chi faint o amser y dylai gymryd iddynt wneud y trosglwyddiad. Ar ôl i ni gael ein hysbysu o'r taliad, byddwn yn cysylltu'r taliad â'ch ffurflen IHT400.

Os ydych wedi gordalu IHT, byddwn yn dychwelyd yr arian at y sefydliad a gyflwynodd yr arian o gyfrif yr ymadawedig. Ni fyddwn yn anfon yr ad-daliad i'r ystâd hyd nes bod grant wedi ei gael.

## Datganiad, tudalen 13

121 Rhaid i'r holl bobl a enwir ar y grant fel ysgutorion neu weinyddwyr ddarllen y datganiadau a'r rhybuddion ar dudalen 13 yr IHT400 yn ofalus.

Ticiwch y blychau i ddweud pa fath o grant rydych yn gwneud cais ar ei gyfer a pha Atodlenni rydych yn eu cynnwys.

### Amcangyfrifon dros dro

Rhestrwch unrhyw werthoedd dros dro rydych wedi'u cynnwys ar y ffurflen.

Os ydych wedi cynnwys amcangyfrifon dros dro ar ffurflen IHT400 neu ar unrhyw un o'r Atodlenni, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r ffigurau terfynol i ni cyn gynted ag y byddwch yn gwybod.

### Llofnodion

Dylai pob unigolyn roi ei enw llawn a'i gyfeiriad, llofnodi a dyddio'r ffurflen yn y mannau priodol a ddarparwyd ar dudalen 14 yr IHT400.

Trwy lofnodi'r ffurflen, mae pob unigolyn yn cadarnhau ei fod wedi darllen y datganiad a'r rhybuddion a'i fod yn cytuno bod yr wybodaeth a roddir ar ffurflen IHT400, yr Atodlenni ac unrhyw bapurau ategol eraill yn gywir.

Bydd CThEF yn derbyn ffurflenni IHT400 nad ydynt wedi'u llofnodi â llaw gan asiantau proffesiynol a threthdalwyr sydd heb rywun i'w cynrychioli.

Byddwn yn derbyn y ffurflenni oddi wrth asiantau proffesiynol os yw'r canlynol yn wir:

- mae enwau a manylion personol y cynrychiolwyr personol cyfreithiol yn ymddangos ar dudalen y datganiad
- mae'r cyfrif wedi'i weld gan bob cynrychiolydd personol cyfreithiol a'u bod i gyd yn cytuno i gael eu rhwymo gan y datganiad

Mae'n rhaid i'r asiant gynnwys y datganiad canlynol:

"Fel yr asiant sy'n gweithredu ar eu rhan, rwy'n cadarnhau bod yr holl bobl, y mae eu henwau'n ymddangos ar dudalen datganiad y cyfrif Treth Etifeddiant hwn, wedi gweld y cyfrif Treth Etifeddiant ac wedi cytuno i gael eu rhwymo gan y datganiad ar dudalen 14 yr IHT400".

Byddwn yn derbyn y ffurflenni oddi wrth ysgutorion neu weinyddwyr sy'n gweithredu heb help asiant proffesiynol os yw'r canlynol yn wir:

- mae enwau a manylion personol unrhyw ysgutorion neu weinyddwyr eraill yn ymddangos ar dudalen y datganiad
- mae'r cyfrif wedi'i weld gan bob ysgutor neu weinyddwr a'u bod i gyd yn cytuno i gael eu rhwymo gan y datganiad

Pan fo mwy nag un person yn gweithredu ar ran yr ystâd, mae'n rhaid i chi gynnwys y datganiad canlynol:

"Fel y cynrychiolydd personol cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran yr ystâd, rwy'n cadarnhau bod yr holl bobl, y mae eu henwau'n ymddangos ar dudalen datganiad y cyfrif Treth Etifeddiant hwn, wedi gweld y cyfrif Treth Etifeddiant ac wedi cytuno i gael eu rhwymo gan y datganiad ar dudalen 14 yr IHT400."

### Newidiadau i'r ystâd

Os yw gwerth unrhyw ased neu ddyled yn newid, rhaid i chi roi gwybod i ni. Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch ein cyfeirnod os yn bosib, fel arall rhowch enw llawn yr ymadawedig a'r dyddiad y bu farw. Dim ond am newidiadau sy'n effeithio ar y dreth sy'n daladwy y mae angen i chi

sôn wrthym. Os yw'r ystâd wedi'i heithrio oherwydd ei bod yn cael ei throsglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig, bydd ond angen i chi roi gwybod i ni am newidiadau sy'n golygu bod Treth Etifeddiant yn daladwy.

# Yr hyn i'w wneud ar ôl i chi lenwi ffurflen IHT400

## Gwneud cais am grant yng Ngogledd Iwerddon

Os ydych yn gwneud cais am grant yng Ngogledd Iwerddon, llenwch ffurflen IHT421, 'Crynodeb o'r Profiant'. Mae'n rhoi gwybod i'r Swyddfa Gofrestru pa werthoedd rydych wedi'u cynnwys ar ffurflen IHT400. Mae angen yr wybodaeth hon ar y Swyddfa Gofrestru cyn y gallant roi grant. Llenwch Atodlen IHT421 ar ôl llenwi a llofnodi ffurflen IHT400.

Efallai y bydd Treth Etifeddiant yn daladwy cyn bod modd rhyddhau'r IHT421 a chyn bod modd i chi gael y grant. Os felly, byddwn yn anfon cod unigryw atoch ar gyfer eich cais am grant. Ni allwch lenwi na chyflwyno'ch cais am grant hyd nes eich bod wedi cael llythyr gyda chod unigryw. Mae rhagor o wybodaeth am faint o Dreth Etifeddiant sy'n rhaid ei thalu ar dudalennau 7 a 43 y canllaw hwn.

## Gwneud cais am grant yng Nghymru a Lloegr

Os ydych yn gwneud cais am grant yng Nghymru, ewch i www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant/gwneud-cais-am-brofiant a dilyn y cyfarwyddiadau. Os ydych yn gwneud cais yn Lloegr, ewch i www.gov.uk/applying-for-probate/apply-for-probate a dilyn y cyfarwyddiadau. Gall Treth Etifeddiant fod yn daladwy cyn y gallwch gael y grant. Mae rhagor o wybodaeth am faint o Dreth Etifeddiant sy'n rhaid ei thalu ar dudalennau 7 a 43 y canllaw hwn.

## Ffurflen C1, *'Stocrestr'* – Yr Alban

Os ydych yn gwneud cais am grant Cadarnhad yn yr Alban, llenwch ffurflen C1, *'Stocrestr'.* Mae angen y ffurflen ar Lys y Siryf cyn y gallant roi grant.

Efallai y bydd Treth Etifeddiant yn daladwy cyn bod modd rhyddhau ffurflen C1 a chyn bod modd i chi gael cadarnhad. Os felly, byddwn yn anfon cod cadarnhau atoch ar gyfer eich cais am grant.

Ni allwch lenwi na chyflwyno'ch cais am grant hyd nes eich bod wedi cael llythyr gyda chod cadarnhau. Mae rhagor o wybodaeth am faint o Dreth Etifeddiant sy'n rhaid ei thalu ar dudalennau 7 a 43 y canllaw hwn.

## Pan fyddwch wedi llenwi a llofnodi'r holl ffurflenni

Pan fyddwch wedi llenwi a llofnodi ffurflen IHT400 ac wedi llenwi unrhyw Atodlenni, neu ffurflen C1, defnyddiwch y rhestr wirio ar dudalen 16 yr IHT400 er mwyn gwneud yn siŵr bod gennych yr holl bapurau sydd eu hangen i'w hanfon atom. Yna dilynwch y nodiadau sy'n gymwys i chi ar dudalennau 60 i 64 y canllaw hwn.

## Ble i anfon y ffurflenni

Fel arfer, bydd angen i chi anfon ffurflen IHT400 a'r atodlenni atom cyn i chi allu gwneud cais am y grant. Dylech anfon y papurau i:

Cyllid a Thollau EF
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST.

Os ydych wedi llenwi C1 'Stocrestr' (yr Alban), anfonwch gopi o'r ffurflen hon atom gan gadw'r gwreiddiol i'w hanfon i Lys Siryf.

## Beth os byddaf am i chi gyfrifo'r dreth ar fy rhan?

Mae gweithdrefnau gwahanol yn bodoli yn dibynnu a ydych yn gwneud cais am grant yng Nghymru, Lloegr Gogledd Iwerddon neu'r Alban. Dilynwch y camau sy'n gymwys i chi ar dudalennau 62, 63 neu 64 y canllaw hwn.

## Beth sy'n digwydd pan rwyf yn cael grant?

Pan fyddwch wedi cael y grant, nid yw'n golygu eich bod wedi talu'r holl Dreth Etifeddiant a'r llog ar yr ystâd. Os byddwch yn anfon y ffurflen atom cyn cael y grant byddwn yn edrych ar y manylion a roesoch. Os na fydd gwallau amlwg byddwn yn derbyn mai'r dreth rydych wedi'i nodi yw'r hyn sy'n ddyledus.

## Gallai'r Dreth Etifeddiant ar yr ystâd newid

Ar ôl i ni ddychwelyd eich gwerthoedd profiant a'ch cod unigryw (Cymru a Lloegr), Atodlen 'Crynodeb profiant' IHT421 (Gogledd Iwerddon), neu'ch ffurflen 'Rhestren' C1 (yr Alban), byddwn yn edrych yn fanylach ar ffurflen IHT400. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn cwestiynau i chi i'n helpu i ddeall yr hyn yr ydych wedi'i nodi ar y ffurflen ac ar unrhyw atodlenni.

Gallwn drafod gwerth unrhyw asedion yn yr ystâd a holi p'un a ddidynnwyd dyledion yn gywir. Byddwn yn edrych yn ofalus ar unrhyw ddidyniadau ar gyfer rhyddhad ac eithriadau a wnaed gennych.

Gallwn hefyd anfon datganiadau atoch i ddangos y dreth a'r llog y mae'n rhaid i chi eu talu, yn arbennig os ydych wedi sôn eich bod am dalu rhan o'r dreth mewn rhandaliadau.

## Amcangyfrifon dros dro

Os ydych wedi cynnwys amcangyfrifon dros dro ar ffurflen IHT400 neu ar unrhyw un o'r Atodlenni, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r ffigurau terfynol i ni cyn gynted ag y byddwch yn gwybod

## Rhwymedigaethau

Os ydych wedi cynnwys rhwymedigaeth nad yw mewn gwirionedd wedi'i had-dalu o'r ystâd, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i CThEF y dylid gwrthod y rhwymedigaeth fel didyniad o'r ystâd.

## Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am newiddau eraill i'r ystâd

Rhaid i chi roi gwybod i ni os bydd gwerth unrhyw asedion neu ddyledion yn newid ac o ganlyniad mae swm y Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus yn newid. Gallwch ein helpu drwy roi ein cyfeirnod os yw'n hysbys. Fel arall rhowch enw llawn a dyddiad marwolaeth yr ymadawedig.

## Gwneud cais am grant yng Nghymru a Lloegr – os ydych yn drethdalwr, cyfreithiwr neu rywun arall sydd â thrwydded i ddarparu gwasanaethau profiant

Gwneud cais am grant yng Nghymru a Lloegr - os ydych yn drethdalwr, cyfreithiwr neu rywun arall sydd â thrwydded i ddarparu gwasanaethau profiant, bydd angen cyfeirnod Treth Etifeddiant arnoch (ewch i dudalen 10). Os ydych am ddefnyddio Cynllun Taliadau Uniongyrchol (DPS) Treth Etifeddiant, dylech ganfod a yw banc a/neu gymdeithas adeiladu, NS&I, broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi'r ymadawedig yn rhan o'r cynllun hwn ac os felly, dylech sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'u gofynion.

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant/gwneud-cais-am-brofiant

Gadawyd yn wag yn fwriadol

## Gwneud cais am grant yn yr Alban – os ydych yn drethdalwr neu'n gyfreithiwr sy'n cyfrifo'r dreth

Bydd angen cyfeirnod Treth Etifeddiant arnoch (ewch i dudalen 10). Os ydych am ddefnyddio Cynllun Talu Uniongyrchol (DPS) Treth Etifeddiant, dylech ganfod a yw banc a/neu gymdeithas adeiladu, NS&I, broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi'r ymadawedig yn rhan o'r cynllun hwn ac os felly, dylech sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'u gofynion.
Dilynwch y cyfarwyddiadau yn www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant/gwneud-cais-am-brofiant

Gadawyd yn wag yn fwriadol

## Gwneud cais am grant yng Ngogledd Iwerddon – os ydych yn drethdalwr neu'n gyfreithiwr sy'n cyfrifo'r dreth

Bydd angen cyfeirnod Treth Etifeddiant arnoch (ewch i dudalen 10). Os ydych am ddefnyddio Cynllun Talu Uniongyrchol (DPS) Treth Etifeddiant, dylech ganfod a yw banc a/neu gymdeithas adeiladu, NS&I, broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi'r ymadawedig yn rhan o'r cynllun hwn ac os felly, dylech sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'u gofynion.
I gael arweiniad pellach, ewch i www.nidirect.gov.uk/articles/probate

**Cyfrifwch unrhyw dreth sy'n daladwy**

**Unigolyn**

Anfonwch ffurflen IHT400, yr holl atodlenni a lenwyd gennych (gan gynnwys Atodlen IHT421), ac unrhyw ddogfen rydym wedi gofyn amdani, i: Cyllid a Thollau EF, Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF, HMRC, BX9 1ST. Os oes unrhyw dreth i'w thalu, darllenwch dudalen 65 y canllaw hwn.

Os yw popeth mewn trefn, byddwn yn llenwi'n rhan ni o Atodlen IHT421 a'i hanfon yn ôl atoch.

I wneud cais am Brofiant dilynwch y cyfarwyddiadau yn www.nidirect.gov.uk/articles/probate

**Cyfreithiwr**

Anfonwch ffurflen IHT400, yr holl atodlenni a lenwyd gennych (gan gynnwys Atodlen IHT421), ac unrhyw ddogfen rydym wedi gofyn amdani, i: Cyllid a Thollau EF, Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF, HMRC, BX9 1ST. Os oes unrhyw dreth i'w thalu, darllenwch dudalen 65 y canllaw hwn.

Os yw popeth mewn trefn, byddwn yn llenwi'n rhan ni o Atodlen IHT421 a'i hanfon yn ôl atoch.

I wneud cais am Brofiant dilynwch y cyfarwyddiadau yn www.nidirect.gov.uk/articles/probate

Os yw popeth mewn trefn, bydd y Swyddfa Brofiant yn anfon y grant atoch. Gallwch ddechrau delio â'r ystâd drwy gasglu'r asedion a thalu dyledion.

## Gwneud cais am grant yng Nghymru a Lloegr – heb gymorth cyfreithiwr neu rywun arall sydd â thrwydded i ddarparu gwasanaethau profiant, ac rydych am i ni gyfrifo'r dreth ar eich rhan

Os ydych yn defnyddio Cynllun Taliadau Uniongyrchol (DPS) Treth Etifeddiant, dylech ganfod a yw banc a/neu gymdeithas adeiladu, NS&I, broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi'r ymadawedig yn rhan o'r cynllun hwn ac os felly, dylech sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'u gofynion.

Dilynwch y cyfarwyddiadau yn www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant/gwneud-cais-am-brofiant

Gadawyd yn wag yn fwriadol

## Gwneud cais am grant yn yr Alban – heb gymorth cyfreithiwr, ac rydych am i ni gyfrifo'r dreth ar eich rhan

Os yw'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol (DPS) Treth Etifeddiant yn cael ei ddefnyddio, dylech ganfod a yw banc a/neu gymdeithas adeiladu, NS&I, broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi'r ymadawedig yn rhan o'r cynllun hwn ac os felly, dylech sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'u gofynion.

Dilynwch y cyfarwyddiadau yn www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant/gwneud-cais-am-brofiant

Gadawyd yn wag yn fwriadol

## Gwneud cais am grant yng Ngogledd Iwerddon – heb gymorth cyfreithiwr, ac rydych am i ni gyfrifo'r dreth ar eich rhan

Os ydych yn defnyddio Cynllun Taliadau Uniongyrchol (DPS) Treth Etifeddiant, dylech ganfod a yw banc a/neu gymdeithas adeiladu, NS&I, broceriaid a chwmnïau rheoli buddsoddi'r ymadawedig yn rhan o'r cynllun hwn ac os felly, dylech sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'u gofynion.
I gael arweiniad pellach, ewch i www.nidirect.gov.uk/articles/probate

Llenwch ffurflen IHT400 ac Atodlen IHT421 (os ydych chi'n defnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol darllenwch y nodiadau ar y Cynllun ar dudalen 56 y canllaw hwn).

Os ydych yn defnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol peidiwch â llenwi'r rhannau o Atodlen IHT423 sy'n cyfeirio at gyfeirnod Treth Etifeddiant CThEF a swm yr arian i'w drosglwyddo ar hyn o bryd.

Anfonwch ffurflen IHT400, yr holl atodlenni a lenwyd gennych (gan gynnwys Atodlen IHT421) ac unrhyw ddogfen rydym wedi gofyn amdani i: Cyllid a Thollau EF, Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF, HMRC, BX9 1ST. (Os ydych yn defnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol daliwch eich gafael yn Atodlen IHT423.)

**Os oes treth i'w thalu.**

Byddwn yn anfon cyfrifiad atoch i ddangos y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu.

Os defnyddiwch y cynllun taliadau uniongyrchol, nodwch gyfeirnod Treth Etifeddiant CThEF a'r swm i'w drosglwyddo ar Atodlen IHT423 ac anfonwch y ffurflen i'r banc, cymdeithas adeiladu, NS&I, y broceriaid a'r cwmnïau rheoli buddsoddi.

Os nad ydych yn defnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol neu os nad yw'r arian sy'n cael ei drosglwyddo yn ddigon i dalu'r holl dreth, anfonwch y taliad am y gweddill atom i'r cyfeiriad ar dudalen 65 y canllaw hwn.

Pan fyddwn wedi cael taliad/hysbysiad o daliad gan y banc.

**Os nad oes treth i'w thalu.**

Byddwn yn llenwi ein rhan ni o Atodlen IHT421 ac yn ei hanfon yn ôl yn syth atoch chi.

I wneud cais am Brofiant dilynwch y cyfarwyddiadau yn www.nidirect.gov.uk/articles/probate

Y Swyddfa Brofiant fydd yn anfon y grant.

# Talu Treth Etifeddiant

## Talu ymlaen llaw

Gallwch dalu'r dreth sy'n ddyledus naill ai trwy:
- trosglwyddiad electronig
- Taliadau Cyflymach
- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt

Os credwch y bydd mwy o dreth yn daladwy, gallwch dalu ar gyfrif. Os gwnewch hynny, ni fyddwn yn codi llog arnoch ar gyfer y swm a dalwyd gennych o'r dyddiad y byddwn yn ei gael. Rhaid i chi roi'r cyfeirnod IHT pan fyddwch yn talu. Ewch i dudalen 1 ffurflen IHT400 i gael gwybodaeth am gyfeirnodau Treth Etifeddiant. Os talwch ormod ar gyfrif, byddwn yn talu llog i chi ar y gyfradd gyfredol pan fyddwn yn dychwelyd yr arian i chi. Gallwch ddod o hyd i'r gyfradd gyfredol ar gyfer llog drwy fynd i www.gov.uk a chwilio am *'Inheritance Tax interest rates'.*

## Trosglwyddiad electronig (CHAPS/Bacs)

Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am dalu CThEF, ewch i www.gov.uk a chwilio am *'Paying HMRC'*

Cysylltwch â'ch banc i ddarganfod sut i dalu trwy drosglwyddiad electronig. Bydd angen i chi roi manylion eich cyfrif banc.

Cewch y cyfarwyddiadau ar gyfer talu drwy drosglwyddiad electronig yn www.gov.uk/talu-treth-etifeddiant/banc-neu-gymdeithas-adeiladu

Rhowch enw llawn yr ymadawedig, dyddiad y farwolaeth a'r cyfeirnod Treth Etifeddiant.

## Cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol

Gallwch dalu'r dreth a'r llog sydd angen ei dalu yn llawn neu'n rhannol cyn y gallwch wneud cais am grant drwy ddefnyddio cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I) yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt. Mae NS&I yn rhan o'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol erbyn hyn, a byddant yn rhyddhau arian o gyfrifon yr ymadawedig yn uniongyrchol i CThEF, a hynny er mwyn talu'r Dreth Etifeddiant.

Am fanylion llawn ynghylch sut i wneud taliad yn y modd hwn, ewch i www.gov.uk/talu-treth-etifeddiant

## Grant ar Gredyd

Mae'n bosibl y bydd angen Grant profiant er mwyn cael mynediad at asedion yn ystâd yr ymadawedig ac, mewn rhai achosion, gall hyn ei wneud hi'n anodd i godi'r arian i dalu Treth Etifeddiant. Os na allwch ryddhau arian o'r ystâd, gallwch wneud cais am 'Grant ar Gredyd'.

I wneud cais am 'Grant ar Gredyd', bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:

Ysgrifennu atom gan ddarparu datganiad sy'n cadarnhau na allwch ryddhau arian o'r ystâd drwy'r dulliau a restrir yn www.gov.uk/talu-treth-etifeddiant

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yr uchafswm y gallwch ei dalu tuag at y Dreth Etifeddiant cyn cael y Grant. Os byddwn yn caniatáu'r Grant ar Gredyd, bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni pa gamau sydd ar y gweill i godi arian i dalu'r dreth. Dylai hyn fod drwy'r opsiwn cyflymaf sydd ar gael.

I wneud cais am Grant ar Gredyd, bydd angen i chi ysgrifennu atom.

Treth Etifeddiant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

Nodwch 'Grant ar Gredyd / Grant on Credit' a'ch cyfeirnod Treth Etifeddiant ar frig y llythyr. Hyd yn oed os byddwn yn caniatáu Grant ar Gredyd, bydd disgwyl i chi dalu

cymaint o'r Dreth Etifeddiant ag y gallwch cyn cael y Grant.

Os byddwn yn cytuno i roi Grant ar Gredyd, byddwn yn gofyn i chi lofnodi ymrwymiad. Dyma addewid sy'n gyfreithiol rwymol i dalu'r Dreth Etifeddiant o fewn amserlen y cytunwyd arni. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

Os bydd y dreth yn cael ei thalu ar ôl i eiddo gael ei werthu, mae'n rhaid i gynnig fod wedi'i dderbyn ac amcan o'r dyddiad y bydd y contractau'n cael eu cyfnewid. Ni allwn roi ymrwymiad pen agored heb ddyddiad sy'n nodi'n glir pan fydd y dreth yn cael ei thalu.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn codi 'Hysbysiad o Dâl Treth Etifeddiant' o'r Gofrestrfa Tir yn erbyn unrhyw dir neu eiddo yn yr ystâd. Hysbysiad yw nodyn yn erbyn teitl cofrestredig yr eiddo. Nid yw'n rhwystri gwerthiant o dir neu adeiladau, ond mae'n bosibl y gall prynwyr ofyn i'r hysbysiad gael ei dynnu cyn cwblhau'r pryniant.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am Grant ar Gredyd ar gyfer Treth Etifeddiant, ewch i www.gov.uk/guidance/applying-for-a-grant-on-credit-for-inheritance-tax

## Talu treth drwy drosglwyddo asedion yn lle arian

Rhaid i chi dalu'r dreth a'r llog sy'n ddyledus er mwyn cael grant neu Gadarnhad. Ond gallwch roi gwybod i ni (ar y pryd neu cyn pen 3 mis ar ôl hynny) eich bod am i ni gael asedion Treftadaeth Genedlaethol fel taliad o ychydig neu'r holl dreth a llog. Os byddwn yn eu derbyn, byddwn yn ad-dalu'r arian rydych wedi'i dalu, yn llawn neu'n rhannol, hyd at swm y dreth a'r llog y cytunwn a allai gael eu bodloni gan ein derbyniad o'r asedion hyn.

Gallwch roi gwybod i ni cyn i chi wneud cais am grant neu Gadarnhad eich bod yn bwriadu cynnig asedion fel taliad am dreth. Ond ni allwn eu derbyn tan ar ôl i'r grant neu'r grant Cadarnhad gael ei anfon.

I wneud cais, a fyddwch cystal â chynnwys llythyr eglurhaol gyda'r ffurflen IHT400 neu ysgrifennu atom cyn pen 3 mis o anfon y grant neu'r Cadarnhad.

Os ydych yn cynnig ased fel taliad am dreth, efallai yr hoffech hefyd hawlio Eithriad Amodol ar gyfer yr ased. Ewch i dudalen 40 y canllaw hwn am fanylion o sut i hawlio Eithriad Amodol.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch y Llinell Gymorth ar 0300 200 1900.

## Beth fydd yn digwydd os caiff cyfranddaliadau a restrwyd neu dir ac adeiladau'n cael eu gwerthu am lai na'u gwerth?

Os gwerthir cyfranddaliadau a restrir ar y gyfnewidfa stoc o fewn un flwyddyn o ddyddiad y farwolaeth, neu gwerthir tir ac adeiladau o fewn 4 blynedd o ddyddiad y farwolaeth am lai na'r gwerth a gynhwyswyd ar ffurflen IHT400, efallai y gallwn ostwng y Dreth Etifeddiant. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os yw hyn yn gymwys i chi a byddwn yn rhoi gwybod i chi'r hyn sydd angen i chi ei wneud.

# Sut i brisio'r asedion - at ddibenion Treth Etifeddiant defnyddiwch werth marchnad agored

## Pa werth i'w ddefnyddio?

Y gwerth ar y farchnad agored yw'r pris y gellid disgwyl yn rhesymol i'r ased ei sicrhau pe bai'n cael ei werthu ar y farchnad agored ar adeg y trosglwyddiad. Mae hwn yn cynrychioli pris gwerthu realistig yr ased, nid ei werth ar gyfer yswirio neu ei amnewid.

Dylech allu prisio rhai o asedau'r ystâd yn eithaf hawdd, er enghraifft, arian mewn cyfrifon banc neu stociau a chyfranddaliadau. Mewn achosion eraill efallai y bydd angen cymorth prisiwr proffesiynol arnoch. Os penderfynwch gyflogi prisiwr, dylech sicrhau eich bod yn gofyn iddynt roi pris 'marchnad agored' ar gyfer yr ased.

## Amcangyfrif gwerth

Os na wyddoch union swm neu werth unrhyw eitem fechan, er enghraifft ad-daliad Treth Incwm neu fil ar gyfer y tŷ, peidiwch ag oedi rhag gwneud cais am grant na grant Cadarnhad dim ond oherwydd nad ydych yn gwybod yr union ffigurau. Gallwch ddefnyddio amcangyfrif.

Peidiwch â dyfalu ynghylch y gwerth, ond ceisiwch roi amcan gyfrif ar sail yr wybodaeth sydd gennych.

Os ydych yn cynnwys amcangyfrif, bydd yn rhaid i chi restru'r atodlenni sy'n cynnwys amcangyfrifon dros dro ar dudalen 13 ffurflen IHT400.

## Stociau a chyfranddaliadau

**Sut i brisio stociau a chyfranddaliadau**

Does dim rhaid i chi gael prisiad proffesiynol ar gyfer stociau a chyfranddaliadau a restrwyd. Gallwch brisio cyfranddaliadau a restrwyd ar Gyfnewidfa Stoc Llundain trwy ganfod pris y cyfranddaliadau yn nhudalennau ariannol papurau newydd.

Yn gyntaf rhestrwch yr holl gyfranddaliadau, gan gynnwys yr enw, gwerth nominal a'r math o gyfranddaliadau - er enghraifft, 'Cwm Ni Ccc cyfranddaliadau cyffredin 10c'. Yna, os ydych yn defnyddio papur newydd, chwiliwch am y cwmni a nodwch y pris a roddir am bob cyfranddaliad. I ddod o hyd i werth y cyfranddaliadau, lluoswch nifer y cyfranddaliadau gyda'r pris a roddir yn y papur. Felly, os oedd 1,250 o gyfranddaliadau gan yr ymadawedig ac roedd y pris yn 1093.5c, bydd gwrth y cyfranddaliadau yn £13,668.75.

Weithiau, gall papurau ddangos 2 bris ar gyfer ymddiriedolaethau unedol. Cymerwch y pris isaf.

Nodwch werth y cyfranddaliadau ar y diwrnod y bu farw'r ymadawedig - cofiwch y bydd papur newydd a argraffwyd ar y diwrnod y bu farw'r ymadawedig yn dangos prisiau'r cyfranddaliadau ar gyfer y diwrnod cynt.

**Y pris 'chwarter i fyny'**

Os ydych yn defnyddio gwasanaeth prisio, byddant yn rhoi gwybod i chi beth oedd y pris ar ddiwedd y dydd ar gyfer pob cyfranddaliad. Bydd y pris yn ymddangos ar ffurf amrediad er enghraifft 1091 i 1101c. I gyfrifo gwerth y cyfranddaliadau, bydd angen i chi gyfrifo'r pris 'chwarter i fyny'. Dyma'r pris isaf plws un chwarter y gwahaniaeth rhwng y ddau bris. Felly, yn yr enghraifft hon, byddai'r pris yn 1091c plws un chwarter 10c, neu 2.5c. Byddai'r pris ar gyfer y cyfranddaliadau yn 1093.5p.

### Beth mae 'XD' yn ei olygu

Os oedd difidend yn ddyledus pan fu farw'r ymadawedig, bydd y cyfranddaliadau wedi'u nodi â 'XD'. Mae nod o'r fath yn dangos y caiff y difidend ei dalu i ystâd yr ymadawedig, a bydd angen cynnwys gwerth yn yr ystâd.

I gyfrifo gwerth y difidendau, lluoswch nifer y cyfranddaliadau gyda'r difidend ar gyfer pob cyfranddaliad. Weithiau gellir dangos y difidend fel canran, er enghraifft 2.6%. Mewn achos o'r fath gallwch gyfrifo'r difidend trwy chwilio am ganran gwerth nominal y stoc. Felly os oedd yr ymadawedig yn berchen ar stoc benthyciad o £400, byddai'r difidend yn 2.6% o £400 neu £10.40.

### Bu farw'r ymadawedig ar ddiwrnod pan oedd y gyfnewidfa stoc ar gau

Os bu farw'r ymadawedig ar ddiwrnod pan oedd y Gyfnewidfa Stoc ar gau, cymerwch y pris am naill ai'r diwrnod nesaf neu'r diwrnod diwethaf yr oedd y Gyfnewidfa Stoc ar agor, p'un bynnag yw'r isaf. Er enghraifft, os bu farw'r unigolyn ar ddydd Sul gallwch nodi'r pris ar gyfer naill ai dydd Llun ar ôl neu'r dydd Gwener cynt. Gallwch ddewis p'un ai defnyddio'r pris ar gyfer dydd Llun neu ddydd Gwener ar gyfer pob cyfranddaliad unigol.

### Cyfranddaliadau mewn cwmni preifat nad ydynt wedi eu rhestru ar y Gyfnewidfa Stoc

Nodwch werth y cyfranddaliadau ar y farchnad agored ar gyfer cyfranddaliadau mewn cwmni preifat. Efallai y bydd angen i chi gysylltu ag ysgrifennydd neu gyfrifydd y cwmni i gael y gwerth hwn. Peidiwch â chynnwys gwerth nominal yn unig ar gyfer cyfranddaliadau o'r fath - er enghraifft, gwerth nominal mil o gyfranddaliadau cyffredin £1 yw £1,000 - oni bai ei fod yn adlewyrchu gwir werth y cyfranddaliadau ar y farchnad agored.

### Stoc Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Gallwch gael gwerth Stoc Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'ch banc neu'ch brocer neu o wefan Swyddfa Rheoli Dyledion y Deyrnas Unedig yn www.dmo.gov.uk

## Nodau'r Gyfnewidfa Stoc

Mae Rhestr Swyddogol Ddyddiol y Gyfnewidfa Stoc yn cynnwys nifer o nodau a allai effeithio ar werth y stociau a'r cyfranddaliadau. Mae rhai o'r nodau'n cynyddu gwerth y cyfranddaliadau. Dylech gynnwys unrhyw gynnydd yn y gwerth ym mlwch 63 ar ffurflen IHT400. Mae rhai nodau'n gostwng y gwerth a bydd angen i chi ddidynnu'r addasiad o'r gwerth y cynhwyswch ar gyfer y cyfranddaliadau. Mae eraill yn dangos roedd gan yr ymadawedig hawl i rai cyfranddaliadau newydd ar ddyddiad y farwolaeth. Mae esboniadau'r nodau fel a ganlyn:

- 'XD' *(ex-dividend)* - mae'r difidend sy'n ddyledus yn parhau'n daladwy i'r ymadawedig. Cynhwyswch werth net y difidend ar Atodlen IHT411
- 'IK' ('giltiau' plws llog) - mae'r llog sydd wedi cronni yn rhan o'r gwerth ar ddyddiad y farwolaeth. Cynhwyswch y llog net* a gronnodd o'r dyddiad y talwyd llog ddiwethaf hyd at ddyddiad y farwolaeth ar Atodlen IHT411
- IM' (gwarantau â llog sefydlog, stoc benthyciadau a dyledebion yn ogystal â llog) - mae hwn yr un peth ag 'IK', ond yn berthnasol i warantau o fath gwahanol. Cynhwyswch y llog net* a gronnodd o'r dyddiad y talwyd llog ddiwethaf hyd at ddyddiad y farwolaeth ar Atodlen IHT411

Nodwch y cyfanswm ar gyfer yr holl ddifidendau ym mlwch 64 ar ffurflen IHT400.

- 'IK ... X' ('giltiau' llai llog) - didynnir y llog sy'n ddyledus o ddyddiad y farwolaeth hyd at ddyddiad talu'r llog o'r gwerth ar ddyddiad y farwolaeth. Didynnwch y llog net*, a gronnodd o ddyddiad y farwolaeth i'r dyddiad y talwyd y llog, o werth y stoc. Os cafwyd taliad llog ar wahân, cynhwyswch swm net y taliad llog ar Atodlen IHT411
- 'IM ... X' (gwarantau â llog sefydlog, stoc benthyciadau a dyledebion llai'r llog) - mae hwn yr un peth ag 'IK ... X', ond sy'n berthnasol i fath gwahanol o warant. Didynnwch y llog net* a gronnodd o ddyddiad y farwolaeth i'r dyddiad y talwyd y llog o werth y stoc. Os cafwyd taliad llog ar wahân, cynhwyswch swm net y taliad llog ar Atodlen IHT411
- 'XC' (*ex-capitalisation*) - cynhwyswch y cyfranddaliadau newydd
- 'XC' (*ex-rights*) - ystyriwch werth y cyfranddaliadau neu'r hawliau newydd
- 'XC' (*ex-entitlement*) - cynhwyswch y cyfranddaliadau neu'r gwarantau newydd, os o gwbl

Os na wyddoch faint o gyfranddaliadau, hawliau neu warantau newydd i'w cynnwys, dylai cofrestrydd y cwmni fod yn gallu dweud wrthych. Cynhwyswch y cyfranddaliadau, hawliau neu warantau newydd gyda'r daliad newydd ym mlychau 63,65,66 a 67 ar ffurflen IHT400.

*net ar ôl didynnu treth incwm ar y gyfradd sylfaenol

## Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol

**Darganfod gwerth Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol**

Ysgrifennwch at Gynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol a gofynnwch am lythyr sy'n nodi:

- gwerth buddsoddiadau'r ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth
- Cyfeirnod Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol

Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol/National Savings and Investments<br>SUNDERLAND<br>SR43 2SB

Gallwch ffonio llinell ymholiadau cyffredinol Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol ar 0800 783 3368 neu gael copi o'r llyfryn a'r ffurflen hawliadau marwolaeth yn www.nsandi.com/downloads-and-forms

## Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol

Mae'r term 'nwyddau'r tŷ a nwyddau personol' yn golygu eitemau fel dodrefn, darluniau, paentiadau, tsieni, teledu, offer sain a fideo, camerâu, gemwaith, ceir, carafannau, cychod, hynafolion, casgliadau stampiau ac yn y blaen.

Does dim rhaid i chi gael prisiad proffesiynol ar gyfer nwyddau'r tŷ a nwyddau personol cyffredinol pan allwch ddefnyddio data sydd ar gael i'r cyhoedd i amcangyfrif y gwerth, er enghraifft er mwyn prisio ceir ail law. Os byddwch yn amcangyfrif y gwerth, bydd angen i chi ddefnyddio gwerth y farchnad agored ar ddyddiad y farwolaeth, nid gwerth ar gyfer yswirio neu amnewid. Gwerth y farchnad agored yw'r pris realistig y disgwylir gwerthu'r eitem amdano. Dyma'r pris y byddai'r eitem yn debygol o gael ei werthu amdani mewn ocsiwn neu drwy gael ei hysbysebu'n gyhoeddus. Rydym yn eich cynghori i gael prisiad proffesiynol os credwch fod eitem yn werth mwy na £1,500, neu os nad ydych yn siŵr.

Cofiwch roi gwybod i'r prisiwr mai prisiad y farchnad agored ar ddyddiad y farwolaeth sydd arnoch ei angen. Mae rhai gwobrau a roddir i'r ymadawedig am ddewrder, megis Croes Victoria, wedi'u heithrio rhag Treth Etifeddiant.

Gall prisio tir ac adeiladau fod yn gymhleth ac fe'ch cynghorir yn gryf i ddefnyddio prisiwr proffesiynol.

Os ydych yn didynnu Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar 100%, mae'n bosibl y byddwch am ymgynghori â phrisiwr i'ch helpu i ddidynnu'r swm cywir.

## Tir ac adeiladau

**Cyflwr yr eiddo**
Dylai'r prisiwr ddarparu gwerth y farchnad agored ar ddyddiad y farwolaeth a dylech ofyn iddynt i ystyried cyflwr atgyweirio'r eiddo (gallai hwn ostwng ei werth) yn ogystal ag unrhyw nodweddion a allai ei wneud yn atyniadol i adeiladwr neu ddatblygwr, er enghraifft gardd fawr, neu fynediad i dir arall sy'n addas ar gyfer ei ddatblygu (gallai hwn gynyddu ei werth). I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 0300 200 1900.

**Os oes ystod o werthoedd ar gyfer yr eiddo**
Os cewch nifer o brisiadau sy'n rhoi ystod o brisiadau ar gyfer yr eiddo, yn ôl pob tebyg, dylech gymryd gwerth sydd rywle rhwng y pris uchaf a'r pris isaf sydd gennych.

**Os canfyddaf fod yr eiddo yn werth mwy na fy amcangyfrif cychwynnol**
Os, ar ôl pennu eich ffigur a chyn gwneud cais am grant, rydych yn dod o hyd i wybodaeth arall sy'n bwrw amheuaeth ar eich amcangyfrif, rhaid i chi ei ailystyried. Er enghraifft, os ydych wedi amcangyfrif bod yr eiddo yn werth £250,000, ond pan rydych yn ceisio'i werthu rydych yn ei roi ar y farchnad am £270,000 ac yn cael rhai cynigion am y ffigur hwnnw neu'n uwch, mae'n awgrymu y gallai gwerth y farchnad agored ar gyfer yr eiddo fod yn fwy tebyg i £270,000. Yn yr amgylchiadau hyn argymhellwn eich bod yn gofyn i'r prisiwr i ystyried newid y prisiad gan gymryd i ystyriaeth i bethau megis yr amser ers y farwolaeth a symudiadau yn y farchnad eiddo.

**Tir ac adeiladau ar wahân i gartref yr ymadawedig**
Dylech gynnwys gwerth y farchnad agored ar gyfer unrhyw dir ac adeiladau yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt, er enghraifft:
- ffermydd
- eiddo busnes, er enghraifft, gwesty, siop, ffatri
- coed a choetiroedd
- tir ac adeiladau eraill, er enghraifft garejis cloi, tir afraid neu ddiffaith, chwareli, meysydd awyr
- hawliau eraill sydd ynghlwm wrth dir megis hawliau pysgota neu saethu

Argymhellir yn gryf eich bod yn cael cyngor proffesiynol os yw'r ystâd yn cynnwys y math hwn o dir oherwydd y gall fod yn anodd iawn ei brisio.

Os ydych yn didynnu Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar 100%, bydd dal angen i chi gynnwys gwerth a gall y rheolau fod yn gymhleth. Dim ond ar werth amaethyddol eiddo cymwys y mae Rhyddhad Amaethyddol yn gymwys, nid ei werth ar y farchnad agored, a gall prisiwr eich helpu gyda hyn.

Ysgrifennwch gyfeiriad neu leoliad yr eiddo yn y man a ddarperir ar Atodlen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir'.

**Prisio'r hawl i fyw yn y tŷ**
Mae'n gyffredin iawn i gwpl priod neu bartneriaid sifil i berchen eu tŷ ar y cyd. Fel arfer, maent yn berchen ar eu tŷ fel cyd denantiaid a phan fydd yr un cyntaf yn marw, bydd ei gyfran yn cael ei drosglwyddo'n awtomatig i'r un sy'n goroesi. Felly pan fydd yr un sy'n goroesi'n marw, bydd yr eiddo cyfan yn rhan o'i ystâd.

Fodd bynnag, os bydd cwpl priod neu bartneriaid sifil yn berchen ar eu tŷ fel tenantiaid cydradd, pan fo bob un yn berchen ar gyfran arbennig o'r eiddo, gall y cyntaf i farw ddweud yr hyn ddylai ddigwydd i'w gyfran o'r eiddo yn ei Ewyllys. Gallai'r Ewyllys ddweud rhywbeth tebyg i hyn:

'... tra bod fy ngŵr/gwraig/partner sifil yn parhau'n fyw ac yn dymuno preswylio yn yr eiddo ac yn ei gadw mewn cyflwr da a'i yswirio i'w werth llawn gydag yswirwyr a gymeradwywyd gan fy ymddiriedolwyr ac yn talu'r holl drethi, treuliau ac ati. Ni fydd fy ymddiriedolwyr yn gwrthwynebu iddo/iddi breswylio yn yr eiddo ac ni fyddant yn amharu neu gyfyngu arno mewn unrhyw fodd ac ni fyddant yn cymryd unrhyw gamau i orfodi'r ymddiriedolaeth i'w werthu neu sylweddoli (gwerthu) unrhyw gyfran ohono neu godi unrhyw rent neu elw o'r eiddo ...'

Pan fydd y goroeswr yn marw, bydd yr eiddo'n cael ei drosglwyddo i rywun arall, fel arfer plentyn. Felly, mae'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi yn parhau i fyw yn y tŷ, gan berchen hanner ohono yn ei enw ei hun ac yn meddiannu'r hanner arall o dan ddiogelwch yr Ewyllys.

Er nad yw'r Ewyllys yn sôn am adael yr eiddo mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y gŵr/gwraig/partner sifil am oes, mae wedi'i geirio fel ei bod yn cael yr un effaith at ddibenion Treth Etifeddiant.

Os ydych yn delio ag ystâd yr unigolyn a oroesodd ac mae'r unigolyn yn meddiannu'r cartref priodasol neu bartneriaeth sifil (neu eiddo sydd wedi ei ddisodli) o dan delerau o'r fath, bydd angen i chi drin ystâd yr unigolyn a oroesodd fel petai ganddo hawl i elwa o ymddiriedolaeth.

Mae'r un rheolau ynghylch ymddiriedolaethau yn berthnasol. Felly mae angen i chi gynnwys buddiant yn y tŷ fel ased 'ymddiriedolaeth' a gwerth y tŷ ar y farchnad agored (neu gyfran o'r tŷ) yw gwerth ased yr ymddiriedolaeth.

Os, cyn pen 7 mlynedd o'r farwolaeth, mae'r unigolyn sy'n goroesi yn peidio â meddiannu'r eiddo, neu mae'r eiddo'n cael ei werthu ac nid yw'r holl arian a geir yn cael ei ail-fuddsoddi mewn eiddo arall, caiff yr unigolyn sy'n goroesi ei drin fel petai'n trosglwyddo cyfalaf yr ymddiriedolaeth y mae'n peidio ag elwa ohoni. Cynhwyswch y ffigur hwnnw fel rhodd.

## Prisio busnes

Mae'n rhaid i chi gynnwys gwerth busnes yr ymadawedig ar y farchnad agored neu fuddiant yr ymadawedig mewn busnes. Efallai y bydd angen i chi addasu'r gwerth o gyfrifon y busnes pan fo'r asedion wedi'u cynnwys ar eu 'llyfrwerth' neu pan fo'r asedion wedi'u cynnwys ar wahân ar ffurflen IHT400.

Ysgrifennwch y gwerth ar y farchnad agored ym mlwch 7 o Atodlen IHT413, 'Buddiannau ac asedion busnes a phartneriaeth'. Copïwch y ffigur hwn i'r blwch perthnasol neu ble mae'r asedion wedi'u cynnwys ar wahân yn ffurflen IHT400.

Cofiwch ddidynnu'r rhyddhad gan ddefnyddio'r un ffigur ym mlwch 93 ar ffurflen IHT400.

### Llyfrwerth

Llyfrwerth yw gwerth cwmni fel y mae'n ymddangos ar y fantolen, ac mae'n hafal i gyfanswm yr asedion ac asedion diriaethol, er enghraifft ewyllys da, llai'r rhwymedigaethau. Bydd gwerth asedion fel maent yn ymddangos ar fantolen yn hafal i gost yr asedion llai dibrisiad cronedig. Mae'r llyfrwerth felly yn gwahaniaethu'n sylweddol i'r gwerth ar y farchnad agored.

### Gwerth y farchnad agored

At ddibenion Treth Etifeddiant gwerth marchnad agored ased yw'r pris y mae'n rhesymol disgwyl ei gael am werthu ased petai'n cael ei werthu ar y farchnad agored ar adeg trosglwyddo'r ased hwnnw.

Heblaw am dir, yr asedion a gynhwysir amlaf mewn cyfrifon busnes am eu llyfrwerth yw stoc ac ewyllys da'r busnes. Efallai y byddwch yn cynnwys y tir ar wahân ar ffurflen IHT400. Os felly, bydd angen i chi ddidynnu'r gwerth hwnnw, neu gyfran yr ymadawedig ohono, o werth buddiant yr ymadawedig yn y busnes.

Os nad ydych, bydd angen i chi gael gwerth marchnad agored ar gyfer tir ac asedion eraill pan gynhwyswyd llyfrwerth asedion megis stoc ac ewyllys da. Os yw'r gwerth marchnad agored yn fwy na'r llyfrwerth, ychwanegwch y cynnydd yn y gwerth, neu gyfran yr ymadawedig o'r cynnydd hwnnw, at werth buddiant yr ymadawedig yn y busnes. Os yw'r gwerth marchnad agored yn llai na'r llyfrwerth, didynnwch y gostyngiad yn y gwerth, neu gyfran yr ymadawedig o'r gostyngiad hwnnw, o werth buddiant yr ymadawedig yn y busnes.

Esboniwch sut rydych wedi cyfrifo eich prisiad ar gyfer y busnes neu fuddiant y busnes ym mlwch 9 ar Atodlen IHT413. Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch flwch 25 'Gwybodaeth ychwanegol' ar ffurflen IHT413.

## Tanysgrifenwyr Lloyd's

Os oedd yr ymadawedig yn Danysgrifennwr yn Lloyd's, dylech gynnwys gwerth busnes yr ymadawedig fel Tanysgrifennwr fel buddiant mewn busnes.

## Prisio arian

Dylech gynnwys pob math o arian a dyledion a oedd yn ddyledus i'r ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth fel asedion ystâd yr ymadawedig.

Er enghraifft:
- arian yr oedd yr ymadawedig wedi rhoi benthyg i rywun arall ac nad oedd wedi'i ad-dalu ar ddyddiad y farwolaeth
- arian yr oedd yr ymadawedig wedi rhoi benthyg i ymddiriedolwyr mewn perthynas â pholisi aswiriant bywyd a gadwyd mewn ymddiriedolaeth
- arian roedd yr ymadawedig yn dal nodyn addewidiol neu 'IOU' ar ei gyfer
- arian yr oedd yr ymadawedig wedi rhoi benthyg i rywun ac sydd wedi'i sicrhau drwy forgais ar eiddo
- arian sy'n ddyledus i'r ymadawedig o gyfrif benthyciad cyfarwyddwr neu gyfrif cyfredol cwmni

**Pa werth i'w ddefnyddio?**
Cynhwyswch wynebwerth y benthyciad, ar ôl didynnu unrhyw ad-daliadau a wnaethpwyd.

# Eithriadau a rhyddhad - mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth fanylach am eithriadau a rhyddhad

## Eithriadau sy'n gymwys i roddion oes yn unig

Rhoddion bychain hyd at £250 mewn unrhyw flwyddyn dreth i unrhyw unigolyn. Gellir rhoi anrhegion bychain o'r fath i unrhyw nifer o wahanol bobl.

Eithriad blynyddol o £3,000 mewn unrhyw un flwyddyn dreth. Gallwch gario ymlaen yr eithriad llawn o £3,000 neu ran ohono nad yw wedi'i ddefnyddio i'r flwyddyn dreth nesaf ond nid ymhellach.

Rhoddion oes sy'n cynrychioli gwariant arferol o incwm y trosglwyddwr. Mae'r rhain wedi'u heithrio ar yr amod nad yw'r safon byw a sefydlwyd gan y trosglwyddwr wedi'i ostwng gan y rhoddion, daeth y rhoddion o incwm ac nid cyfalaf ac mae patrwm rhoi wedi'i sefydlu.

Gall y rhoddion gynnwys:
- taliadau mis neu reolaidd i rywun - gan gynnwys rhoddion Nadolig neu wyliau eraill, pen-blwyddi pobl neu ddathliadau pen-blwydd arall
- premiymau rheolaidd ar bolisi yswiriant bywyd

Llenwch dudalennau 2 a 6 Atodlen IHT403, 'Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth' os ydych am ddidynnu'r eithriad hwn.

Rhoddion mewn cydnabyddiaeth o briodas neu bartneriaeth sifil hyd at y symiau canlynol:
- £5,000 os rhoddwyd y rhodd gan riant neu lys riant y naill ochr y briodas neu'r bartneriaeth sifil neu'r llall
- £2,500 os rhoddwyd y rhodd gan dad-cu/mam-gu neu daid/nain un ochr neu'r llall
- £1,000 mewn unrhyw achos arall

## Eithriadau sy'n gymwys i roddion oes a throsglwyddiadau ar farwolaeth

**Eithriad priod neu bartner sifil**
Mae pob trosglwyddiad rhwng gŵr/gwraig sydd wedi priodi'n gyfreithlon a phartneriaid sifil sydd wedi cofrestru'n gyfreithlon, wedi'u heithrio gydag un eithriad. Os yw'r unigolyn sy'n trosglwyddo yn breswylydd tymor hir yn y DU (neu fod yr unigolyn sy'n trosglwyddo â'i ddomisil yn y DU ar gyfer trosglwyddiadau ar neu cyn 5 Ebrill 2025) ac nid yw'r derbynnydd yn breswylydd tymor hir yn y DU (neu nid oedd â'i ddomisil yn y DU ar gyfer trosglwyddiadau ar neu cyn 5 Ebrill 2025), yna mae'r Eithriad i Briod neu Bartner Sifil wedi'i gyfyngu i swm yr haen cyfradd sero ar adeg y trosglwyddiad. Fodd bynnag, os gwnaed y trosglwyddiad cyn 6 Ebrill 2013, mae'r eithriad wedi'i gyfyngu i £55,000.

Os oedd yr ymadawedig wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil ac nid oedd yn breswylydd tymor hir yn y DU (neu nid oedd yr ymadawedig â'i ddomisil yn y DU ar gyfer trosglwyddiadau ar neu cyn 6 Ebrill 2025) ar adeg y farwolaeth, mae gan ei gynrychiolydd personol yr opsiwn i ddewis bod yr ymadawedig yn cael ei drin fel ei fod yn breswylydd tymor hir yn y DU (neu fod â'i ddomisil yn y DU). Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn fod o fudd i'r ystâd, ond bydd yn rhaid i'r cynrychiolwyr personol ystyried hyn yn ofalus iawn oherwydd unwaith y gwneir dewis, ni ellir ei dynnu'n ôl.

Mae rheol arbennig yn bodoli os bu i'r ymadawedig elwa o ymddiriedolaeth a sefydlwyd gan Ewyllys neu drwy ddiewyllysedd priod neu gyn briod a fu farw cyn 13 Tachwedd 1974. Ni ystyrir gwerth yr ymddiriedolaeth os:
- talwyd Treth Ystâd, neu cafodd ei thrin fel petai wedi'i thalu, ar gyfer y farwolaeth gynharaf, ar yr asedion yn yr ymddiriedolaeth

Gwefan:
www.gov.uk/treth-etifeddiant
Llinell Gymorth: 0300 200 1900

- nid oedd yr ymadawedig yn gallu gwaredu'r asedion

Os rhoddwyd y pŵer i'r ymadawedig i ddatgan sut y dylid delio â'r asedion yn ystod ei oes neu ei farwolaeth, ni fyddai'r eithriad yn gymwys. Os ydych yn didynnu'r eithriad hwn o'r asedion mewn ymddiriedolaeth, bydd unrhyw incwm a ddosrannwyd y dylid ei nodi ym mlwch 75 ar ffurflen IHT400 wedi'i eithrio hefyd. Ond nid yw'r eithriad yn gymwys i incwm cronedig nad oedd wedi'i dalu i'r ymadawedig ac a gynhwyswyd ym mlwch 75.

## Elusennau cymwys

**Rhoddion a chymynroddion i elusennau cymwys**
Bydd holl roddion oes a chymynroddion ar farwolaeth i elusennau cymwys a chymdeithasau tai cofrestredig wedi'u heithrio ar yr amod bod y rhodd wedi'i roi i'r elusen a'r gymdeithas adeiladu yn llwyr.

**Elusennau cymwys**
O 1 Ebrill 2023 ymlaen, mae elusen gymwys yn un sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- mae'n elusen a sefydlwyd at ddibenion elusennol
- mae'n elusen gofrestredig yn y DU at ddibenion Treth Etifeddiant o 1 Ebrill ymlaen
- mae'n elusen â rheolwyr sy'n addas a phriodol i fod yn rheolwyr yr elusen

## Rhoddion at ddibenion cenedlaethol

Mae rhoddion a chymynroddion i rai cyrff cenedlaethol wedi'u heithrio rhag Treth Etifeddiant. Mae'r mwyafrif o'r cyrff hyn yn gyrff treftadaeth cenedlaethol a lleol megis y Galeri Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

## Eithriadau Treftadaeth Genedlaethol

Ceir nifer o eithriadau ar gyfer rhoddion o eiddo treftadaeth neu hanesyddol eraill. Os ydych yn hawlio'r eithriadau hyn, llenwch Atodlen IHT420, *'Asedion Treftadaeth Genedlaethol - Eithriad amodol a chronfeydd cynnal a chadw'*.

## Rhoddion i bleidiau gwleidyddol

Eithrir rhoddion llwyr i bleidiau gwleidyddol y Deyrnas Unedig, ar yr amod yr oedd gan y blaid yn yr etholiad cyffredinol diwethaf a chyn dyddiad y rhodd i'r blaid, o leiaf dau aelod seneddol wedi eu hethol i Dŷ'r Cyffredin, neu o leiaf un aelod etholedig a bod y blaid wedi cael o leiaf 150,000 pleidlais.

Os nad ydych yn siŵr a yw un o'r eithriadau hyn yn gymwys oherwydd ni throsglwyddwyd yr arian yn uniongyrchol i'r sefydliad neu os yw'r ewyllys yn cyfyngu ar sut y dylid defnyddio'r arian, ffoniwch ein Llinell Gymorth ac esboniwch yr amgylchiadau.

## Rhyddhad a allai fod yn gymwys i roddion oes a throsglwyddiadau ar farwolaeth

Gallai Rhyddhad Amaethyddol a Rhyddhad Busnes fod yn gymwys i drosglwyddiadau o asedion amaethyddol neu fusnes. Cynhwysir y rhyddhadau hyn yn yr adrannau ar Atodlen IHT414, *'Rhyddhad Amaethyddol'* ac Atodlen IHT413, *'Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau'.*

## Rhyddhad rhag taliadau olynol

Yn y 5 mlynedd cyn marw, os etifeddodd yr ymadawedig arian neu asedion o ystâd rhywun arall y talwyd Treth Etifeddiant arni'n barod, gallwch ddidynnu rhyddhad taliadau olynol i atal yr etifeddiaeth rhag cael ei threthu ddwywaith mewn cyfnod byr o amser.

Mae'r rhyddhad yn gostwng y Dreth Etifeddiant a godir ar yr ystâd marwolaeth gan ganran o'r dreth a godwyd yn sgil y farwolaeth gyntaf ar y cynnydd yn ystâd yr ymadawedig.

Mae swm y rhyddhad yn dibynnu ar nifer y blynyddoedd rhwng y farwolaeth gyntaf a dyddiad marwolaeth yr ymadawedig, ac yn gweithredu ar raddfa symudol.

| Blynyddoedd rhwng y ddwy farwolaeth | Canran y gostyngiad |
|---|---|
| 1 flwyddyn neu lai | 100% |
| 1 i 2 | 80% |
| 2 i 3 | 60% |
| 3 i 4 | 40% |
| 4 i 5 | 20% |
| Dros 5 mlynedd | 0% |

Os yw'r ail farwolaeth yn syrthio ar yr un dyddiad mewn blynyddoedd olynol â'r farwolaeth gyntaf, defnyddiwch y ganran uchaf. Os yw marwolaeth yr ymadawedig yn syrthio mwy na 5 mlynedd ar ôl y farwolaeth gyntaf, nid oes rhyddhad. Gall y rhyddhad dim ond gostwng y dreth sy'n daladwy i ddim. Ni all greu ad-daliad treth.

**Enghraifft**
Bu farw Tracy ym mis Ionawr 2010 ac etifeddodd Hassan £200,000 o'i hystâd. Prisiwyd ystâd Tracy yn £340,000 a thalwyd £10,000 mewn Treth Etifeddiant. Mae Hassan yn marw ym mis Awst 2011.

Dyma cyfrifiad y rhyddhad taliad olynol:

| | |
|---|---|
| Treth Etifeddiant a godwyd ar yr ystâd gyntaf | £10,000 |
| Gwerth yr ystâd gyntaf | £340,000 |
| Cynnydd yn ystâd yr ymadawedig | £200,000 |
| Canran y gostyngiad | 80% |
| £10,000 wedi'i rannu gan £340,000 | £0.0294 |
| 0.0294 x £200,000 | £5,880 |
| (£5,880 x 80%) | £4,704 |

£4,704 yw swm y rhyddhad taliad olynol all gael ei ddidynnu o'r Dreth Etifeddiant a ellir ei godi ar ystad Hassan.

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar ffurflen IHT400, *'Cyfrifiad'* i hawlio'r rhyddhad.

## Rhyddhad arall

Ceir dau eithriad arall sy'n gymwys i roddion. Bydd y rhain ond yn gymwys os yw cyfanswm y rhoddion a wnaed yn ystod oes yr ymadawedig yn fwy na'r terfyn treth pan fu farw'r ymadawedig fel bod peth treth i'w thalu ar y rhoddion eu hunain.

## Rhyddhad Meinhau

Os oes unrhyw dreth i'w thalu ar rodd, gostyngir y dreth gan raddfa symudol ar gyfer rhoddion a wnaed mwy na thair blynedd ond llai na saith mlynedd cyn y farwolaeth, cyhyd â bod cyfanswm y rhoddion a wnaed gan yr ymadawedig yn uwch na'r haen cyfradd sero.

Rhaid i'r dreth gael ei thalu gan yr unigolyn a gafodd y rhodd felly ni fydau'r rhyddhad fel arfer yn berthnasol wrth gyfrifo'r dreth sy'n rhaid ei thalu cyn y gallwch wneud cais am grant.

Fodd bynnag, os hoffai'r unigolyn a gafodd y rhodd dalu'i dreth pan fyddwch yn gwneud cais am grant, gallwch anfon y taliadau gyda'i gilydd. Rhaid i chi ddilyn yr holl gamau ar ffurflen IHT400 o hyd er mwyn cyfrifo'r dreth sy'n rhaid ei thalu ar ystâd yr ymadawedig. Mae'r enghraifft yma yn eich helpu i gyfrifo'r dreth sy'n daladwy ar drosglwyddiad yn ystod bywyd yr ymadawedig. Nodwch y cyfrifiannau rydych wedi'u gwneud yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 o'r IHT400 a nodwch sut y dylid

defnyddio'r taliad rydych yn ei anfon atom.

Mae swm y Rhyddhad Meinhau yn dibynnu ar hyd yr amser y gwnaeth yr ymadawedig goroesi'r trosglwyddiad. Gostyngir y dreth a godir trwy godi'r canrannau canlynol o'r gyfradd lawn.

| Blynyddoedd rhwng trosglwyddo a'r farwolaeth | Rhyddhad Meinhau % |
|---|---|
| 3 i 4 | 20% |
| 4 i 5 | 40% |
| 5 i 6 | 60% |
| 6 i 7 | 80% |

**Enghraifft**

Gwnaeth C rodd o £300,000 ar 1 Chwefror 2002. Bu farw C ar 20 Mehefin 2005.

Roedd yr haen cyfradd sero yn £275,000 ar ddyddiad y farwolaeth.

Mae'r rhodd yn uwch na'r haen cyfradd sero o £25,000.

Cyfradd dreth llawn ar y rhodd. 40% x £25,000 = £10,000.

Mae'r rhodd o fewn 3 i 4 blynedd o'r farwolaeth, felly mae Rhyddhad Meinhau o 20% yn ddyledus. Rhyddhad Meinhau: £10,000 x 20% = £2,000.

Treth ddiwygiedig a godir: £10,000 + £2,000 = £8,000.

## Rhyddhad am gwymp mewn gwerth

Os yw gwerth yr asedion a rhoddwyd am ddim wedi disgyn rhwng dyddiad y rhodd a dyddiad y farwolaeth, gellir codi treth ar y gwerth is ar ddyddiad y farwolaeth.

Mae'r rhyddhad ond yn gymwys os yw gwerth y rhoddion yn uwch na'r haen cyfradd sero. Ceir rheolau eraill hefyd felly ffoniwch ein Llinell Gymorth os credwch y gallai'r rhyddhad hwn fod yn gymwys. Os ydych am ddidynnu'r rhyddhad hwn, cynhwyswch y gwerth ar ddyddiad y farwolaeth yn y golofn 'disgrifiad o'r asedion' ar Atodlen IHT403, 'Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth', ond peidiwch â newid y gwerth ar ddyddiad y farwolaeth. Byddwn yn edrych ar yr hawliad ar ôl rhoi'r grant.

# Ble i gynnwys eitemau yn yr ystâd

I'ch helpu i lenwi ffurflen IHT400 yn gywir rydym wedi cynhyrchu'r rhestr hon o asedion a dyledion sy'n cael eu cynnwys yn gyffredin yn ystâd unigolyn, ynghyd â rhif yr atodlen, y rhif blwch ar ffurflen IHT400 lle mae angen i chi ei gynnwys, a lle gellir dod o hyd i wybodaeth am lenwi'r blwch hwnnw yn y canllaw hwn.

| Eitem | Atodlen(ni) | Wedi'i gynnwys ym mlwch IHT400 | Tudalen(nau) Nodiadau IHT400 |
|---|---|---|---|
| **A**d-daliad Treth Enillion Cyfalaf | - | 74 | 48 |
| Ad-daliad Treth Incwm | - | 74 | 48 |
| Arian (darnau arian neu arian papur) | - | 53 | 44 |
| Asedion busnes | IHT413 | 69 | 34, 47 |
| Asedion busnes ffermio | IHT414 | 69 | 34, 37, 47, 72 |
| Asedion enwebedig | - | 101 | 54 |
| Asedion ymddiriedolaeth | IHT418 | 99, 100, 105 | 15, 39, 54 |
| **B**enthyciadau diwarant | IHT419 | 82 | 51 |
| Benthyciadau wedi'u gwarantu | IHT419 | 80 | 50 |
| Biliau'r cartref | - | 82 | - |
| Biliau'r cartref ar y cyd | IHT404 | 50 | 13, 23 |
| Biliau cerdyn credyd | - | 82 | 49 |
| Bondiau premiwm | IHT406 | 54 | 44 |
| Buddiant mewn ystâd arall | IHT415 | 71, 72 | 48 |
| Busnes | IHT413 | 69 | 34, 47, 72 |
| **C**arafannau | IHT407 | 55 | 26, 70 |
| Ceir | IHT407 | 55 | 26, 70 |
| Coed | IHT405 | 69 | 47 |
| Coetiroedd | IHT405, IHT413 | 69 | 47 |
| Creiriau | IHT407 | 55 | 26, 45, 70 |
| Cronfeydd pensiwn | IHT409 | 56 | 13, 27, 45 |
| Cychod | IHT407 | 55 | 26, 70 |
| Cyfradd is y Dreth Etifeddiant | IHT430 | 109 | 54 |
| Cyfranddaliadau tramor | IHT417 | 98 | 15 |
| Cyfrifon ar y cyd gyda banciau a chymdeithasau adeiladu | IHT404 | 50 | 13, 23 |
| Cyfrifon banc | IHT406 | 52 | 44 |
| Cyfrifon banc tramor | IHT417 | 98 | 15 |
| Cyfrifon cymdeithas adeiladu | IHT406 | 52 | 44 |
| Cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol | IHT406 | 54 | 44, 69 |
| **D**ifidendau ar stociau a chyfranddaliadau heb eu rhestru | IHT412 | 64 | 46, 67 |
| Difidendau ar stociau a chyfranddaliadau wedi'u rhestru | IHT411 | 64 | 31, 46, 67 |
| Dodrefn | IHT407 | 55 | 26, 45, 70 |
| Dyledion a warantwyd | IHT419 | 82 | 51 |
| Dyledion i ffrindiau neu'r teulu | IHT419 | 82 | 17, 50 |
| Dyledion sy'n ddyledus i'r ymadawedig | IHT416 | 73 | 48 |
| **E**iddo busnes | IHT405, IHT413 | 69 | 34, 47 |
| **F**fermdai | IHT405, IHT414 | 68 | 37, 47 |
| Ffermydd | IHT405, IHT414 | 68 | 37, 47 |
| **G**emwaith | IHT407 | 55 | 26, 70 |
| Goreurad (gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig) | IHT411 | 62 | 45, 68 |
| Gwarantau Llywodraeth y Deyrnas Unedig | IHT411 | 62 | 45, 68 |

| | Atodlen(ni) | Wedi'i gynnwys ym mlwch IHT400 | Tudalen(nau) Nodiadau IHT400 |
|---|---|---|---|
| **I**ncwm o ymddiriedolaeth | - | 75 | 48 |
| **L**log ar gyfrifon banc | IHT406 | 52 | 44 |
| Llog ar gyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu | IHT406 | 52 | 44 |
| Llog ar stociau a chyfranddaliadau | IHT411 | 64 | 46, 69 |
| Llog atchweliadol | IHT418 | 76 | 40 |
| **M**orgais | - | 80 | 49 |
| Morgais ar y cyd | IHT404 | 49 | 13, 23 |
| **N**wyddau tŷ sy'n eiddo ar y cyd | IHT404 | 50 | 13, 23 |
| **Ô**l-ddyledion pensiwn | - | 56 | 45 |
| **P**aentiadau a gwaith celf | IHT407 | 55 | 26, 45, 70 |
| Polisïau aswiriant bywyd | IHT410 | 57 | 14, 45 |
| Polisïau aswiriant bywyd ar y cyd | IHT404 | 50 | 13, 23 |
| Polisi diogelu morgais ar y cyd | IHT404 | 50 | 24 |
| Polisïau diogelu morgeisi | - | 57 | 51 |
| **R**hoddion gan yr ymadawedig | IHT403 | 113 | 12, 18 |
| Rhwymedigaeth Treth Enillion Cyfalaf | - | 82 | - |
| Rhwymedigaeth Treth Incwm | - | 82 | - |
| **S**tociau a chyfranddaliadau a fasnachwyd ar AIM | IHT412 | 65 | 33 |
| Stociau a chyfranddaliadau a restrir ar y Gyfnewidfa Stoc | IHT411 | 63 | 14, 31, 46, 67, 68, 69 |
| Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd | IHT412 | 65 | 14, 32 |
| **T**ai a fflatiau (ar rent i eraill) | IHT405 | 70 | 47, 70 |
| Tai, fflatiau a thir sy'n eiddo ar y cyd | IHT404 | 49 | 13, 23 |
| Tai, tir ac adeiladau tramor | IHT417 | 97 | 15 |
| Tir (ac eithrio tir fferm) | IHT405 | 70 | 47, 70, 71 |
| Tir amaethyddol | IHT405, IHT414 | 68 | 37, 47 |
| Tir fferm | IHT405, IHT414 | 68 | 37, 47 |
| Tŷ neu fflat (preswylfa'r ymadawedig) | IHT405 | 51 | 43, 70 |
| **Y**mddiriedolaethau unedol | IHT411 | 63 | 67 |

Cyllid & Thollau EF

# Ffurflen adborth IHT400

**1 Faint o'r canllaw hwn y gwnaethoch ei ddarllen?**

Y canllaw cyfan ☐

Y rhan fwyaf ohono ☐

Rhan ohono ☐

Dim ohono, bron ☐

**2 Pa mor hawdd oedd y canllaw hwn i'w ddeall?**

**2a** Roedd yn hawdd ei ddeall ☐

**2b** Deallais y rhan fwyaf ohono ond gallai rhannau ohono fod yn gliriach ☐

**2c** Roedd yn anodd ei ddeall ☐

**2ch** Doeddwn i ddim yn ei ddeall ☐

Os gwnaethoch roi tic ym mlwch 2b, nodwch isod pa rannau gallai fod yn fwy clir

**3 Pa mor hawdd oedd hi i lenwi ffurflen IHT400?**

**3a** Roedd y ffurflen yn hawdd ei deall ac roeddwn yn gwybod beth i'w wneud ☐

**3b** Roedd y rhan fwyaf o'r ffurflen yn hawdd ei deall ond gallai rhannau ohoni fod yn gliriach ☐

**3c** Roedd yn anodd ei deall ac nid oeddwn bob amser yn gwybod beth i'w wneud ☐

**3ch** Ni allwn ei llenwi heb gymorth ☐

Os gwnaethoch roi tic ym mlychau 3b neu 3c, nodwch pa rannau allai fod yn haws eu deall

Os oes gennych sylwadau eraill am ffurflen IHT400, y canllaw hwn neu unrhyw atodlen y bu'n rhaid i chi ei llenwi, nodwch y sylwadau dros y dudalen.

Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddalen ar wahân.

**Os ydych am gael ymateb i'ch adborth, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad.**

**Enw**

**Cyfeiriad**

Cod post

## Gwybodaeth ychwanegol

Os bydd angen, gallwch barhau ar ddalen ar wahân.



79

# Cysylltiadau

Os oes angen copi arnoch o un o'n ffurflenni gallwch wneud y canlynol:

- ei lawrlwytho o'n gwefan www.gov.uk/government/collections/inheritance-tax-forms
- ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd o Dreth Etifeddiant, ewch i'n gwefan neu ffoniwch y Llinell Gymorth.

## Ein cyfeiriad

Cyllid a Thollau EF
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

## Ein gwefan a'n llinell gymorth

Gwefan: www.gov.uk/topic/personal-tax/inheritance-tax

Llinell Gymorth: 0300 200 1900

Nid oes gan y llyfryn hwn rym cyfreithiol. Mae'n adlewyrchu'r gyfraith dreth ar adeg ei ysgrifennu. Efallai y bydd yn rhaid i ni ystyried amgylchiadau arbennig ar gyfer ystâd benodol. Cewch ragor o wybodaeth am Dreth Etifeddiant ar ein gwefan yn www.gov.uk/treth-etifeddiant neu, os na allwch gyrchu'r rhyngrwyd, drwy ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF.

# Ymwadiad e-bost gan CThEF

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

## Os oes gennych gŵyn

I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefnau cwyno, ewch i www.gov.uk/cwyno-am-cthem

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/about/personal-information-charter.cy

## Cyfrinachedd

Mae gennych hawl i'r un graddau uchel o gyfrinachedd â phob trethdalwr arall. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gadw'ch materion yn hollol gyfrinachol ac ni allwn roi gwybodaeth i eraill ynglŷn ag ystâd, ymddiriedolaeth neu drosglwyddiad hyd yn oed os oes ganddynt fuddiant ynddo, oni bai bod y gyfraith yn ein caniatáu i wneud hynny. Golyga hyn y gallwn drafod materion trethdalwr gyda'r unigolyn hwnnw yn unig, neu gyda rhywun arall y mae'r trethdalwr wedi'i benodi i weithredu ar ei ran. Yn achos rhywun sydd wedi marw, golyga hyn y gallwn drafod ystâd gyda'r bobl (neu'r person) sydd wedi llofnodi a chyflwyno ffurflen IHT400, hynny yw, yr ysgutorion neu'r gweinyddwyr, neu unigolyn arall a benodwyd i weithredu ar ran y trethdalwr, fel arfer cyfreithiwr neu gyfrifydd.

Defnyddiwch yr wybodaeth ganlynol i benderfynu a ydych am ddelio â ni drwy e-bost. Mae diogelu gwybodaeth bersonol yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd o ddifrif. Nid yw anfon e-byst yn hollol ddiogel, felly mae'n bwysig iawn eich bod yn deall y risgiau cyn i chi anfon e-bost atom. Ni fyddwn yn delio â chi drwy e-bost oni bai eich bod yn rhoi gwybod i ni eich bod yn derbyn y risgiau o wneud hynny.

## Yngl-n â'r risgiau

Mae'r prif risgiau, sy'n gysylltiedig â defnyddio e-byst sy'n ymwneud â CThEF, fel a ganlyn:

- cyfrinachedd a phreifatrwydd – mae risg y gallai e-byst a anfonir dros y rhyngrwyd gael eu rhyng-gipio
- cadarnhau pwy ydych chi – mae'n hanfodol ein bod yn cyfathrebu â chysylltiadau dilys yn eu cyfeiriadau e-bost cywir yn unig
- nid oes sicrwydd bod e-bost a geir dros rwydwaith anniogel, fel y rhyngrwyd, heb gael ei newid ar y ffordd
- gallai atodiadau gynnwys feirws neu god maleisus

Byddwn yn gwneud gwybodaeth yn llai sensitif, er enghraifft drwy ddefnyddio rhan o gyfeirnod unigryw yn unig. Gallwn hefyd ddefnyddio amgryptio. Rydym yn hapus i drafod sut y gallech wneud yr un peth ond dal i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom.

## Os nad ydych yn dymuno defnyddio e-bost

Efallai y byddai'n well gennych i ni beidio ag ateb eich ymholiad drwy e-bost, er enghraifft oherwydd bod gan bobl eraill fynediad at eich cyfrif e-bost. Os felly, rydym yn hapus i ateb mewn ffordd arall. Byddwn yn cytuno hyn â chi naill ai dros y ffôn neu ar bapur drwy'r post.

## Os ydych yn dymuno defnyddio e-bost

Os hoffech i CThEF ddefnyddio e-bost fel un o'i ddulliau o gysylltu â chi, bydd angen i chi gadarnhau'r canlynol yn ysgrifenedig drwy'r post neu drwy e-bost:

- rydych yn deall ac yn derbyn y risgiau o ddefnyddio e-bost
- rydych yn fodlon i wybodaeth ariannol gael ei hanfon drwy e-bost
- gellir defnyddio atodiadau

Os mai chi yw'r asiant neu'r cynrychiolydd awdurdodedig, bydd angen i chi gadarnhau'n ysgrifenedig drwy'r post neu drwy e-bost fod eich cleient yn deall ac yn derbyn y risgiau.

Bydd angen i chi wneud y canlynol hefyd:

- anfon enwau a chyfeiriadau e-bost yr holl bobl yr hoffech i ni ddefnyddio e-bost i gyfathrebu â nhw - er enghraifft, eich manylion chi, eich staff, eich cynrychiolydd, eich asiant
- cadarnhau nad yw'ch hidlwyr post sothach wedi'u gosod i wrthod a/neu ddileu e-byst CThEF yn awtomatig

## Sut yr ydym yn defnyddio'ch cytundeb

Cedwir eich cadarnhad yn ein cofnodion, a bydd yn gymwys i ohebiaeth drwy e-bost yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu'r cytundeb yn rheolaidd i wneud yn siŠr nad oes unrhyw newidiadau.

## Optio allan

Gallwch ddewis peidio â defnyddio e-bost ar unrhyw adeg drwy roi gwybod i ni.

Mae rhagor o wybodaeth am bolisi preifatrwydd CThEF ar gael.
Ewch i www.gov.uk/government/publications/data-protection-act-dpa-information-hm-revenue-and-customs-hold-about-you.cy

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn ac maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Llwyfannau Digidol CThEF
Rhagfyr 2025 © Hawlfraint y Goron 2025

CThEF 12/25

Cyllid &
Thollau EF